| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR SAFONAU (PANEL CANIATÂD ARBENNIG) |
| DYDDIAD: | 4 MEDI 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | YSTYRIED CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | I GANIATÁU NEU I WRTHOD CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH SWYDDOGAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL / SWYDDOG MONITRO |
| SWYDDOG CYSWLLT: | LYNN BALL, PENNAETH SWYDDOGAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL / SWYDDOG MONITRO (est 2586) |

## DOGFENNAU SYDD YNGHLWM

1. Cais gan y Cynghorydd Alwyn Rowlands
2. Côd Ymddygiad i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn
3. Cyfarwyddyd OGCC ar y Côd Ymddygiad
4. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoi Caniatâd Arbennig) (Cymru) 2001
5. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Medi 2013.

## MATERION CYFREITHIOL

Yn unol â'r Côd Ymddygiad i Aelodau, bydd y rhai sydd â diddordebau personol a rhagfarnol yn cael eu cau allan rhag cymryd rhan ym musnes y Cyngor.

Mae'r rhestr o ddiddordebau personol i'w gweld ym mharagraff 10 y Côd ym **Mhapur 2.** Lle ceir diddordeb personol, rhaid i'r Aelod ddatgelu'r diddordeb mewn unrhyw gyfarfod lle bo busnes sy'n berthnasol i'r diddordeb yn cael ei drafod, ond fe all yr aelod barhau i gymryd rhan yn y drafodaeth ac yn y pleidleisio, fel fydd yn briodol.

Fodd bynnag, pe bai'r diddordeb personol hefyd yn un sy'n "rhagfarnu", yna ni chaniateir i'r aelod gymryd rhan yn y drafodaeth na'r pleidleisio a rhaid iddo hefyd fynd allan o ystafell y

cyfarfod. Gweler y diffiniad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym mharagraff 12 y Côd ym **Mhapur 2.**

Mae'r Côd hefyd yn cynnwys rhai darpariaethau arbedol, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol i'r cais ym **Mhapur 1.**

Mae'r gwaharddiad ar Aelodau sydd â diddordeb personol a rhagfarnol rhag cymryd rhan, a lle nad oes unrhyw ddarpariaeth arbedol yn berthnasol, yn un absoliwt, oni bai bod yr aelod yn gyntaf wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.

Ni ellir rhoi caniatadau arbennig ond mewn amgylchiadau penodol sydd wedi eu rhestru yn adran **2 Papur 4.** Gellir gwneud defnydd o fwy nag un sail ar gyfer rhoi caniatâd arbennig a hynny yn dibynnu ar ffeithiau penodol unrhyw achos, ond nid oes unrhyw seiliau eraill ar gael.

Pe bai'r Panel yn penderfynu caniatáu'r cais hwn, yna dylid hefyd roddi ystyriaeth i osod cyfyngiadau ac / neu ymestyn y caniatadau arbennig, i amgylchiadau yn y dyfodol lle y mae'r run rhwystr yn debygol o godi ac y dylid ei ddileu.

**CEFNDIR**

Cyfeirir y Panel at y Cais ym **Mhapur 1.** Mae'r Cais yn ymwneud â'r eitem ym **Mhapur 5.** Bydd Swyddog o'r Awdurdod Addysg Lleol yn mynychu'r Panel i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol. Bydd yr Ymgeisydd hefyd yn bresennol i egluro'r materion sydd dan ystyriaeth ac i ateb unrhyw gwestiynau.

**TREFN A AWGRYMIR I'R GWEITHGAREDDAU**

1. Cyflwyniad cyffredinol gan y Swyddog Monitro.

2. Briff cefndirol gan y Swyddog Awdurdod Addysg Lleol.

3. Y Swyddog Monitro yn cyflwyno'r Ymgeisydd cyntaf.

4. Cyfle i'r Ymgeisydd cyntaf roi ei gais ymlaen ac i ateb unrhyw gwestiynau fydd gan y Panel.

5. Cyfle i'r Panel ofyn unrhyw gwestiynau i'r Swyddogion fydd yn bresennol.

6. Y Panel i neilltuo i sesiwn breifat i benderfynu a ddylai roi'r caniatâd arbennig ai peidio, gan nodi y rhesymau am ei benderfyniad a, phe bai caniatâd arbennig yn cael ei roi, i nodi'r termau penodol ac unrhyw gyfyngiadau ar y caniatâd arbennig.

7. Bydd y Panel yn dychwelyd i sesiwn gyhoeddus i gadarnhau ei benderfyniad.

PAPUR / ENCLOSURE
1

**PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU AM GANIATÂD ARBENNIG YN UNOL AG OS 2001 Rhif 2279 (W. 169)**

1. **Enw'r Ymgeisydd**: Y Cynghorydd Alwyn Rowlands

2. **Cyfeiriad yr Ymgeisydd**: 13 Ffordd Meigan, Biwmares, Ynys Môn LL58 8HE

3. **Awdurdod Perthnasol**: Cyngor Sir Ynys Môn

4. **Pwyllgor/Pwyllgorau**: Y Pwyllgor Gwaith

5. **Diddordeb a gofrestrwyd yn unol ag Adran 81 (1) & (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 (os yw'n berthnasol):**

   Dim yn berthnasol.

6. **Manylion am y diddordeb y ceisir y Caniatâd Arbennig yn ei gylch:**

   Yr ymgeisydd yw'r un o'r tri Aelod lleol sy'n cynrychioli Ward Seiriol.

   Mae Ysgol Gynradd Llanddona yn Ward yr Ymgeisydd ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y posibilrwydd o gau'r ysgol. Mae'r Pwyllgor Gwaith i fod i wneud penderfyniad ar y mater hwn ar 15 Gorffennaf 2013.

   Mae'r Ymgeisydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

   Yn unol â pharagraff 10(2)(b) y Côd Ymddygiad, mae gan yr Ymgeisydd ddiddordeb personol yn rhinwedd ei rôl ddeuol fel aelod o'r corff sy'n gwneud penderfyniad a hefyd fel cynrychiolydd y gymuned a fydd yn cael ei heffeithio'n fwyaf sylweddol gan benderfyniad y Pwyllgor Gwaith.

   Dywed y Côd: **"rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol..".**

   O gofio pwysigrwydd y penderfyniad y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei wneud ar 15 Gorffennaf 2013, mae risg sylweddol y gellid dehongli'r diddordeb hefyd fel un sy'n cwrdd â'r prawf ar gyfer diddordeb sy'n rhagfarnu yn unol â pharagraff 12(1) y Côd: **"...os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus..."**

   Mae gan yr Ymgeisydd ddiddordeb personol, ac mae'n debygol y canfyddir bod ganddo ddiddordeb sy'n rhagfarnu hefyd, fel yr amlinellir uchod, oherwydd ei fod yn aelod lleol ar gyfer Ward Seiriol lle mae Ysgol Gynradd Llanddona wedi ei lleoli. Yn ogystal, mae hefyd

yn Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor, sef y corff sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch dyfodol yr ysgol. Yn yr amgylchiadau hyn, ni chaiff yr ymgeisydd gymryd rhan yn y penderfyniad heb ganiatâd arbennig.

7. **Seiliau Statudol dros wneud y Cais:**

OS 2001 rhif 2279 (W.168) Rhan 2

**2(d)** ***"the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business"***

(i) Nid yw hwn yn ddiddordeb ariannol nac yn un lle byddai canlyniad y penderfyniad yn manteisio neu'n anfanteisio'r ymgeisydd yn uniongyrchol neu unrhyw un y mae gan yr ymgeisydd gysylltiad personol agos â nhw.

(ii) Nid yw'r Ymgeisydd yn Llywodraethwr yr ysgol nac unrhyw ysgol arall sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y penderfyniad hwn.

(iii) Mae'r Ymgeisydd yn cydnabod, beth bynnag, bod gofyn iddo gydymffurfio gyda pharagraff 8(a) y Côd Ymddygiad sy'n dweud: **".. pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, gwnewch hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol..."**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ei bwriad i gael gwared ar y diddordeb personol a ddisgrifir ym mharagraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad i gydnabod ei fod yn dyblygu'r gofynion cyfreithiol ym mharagraff 8(a). Gan nad yw'r ddarpariaeth hon yn ychwanegu dim i'r Côd, mae'n fwy na thebyg y bydd yn cael ei dileu yn bur fuan. Dim ond y ddarpariaeth hon sy'n creu'r rhwystr y ceisir cael caniatâd arbennig yn ei gylch.

8. **Dyddiad cyflwyno'r cais** : 1 Gorffennaf 2013

9. **Angen Penderfyniad erbyn** : Cyn 9 Medi 2013.

---

A. **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau :**

B. **Dyddiad y Penderfyniad:**

C. **Partïon i'w hysbysu:**

PAPUR / ENCLOSURE
2

Ystyr "Swyddog Monitro" yw'r swyddog a ddynodwyd dan Adran 5(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

# Rhan 5 Codau a Phrotocolau

## 5.1 Côd Ymddygiad i Aelodau

## 5.2 Cod Ymddygiad Swyddogion

## 5.3 Protocol i'r Berthynas Rhwng Aelodau / Swyddogion

## 5.4 Polisi Bwlio ac Ymddygiad Bygythiol

## 5.5 Polisi Rhannu Pryderon

## 5.6 Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd

## 5.7 Polisi Pryderon a Chwynion

## 5.8 Protocolau Rheolaeth Wleidyddol

## 5.9 Rhoddion a Lletygarwch

## 5.1 Côd Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 09.05.2008 yn unol â'r drafft a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymgorffori'r angen i fynychu hyfforddiant gorfodol fel y caiff ei ddisgrifio yn Rhan 2 – Darpariaethau Cyffredinol paragraff 4(d)

### Rhan 1 – Dehongli

1. (1) Yn y cod hwn
mae "aelod" ("member") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall; ystyr "aelod cyfetholedig" ("co-opted member"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond—
(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu Is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r Is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("your authority") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("relevant authority") yw —

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (1) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(1) 2004 p.21

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (2);

(2) 1995 p.25

ystyr "cyfarfod" ("meeting") yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,
(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 (3),

(3) O.S. 1990/1553 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/1389; O.S. 1998/1918; ac O.S. 1999/500.

ac mae'n cynnwys amgylchiadau pan fo aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer un o swyddogaethau awdurdod; ac

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

Mewn perthynas â chyngor-cymuned, mae cyfeiriadau at swyddog monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod i'w darllen, yn y drefn honno, fel cyfeiriadau at swyddog monitro ac at bwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae ganddo swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol**

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn —

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

5. Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;
(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi —


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan—

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);
(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi —

(a) parchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**Rhan 3 - Buddiannau**

Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

(ee) yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

(b) pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol; neu

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;
(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy —

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu
(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf —

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw —

(a) yn gysylltiedig —

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg lawnamser, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir o dan adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 o Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan adran 18 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan adran 100 o Deddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

Pwyllgorau Trosolygu a Chraffu

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath ) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau

14. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal—

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod gollyngiad wedi ei roi i chi ar yr amod —

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys —

(aa) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y gollyngiad a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ollyngiad, rhaid i chi ddarparu manylion am y gollyngiad o fewn unrhyw gynrychioliad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

**Rhan 4 - Cofrestr Buddiannau Aelodau**

Cofrestru Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill ac Aelodaeth o Gyrff a Safleoedd Rheoli

15. (1) darostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl—

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach), gofrestru eich buddiannau ariannol a'ch buddiannau eraill, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod a gedwir o dan adran 81(1) o Deddf Llywodraeth Leol 2000, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu o newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan is-baragraff (1), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(4) Ni fydd is-baragraff (1) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

Gwybodaeth sensitif

16. (1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("sensitive information") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.

## Côd Ymddygiad Gweithwyr

## 5.2 Côd Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymwys Awdurdodau Perthnasol Yng Nghymru

### Y Côd

### Egwyddorion Cyffredinol

5.2.1 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan bob gweithiwr cymwys yn yr awdurdodau perthnasol. Rôl gweithwyr o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.

### Atebolrwydd

5.2.2 Mae gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol yn gweithio i'r awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r cyfan o'r awdurdod hwnnw. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae arnynt ddyletswydd tuag ato. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Côd hwn, gan gydnabod dyletswydd holl weithwyr y

PAPUR / ENCLOSURE
3

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

## ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol

## Rhagair

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn gennyf i, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn rhoi golwg gyffredinol o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol (y Cod) a gyflwynwyd yn 2008. Eu bwriad yw eich helpu chi fel aelod i ddeall eich dyletswyddau o dan y Cod. Mae'r Cod yn berthnasol i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru. Fel aelod, gofynnir i chi ymrwymo iddo fel rhan o'ch datganiadau wrth dderbyn eich swyddogaeth. Nid yw'r Cod yn berthnasol i weithredoedd awdurdodau yn eu cyfanrwydd, nac i ymddygiad eu swyddogion na'u gweithwyr. Mae cod ymddygiad ar wahân yn berthnasol i swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dyma ail fersiwn y canllawiau hyn, a byddant yn cael eu haddasu o bryd i'w gilydd i adlewyrchu cyfraith achosion ac unrhyw newidiadau i'r cod. Am y tro cyntaf mae'r fersiwn hon yn cynnwys canllawiau ar y trefniadau lleol ar gyfer delio â chwynion pan fydd aelod yn cwyno am aelod arall, ac unrhyw drefniadau ar gyfer cyfeirio cwynion am wasanaethau lleol i'w hystyried yn lleol. Nid yw'n cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i gynghorwyr tref a chymuned yn unig. Rwyf bellach wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned. Mae'n cynnwys enghreifftiau o achosion diweddar sydd wedi cael eu hystyried gan Banel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau safonau ledled Cymru.

Nod y tudalennau a ganlyn yw eich helpu i ddeall y Cod a'i ofynion yn gyffredinol. Mae Adran 1 yn cynnwys cyflwyniad ac mae Adran 2 yn amlinellu eich dyletswyddau o dan y Cod, gan gyfeirio at baragraffau penodol lle ceir rhagor o wybodaeth. Mae Adrannau 3 a 4 yn delio â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau, a'u nod yw egluro nifer o ddarpariaethau sydd yn Rhannau 3 a 4 y Cod. Gallwch gael gafael ar gopi o'r Cod drwy ei lwytho i lawr o wefan eich awdurdod neu drwy gysylltu â'ch Swyddog Monitro.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ddeall y Cod a sut mae'n berthnasol, ond nid oes gobaith iddynt roi sylw i bob sefyllfa bosibl. Yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am ofyn am gyngor penodol gan eich Swyddog Monitro a phenderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd.

Rwyf wedi defnyddio enghreifftiau er mwyn helpu i ddod â'r canllawiau hyn yn fyw. Mae'r enghreifftiau hyn yn trafod achosion go iawn sydd wedi cael eu hystyried gan fy swyddfa ac maent hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru.

Fel aelod, cynigir hyfforddiant i chi ar y Cod, naill ai gan Swyddog Monitro neu gan gorff cynrychioladol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar unrhyw hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau gloywi, i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Cod a sut y caiff ei ddehongli.

Wrth gyhoeddi'r cyngor hwn, rwyf yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd safonau i sicrhau iechyd ac effeithiolrwydd ein sefydliadau democrataidd yn y dyfodol. Mae'n bwysig y dylem i gyd gydweithio i godi safonau ac i greu diwylliant lle caiff aelodau eu parchu am fod yn anhunanol, yn wrthrychol ac am eu hymddygiad parchus. Os gwnawn ni hynny gallwn feithrin hyder y cyhoedd yn ein sefydliadau democrataidd a hyrwyddo llywodraethu da er budd pobl ein holl gymunedau.

**Peter Tyndall**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Medi 2012**

Caiff y canllawiau statudol hyn eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer aelodau etholedig, aelodau cyfetholedig ac aelodau a benodir ar:

- gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol;
- awdurdodau tân ac achub, ac
- awdurdodau parciau cenedlaethol

yng Nghymru.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r canllawiau hyn yn pwyso ar y canllawiau a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan Standards for England ar gyn God Ymddygiad Lloegr. Maent wedi cael eu hymestyn a'u diwygio er mwyn iddynt fod yn berthnasol i God Cymru ac i'r cyd-destun Cymreig. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennyf.

Mae canllawiau ar wahân ar gael ar gyfer aelodau Cynghorau Cymuned.

Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf Ebrill 2010.
Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn Medi 2012.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | **5** |
| • Yr Egwyddorion | 8 |
| • Penderfynu pryd mae'r Cod yn berthnasol i chi | 10 |
| **Rhan 2 – Dyletswyddau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad** | **11** |
| • Cydraddoldeb | 11 |
| • Trin pobl eraill â pharch | 12 |
| • Bwlio a harasio | 14 |
| • Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod | 15 |
| • Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | 16 |
| • Rhwystro mynediad at wybodaeth | 17 |
| • Anfri | 18 |
| • Rhoi gwybod am dorri'r Cod | 18 |
| • Cwynion blinderus | 19 |
| • Cydweithredu ag ymchwiliadau | 20 |
| • Defnyddio eich safle'n amhriodol | 20 |
| • Adnoddau'r awdurdod | 21 |
| • Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig | 22 |
| • Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol | 23 |
| • Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau | 24 |
| • Treuliau | 25 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 25 |
| **Rhan 3 – Buddiant personol ac sy'n rhagfarnu** | **26** |
| • Buddiant personol | 26 |
| • Datgan buddiant personol | 30 |
| • Buddiant sy'n rhagfarnu | 31 |
| • Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | 33 |
| • Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu | 33 |
| • Swyddogaethau gweithredol neu gabinet | 35 |
| • Goddefebau | 35 |
| **Rhan 4 – Cofrestru Buddiannau** | **36** |
| • Gwybodaeth sensitif | 38 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 38 |

# 1. Cyflwyniad

Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol (2000) yn creu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd yn creu pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol sy'n berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod perthnasol yng Nghymru. Cafodd y pŵer hwn ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn 2008, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol y mae'n rhaid i bob awdurdod perthnasol ei fabwysiadu.

Roedd yn rhaid i awdurdodau fabwysiadu'r Cod ar ei ffurf enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallent ychwanegu at y Cod, ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â'r Cod Enghreifftiol. Bwriad hyn oedd sicrhau aelodau a'r cyhoedd ynghylch pa safonau a ddisgwylir. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb drwy'r awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i'r cyhoedd ac i'r rheini sy'n aelodau o fwy nag un awdurdod.

Gofynnir i bwyllgorau safonau prif gynghorau helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig eu hawdurdodau ynghyd ag aelodau cynghorau tref a chymuned yn eu hardal i lynu wrth y Cod a threfnu i ddarparu cyngor a hyfforddiant. Rwyf yn argymell yn gryf y dylai pob aelod fynychu hyfforddiant a chymryd cyngor pan gaiff ei gynnig. Rwyf yn cefnogi awdurdodau unigol sy'n mynnu bod aelodau'n cael hyfforddiant ar y Cod cyn iddynt gael ymuno â rhai cyrff sy'n gwneud penderfyniadau megis pwyllgorau cynllunio.

Yn y pen draw, fel aelod, chi sy'n gyfrifol am y penderfyniadau a wnewch a gellir eich dal i gyfrif amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y cewch wneud penderfyniadau sy'n torri'r Cod neu sy'n mynd yn groes i gyngor oherwydd mai eich penderfyniad chi ydyw. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r cyfyngiadau y disgwylir i chi weithredu o'u mewn i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd fod â hyder yn y ffordd mae awdurdodau yng Nghymru yn gwneud eu penderfyniadau.

Fy swyddogaeth i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yw ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri'r Cod. Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, neu a ddylid parhau ag ymchwiliad i achos o dorri'r Cod, byddaf yn defnyddio prawf dau gam. Yn y lle cyntaf, byddaf yn ceisio canfod a oes tystiolaeth sy'n dangos bod y Cod wedi cael ei dorri.

Yr ail brawf y byddaf yn ei ddefnyddio yw a fyddai'r honiad o dorri'r Cod yn debyg o arwain at gosb. Mae gennyf ddisgresiwn ynghylch a ddylid ymchwilio ai peidio. Rwyf wedi mabwysiadu'r prawf hwn er mwyn egluro sut byddaf fel rheol yn defnyddio fy nisgresiwn a sicrhau cysondeb. Wrth ddefnyddio fy nisgresiwn, byddaf yn ystyried canlyniadau achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru ac yn penderfynu'n unol â hynny.

Wrth asesu cwyn neu unrhyw bryd ar ôl i mi ddechrau ymchwiliad, os byddaf yn credu na fydd ail ran y prawf dau gam wedi cael ei gyflawni, byddaf yn gofyn i'r Swyddog Monitro (ar y cyd â'r Pwyllgor Safonau) ystyried a yw ymchwiliad lleol yn briodol. Os felly, byddaf yn cyfeirio'r mater yn ffurfiol at y Swyddog Monitro i ymchwilio iddo o dan adran 70(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Fodd bynnag, os wyf yn gwybod am gwynion blaenorol ynghylch yr un aelod ac yn credu y gallai hyn fod yn dangos patrwm o dorri'r Cod, byddaf wedyn yn aml yn dewis ymchwilio. Os oes tystiolaeth prima facie o dorri'r Cod, ac nid wyf yn penderfynu ymchwilio, byddaf bob amser bron yn ysgrifennu at yr aelod dan sylw yn egluro na ddylid ystyried fy mhenderfyniad mewn unrhyw ffordd fel cymeradwyaeth ar gyfer torri'r Cod ac egluro y byddaf yn ei ystyried os ceir rhagor o honiadau o dorri'r Cod.

Mae'r broses byddaf yn ei defnyddio ar gyfer ymchwilio i gwynion ar gael ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk. Os byddaf yn canfod bod cyfiawnhad dros gŵyn, gallaf ei chyfeirio at eich Pwyllgor Safonau neu at dribiwnlys a fydd wedi'i gynnull gan Banel Dyfarnu Cymru. Os byddant wedyn yn profi'r gŵyn, gallant roi ystod o gosbau.

**Proses Datrys yn Lleol**

Yn ystod oes y canllawiau hyn rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol ledled Cymru weithredu gweithdrefnau datrys yn lleol i ddelio â chwynion lefel isel sy'n cael eu gwneud gan un aelod yn erbyn aelod arall. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn ymwneud â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) y Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus na gwamal yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(d) o'r Cod. Er bod rhyddid i aelod gwyno'n uniongyrchol wrthyf i am gyd-aelod, os bydd y mater o dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4b a 6(1)(d) rwyf yn debyg o gyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon.

Yn fy marn i mae'n fwy priodol datrys cwynion o'r fath yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses ac i sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu cyfeirio at ymchwilio i gwynion difrifol. Nod datrys yn lleol yw datrys materion yn gynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen. Mae hynny'n gallu difrodi'r berthynas a geir rhwng pobl yn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ofyn i'r aelod dan sylw ymddiheuro. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf i.

Ar ôl i mi ymchwilio i gŵyn, gallaf gyfeirio'r mater i Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru sydd â'r swyddogaethau canlynol:

**Pwyllgor Safonau**

Pan fydd Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, caiff benderfynu:

1. nad oes angen cymryd camau yng nghyswllt y methiant hwnnw;
2. dylid ceryddu'r aelod neu'r aelod cyfetholedig; neu
3. dylid gwahardd neu wahardd yn rhannol yr aelod neu'r aelod cyfetholedig rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod na chaiff fod yn fwy na chwe mis.

Mae cerydd o'r aelod dan sylw yn cymryd ffurf gyhoeddus.

Mae pwyllgorau safonau'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol ac aelodau etholedig o'r awdurdod. Efallai fod nifer o aelodau etholedig awdurdod wedi gweld materion sydd wedi codi yn siambr y Cyngor ac sydd wedyn yn gallu dod gerbron y Pwyllgor Safonau drwy ei broses datrys yn lleol. Yn yr amgylchiadau hyn gall Swyddog Monitro benderfynu y byddai'n iawn i unrhyw aelodau etholedig sydd wedi gweld y digwyddiadau y mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt ac sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau ystyried y mater drwy unrhyw broses datrys yn lleol. Fodd bynnag, petawn i'n ymchwilio i'r mater, mae'n debyg y byddai'r tystion hynny wedi cael cyfweliad fel rhan o'r ymchwiliad. Petawn i wedyn yn penderfynu cyfeirio'r mater yn ffurfiol at y Pwyllgor Safonau rwyf o'r farn bod rheolau cyfiawnder naturiol yn pennu na fyddai'n briodol i'r aelodau hynny a oedd yn dyst i'r digwyddiadau chwarae unrhyw ran yn y gwrandawiad dilynol ynghylch y mater.

Caiff aelod apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau i Banel Dyfarnu Cymru.

**Panel Dyfarnu Cymru**

Dyma'r pwerau sydd ar gael i'r tribiwnlys achos pan fydd yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â'r Cod:

1. anghymwyso yr atebydd rhag bod neu rhag dod yn aelod o'r awdurdod perthnasol dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o bum mlynedd;
2. gwahardd neu wahardd yn rhannol yr atebydd rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am hyd at 12 mis, neu
3. gymryd dim camau yng nghyswllt torri'r cod.

Pan fydd pwyllgor safonau neu dribiwnlys achos yn gwahardd neu'n gwahardd yn rhannol aelod neu aelod cyfetholedig mae'r aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw neu honno yn dal yn rhwym wrth y cod ymddygiad yn enwedig y darpariaethau ym mharagraffau 6(1)(a) (dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu awdurdod) a pharagraff 7 (defnyddio swyddogaeth aelod yn amhriodol).

# Yr Egwyddorion

Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol yn grymuso'r Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi egwyddorion y mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth gyflawni eich swyddogaeth fel aelod. Mae'r Cod yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn sydd wedi'u dylunio i hyrwyddo'r safonau uchaf posibl. Mae'r egwyddorion hyn yn dod o 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a oedd yn Adroddiad Nolan "Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban". Ychwanegwyd tri arall at y rhain; dyletswydd i gynnal y gyfraith; stiwardiaeth briodol o adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at bobl eraill.

Mae aelodau a etholir i awdurdodau lleol yn rhoi o'u hamser a'u hymrwymiad yn hael er budd eu cymunedau. Mae'r egwyddorion hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer sianelu eich ymrwymiad mewn ffordd sy'n adlewyrchiad da ohonoch chi a'ch awdurdod, ac a fydd yn rhoi'r hyder i'ch cymunedau yn y ffordd y caiff eich awdurdod ei lywodraethu.

Mae adrannau unigol y Cod wedi'u dylunio i gefnogi gweithredu'r Egwyddorion. Er enghraifft, mae'r egwyddor Anhunanoldeb yn dod o dan Adran 7 y Cod, Anhunanoldeb a Stiwardiaeth.

Cafodd yr egwyddorion presennol eu gosod allan mewn offeryn statudol[1] ac mae eu manylion isod.

1. **Anhunanoldeb**
   Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais i bobl eraill.
2. **Gonestrwydd**
   Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.
3. **Uniondeb a Gwedduster**
   Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaethau ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob tro.
4. **Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**
   Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.
5. **Stiwardiaeth**
   Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddoeth.
6. **Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**
   Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail rhagoriaeth. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

[1]Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 SI 2001 Rhif 2276 (W.166)

**7. Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed na'u crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

**8. Didwylledd**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

**9. Atebolrwydd**

Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliad sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

**10. Arweinyddiaeth**

Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu swyddogaeth ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a gweithwyr eraill yr awdurdod.

Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Cod Enghreifftiol, ac felly nid yw methu cydymffurfio â'r Egwyddorion ynddo'i hun yn dangos bod y Cod wedi'i dorri. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai methu glynu wrth yr egwyddor sy'n ymwneud â chydraddoldeb a pharch yn golygu torri gofynion ym mharagraffau 4 (a) a (b) y Cod yng nghyswllt cyfle cyfartal a pharch.

Beth bynnag, mae'r Egwyddorion yn rhoi sylfaen gref ar gyfer eich ymddygiad yn eich swyddogaeth ac rwyf yn annog aelodau i'w hystyried bob amser.

## Penderfynu pryd mae'r Cod yn berthnasol i chi

**Gweler paragraffau 2 a 3**

Mae'r Cod yn berthnasol i chi:

1. Pryd bynnag y byddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swyddogaeth, gan gynnwys pan fyddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu, yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod neu fel cynrychiolydd o'ch awdurdod.
2. Unrhyw bryd, petaech yn ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol ystyried bod hynny'n dwyn anfri ar eich swyddogaeth neu ar eich awdurdod neu os ydych yn defnyddio neu'n ceisio defnyddio eich safle i ennill mantais neu i osgoi anfantais i chi'n hun neu i unrhyw un arall neu os ydych chi'n camddefnyddio adnoddau eich awdurdod.

Pan fyddwch yn cynrychioli eich awdurdod ar unrhyw awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, rhaid i chi gydymffurfio â'u Cod Ymddygiad wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall hwnnw. Pan gewch eich enwebu gan eich awdurdod fel ymddiriedolwr elusen, rhaid i chi wneud hynny er budd gorau'r elusen honno wrth weithredu felly, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau (gweler ei wefan: www.charity-commission.gov.uk).

Os ydych chi'n cynrychioli eich awdurdod ar gorff arall, er enghraifft ar fwrdd cymdeithas dai, nad oes ganddi god ymddygiad sy'n berthnasol i'w haelodau, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich awdurdod eich hun oni bai fod hynny'n gwrthdaro ag unrhyw ofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i'r corff arall gydymffurfio â nhw.

Os ydych yn cyfeirio atoch eich hun fel cynghorydd, bydd y Cod yn berthnasol i chi. Mae hyn yn berthnasol ar lafar, ar bapur neu mewn gohebiaeth electronig. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion ataf ynghylch defnyddio Facebook, blogiau a Twitter. Os ydych yn cyfeirio at eich swyddogaeth fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd, neu os yw eich sylwadau'n amlwg yn berthnasol i'ch swyddogaeth, bydd y Cod yn berthnasol i unrhyw sylwadau a wnewch yno. Hyd yn oed os na fyddwch yn cyfeirio at eich swyddogaeth fel cynghorydd, gallai eich sylwadau ddwyn anfri ar eich swyddogaeth neu eich awdurdod ac felly gallent fynd yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad.

Os cewch eich enwebu gan eich awdurdod fel cyfarwyddwr cwmni (cymdeithas dai trosglwyddo stoc er enghraifft) rhaid i chi weithredu er budd gorau'r cwmni. Os oes ganddo god ymddygiad ar gyfer ei gyfarwyddwyr – rhaid i chi lynu wrtho. Os nad oes ganddo un, rhaid i chi gydymffurfio â chod eich awdurdod, ac eithrio ar yr adegau prin pan fydd yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sydd gan y cwmni.

Os cewch eich gwahardd o'ch swyddogaeth am unrhyw reswm, rhaid i chi ddal i lynu wrth yr elfennau hynny o'r Cod fel y mae'n berthnasol, yn benodol fel y nodir ym mharagraff 2(1)(d) tra byddwch wedi cael eich gwahardd.

**Enghraifft**

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi enwebu Cynghorydd B i wasanaethu fel aelod bwrdd cymdeithas dai trosglwyddo stoc. Roedd Prif Weithredwr y gymdeithas dai wedi anfon neges e-bost gyfrinachol at Brif Weithredwr y Cyngor gan anfon copi at holl aelodau'r bwrdd hefyd. Cyfaddefodd Cynghorydd B iddo anfon y neges e-bost i'r wasg leol a dywedodd iddo wneud hynny oherwydd ei fod yn teimlo bod ei ddyletswydd fel cynghorydd yn drech na'i ddyletswydd fel aelod o fwrdd y gymdeithas dai. Roedd Cynghorydd B wedi torri paragraff 3(a) Cod y Cyngor drwy ddatgelu'r neges e-bost a oedd yn mynd yn groes i god ymddygiad y bwrdd. Penderfynwyd hefyd ei fod wedi dwyn anfri ar ei swyddogaeth a'i awdurdod drwy wneud datganiad camarweiniol ei fod "wedi gorfod ymddiswyddo'n ddiweddar" oddi ar fwrdd y gymdeithas dai, ac yntau wedi cael ei ddiswyddo ar unwaith am dorri cyfrinachedd yn ddifrifol.

Roedd y gliniadur a ddarparwyd i Gynghorydd B gan y cyngor, ynghyd â'i fynediad i'r we a'i gyfeiriad e-bost cyngor wedi cael eu defnyddio i greu arolwg ar-lein am rywun a oedd wedi cael ei gyhuddo o lofruddiaeth. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys iaith amhriodol. Dywedodd Cynghorydd B nad oedd ef yn bersonol wedi creu'r arolwg. Fodd bynnag, gan fod y Cyngor wedi rhoi'r gliniadur iddo, roedd ef yn gyfrifol amdano. Wrth iddo ymateb i gais am gyngor yn rhinwedd ei swyddogaeth fel cynghorydd, defnyddiodd ei dudalen Facebook i wneud sylwadau difrïol am bobl sy'n hawlio budd-daliadau tai. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod Cynghorydd B wedi gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth swyddogol gan ei fod wedi defnyddio'r offer a'r cyfeiriad e-bost a oedd wedi cael eu rhoi gan y Cyngor. Felly, byddai'n rhesymol ystyried ei fod yn cynrychioli ei hun fel cynghorydd.

## 2. Dyletswyddau cyffredinol o dan y Cod Cydraddoldeb

### Gweler Paragraff 4(a)

Rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau gan ystyried yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed na'u crefydd. Er nad yw'r Cod yn glir ynghylch statws trawsryweddol, fel rheol byddaf yn ystyried ei fod wedi cael ei gynnwys o dan y categori rhyw, ac rwyf yn disgwyl i egwyddor cyfle cyfartal gael ei defnyddio.

Dylech bob amser geisio osgoi gwahaniaethu. Ceir pedwar prif fath o wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd.
- Gwahaniaethu anuniongyrchol: trin pobl mewn ffordd nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed, neu eu crefydd, ond sy'n eu rhoi o dan anfantais anghymesur.
- Harasio: cymryd rhan mewn ymddygiad digroeso ar sail rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, sy'n mynd yn erbyn urddas unigolyn arall neu sy'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol neu sy'n sarhau neu'n bychanu.
- Erledigaeth: trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi cwyno am wahaniaethu, wedi cychwyn achos am wahaniaethu, neu oherwydd eu bod wedi bod yn ymwneud â chwyno neu gychwyn achos am wahaniaethu.

Mae cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010 yn atgyfnerthu pwysigrwydd y rhan hon o'r Cod. Mae'n rhoi dyletswyddau cadarnhaol i roi diwedd ar wahaniaethu anghyfreithlon a harasio ac er mwyn hybu cydraddoldeb. Dan gyfreithiau cydraddoldeb, gall eich awdurdod fod yn atebol am unrhyw wahaniaethu a wnewch. Bydd hyn yn berthnasol os byddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swyddogaeth mewn ffordd sy'n gwahaniaethu.

Rhaid i chi ochel rhag gwneud dim sydd mewn unrhyw ffordd yn unrhyw un o'r mathau o wahaniaethu sydd wedi'u gwahardd, a gwneud dim sy'n rhwystro eich awdurdod rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol o dan gyfreithiau cydraddoldeb. Gall ymddygiad o'r fath olygu bod eich awdurdod yn torri'r gyfraith, a gallech fod yn destun cwyn eich bod wedi mynd yn groes i'r paragraff hwn o'r Cod.

Rhaid i chi hefyd gofio ei bod yn rhaid i chi beidio â gweithredu mewn ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar eich Cyngor, gan gynnwys wrth weithredu mewn rhinwedd breifat. Mae'n debyg y bydd cymryd rhan mewn ymddygiad y gellir ystyried ei fod yn torri'r Ddeddf Cydraddoldeb yn eich rhinwedd breifat yn disgyn i'r categori hwn.

**Enghraifft**

Roedd aelod o Gyngor Sir yn aelod o Banel Recriwtio'r Cyngor i benodi Prif Weithredwr newydd. Roedd pum ymgeisydd wedi cyrraedd y rhestr fer. Ar ôl i un ymgeisydd orffen ei gyflwyniad a gadael yr ystafell, dywedodd Cynghorydd A "ymgeisydd da, bechod ei fod e'n ddu". Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru fod paragraff 4(a) y Cod wedi cael ei dorri a bod Cynghorydd A wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod ac ar ei awdurdod (yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod).

## Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth

### Gweler Paragraff 4(b)

Disgwylir i grwpiau gwleidyddol mewn awdurdodau ymgyrchu dros eu syniadau, a gallant hefyd geisio difrïo polisïau a gweithredoedd eu gwrthwynebwyr. Mae beirniadu syniadau a barn yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ac mae'n annhebyg y byddai sylwadau o'r fath byth yn cael eu hystyried fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad am fethu â thrin rhywun â pharch ac ystyriaeth.

Ar ben hynny, mae rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn ymhellach pan fydd natur sylwadau'r aelod yn wleidyddol. Nid yw sylwadau "gwleidyddol" wedi eu cyfyngu i'r rheini a wneir yn siambr y cyngor ac, er enghraifft, maent yn cynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol ynghylch polisïau eu cyngor neu ynghylch eu gwrthwynebwyr gwleidyddol.

Felly mae'n annhebyg iawn y byddaf yn ymchwilio i gwynion a wneir yn y cyd-destun hwn ac mae angen i gynghorwyr fod yn fwy "croendew" wrth ddelio â sylwadau sydd â chymhelliant gwleidyddol ac wrth ymateb i'r sylwadau hynny.

Yn yr un modd, pan fydd aelodau'n codi materion y gellid ystyried eu bod yn wleidyddol â swyddogion, yn enwedig y rheini sydd â swyddi uchel, wrth ymateb i faterion o'r fath dylent hefyd wneud hynny gan fod yn fwy "croendew" a disgwyl cymryd rhan mewn trafodaethau cadarn gyda swyddogion.

Er y cydnabyddir y gall rhai aelodau o'r cyhoedd roi gofynion afresymol ar aelodau, dylai aelodau bob amser drin aelodau o'r cyhoedd yn gwrtais ac yn ystyriol. Mae ymddygiad digywilydd a thramgwyddus yn gostwng disgwyliadau a hyder y cyhoedd yn eu cynrychiolwyr etholedig. Dyma'r achos mewn sefyllfaoedd wyneb yn wyneb megis cyfarfodydd yn ogystal ag wrth gyfathrebu dros y ffôn, drwy lythyr, neges e-bost neu ddulliau electronig eraill.

**Enghraifft**

Roedd y Panel Dyfarnu wedi cadarnhau un o ganfyddiadau Pwyllgor Safonau am beidio â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill drwy bostio sylwadau am gynghorwyr eraill a'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg.

Gofynnodd yr aelod am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Er bod y sylwadau'n wawdlyd ac yn watwarus a bod eu tôn yn bychanu ei gyd-aelodau, penderfynodd y Llys fod y sylwadau'n "Fynegiant Gwleidyddol" oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â sut roedd y Cyngor yn cael ei redeg, sut roedd ei benderfyniadau'n cael eu cofnodi a chymhwysedd y Cynghorwyr. Yn ôl y dyfarniad ni roddwyd ystyriaeth i'r angen i wleidyddion fod yn fwy "croendew". Ac ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau wedi'u cyfeirio at gyd Gynghorwyr, roedd y canfyddiad o dorri yn yr achos hwn yn ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod ei roi o'r neilltu.

**Enghraifft**

Ysgrifennodd aelod o gyngor tref at un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am weithiwr ("Mr Smith") oedd yn gweithio mewn cyngor sir, ac anfonwyd copi at y Cyngor hefyd. Yn y llythyr roedd yr aelod yn cwestiynu cymhwysedd a chymhelliant Mr Smith a gwnaeth nifer o sylwadau dilornus a phersonol ynghylch Mr Smith a phobl mae ganddo gysylltiad personol agos â nhw. Cododd fater gwrywgydiaeth a chyfeirio ato fel "anabledd anfad" a bod "gwrywgydiaeth ond yn gythraul y gellir ei yrru allan". Cyfeiriwyd yr aelod at Banel Dyfarnu Cymru.

Canfu'r Panel fod yr aelod wedi torri paragraff 4(b) oherwydd ei fod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill. Canfu hefyd fod y geiriau roedd wedi'u defnyddio wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod yn groes i baragraff 6(1)(1) y Cod.

Cafodd yr aelod ei anghymwyso am 12 mis rhag bod na dod yn aelod o awdurdod lleol.

## Bwlio a harasio

### Gweler Paragraff 4(c)

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n bwlio nac yn harasio neb, gan gynnwys cynghorwyr eraill, swyddogion y cyngor nac aelodau o'r cyhoedd.

Mae harasio yn golygu ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, brawychus, maleisus, sarhaus neu ddigywilydd. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at unigolyn gwannach neu unigolyn y mae gennych rywfaint o ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Mae ymddygiad sy'n bwlio yn ceisio tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion, mae'n niweidiol i'w hyder ac i'w gallu a gall effeithio'n andwyol ar eu hiechyd.

Gellir cyferbynnu hyn â'r sialensiau dilys y gall aelod eu gwneud wrth gwestiynu polisi neu wrth graffu ar berfformiad. Byddai enghraifft o hyn yn cynnwys dadleuon yn y siambr am bolisi, neu ofyn i swyddogion egluro'r rhesymwaith dros y safbwyntiau proffesiynol y maent wedi'u cyflwyno. Mae gennych hawl i herio cynghorwyr eraill a swyddogion ynghylch pam maent yn arddel eu safbwyntiau.

Byddaf bob amser yn ystyried honiadau o fwlio a harasio o safbwynt y dioddefwr honedig. Y cwestiwn i'w ateb yw a oedd gan yr unigolyn hawl rhesymol i gredu ei fod yn cael ei fwlio yn hytrach nag oedd y sawl a gyhuddir o'r bwlio yn meddwl ei fod neu ei bod yn gwneud hynny. Caiff bwlio yn aml ei wneud wyneb yn wyneb, ond yn fwyfwy, gall ddigwydd ar bapur neu drwy ddefnyddio e-gyfryngau. Yr un safonau ymddygiad a ddisgwylir, boed chi'n mynegi eich hun ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Mae arnoch angen sicrhau nad yw eich ymddygiad yn croesi'r ffin o fod yn rymus i fod yn fwlio. Ni ellir cael rheolau pendant sy'n llywodraethu pob set o amgylchiadau ond bydd lefel cyfrifoldeb cymharol y swyddog yn ffactor mewn rhai achosion. Fel yr amlinellir o dan baragraff 4(b), gall y swyddogion sydd ar y lefel uchaf gymryd rhan mewn trafodaeth gadarn ag aelodau a byddant mewn sefyllfa dda i allu cyflwyno eu safbwynt eu hunain yn gadarn. Nid yw'r un peth yn wir yng nghyswllt swyddogion iau ac mae ar aelodau angen bod yn ymwybodol o hyn. Nid yw hyn yn golygu fy mod yn goddef bwlio uwch swyddogion, ond po fwyaf yw'r gwahaniaeth pŵer rhwng y swyddog a'r aelod, y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd y swyddog yn ystyried bod yr ymddygiad yn fwlio.

Mae'n amlwg hefyd bod sianeli priodol ar gael ar gyfer mynegi pryder ynghylch perfformiad swyddog, ac nid yw'n dderbyniol gwneud hynny yng nghyd-destun cyfarfod lle mae pobl eraill yn bresennol, yn enwedig os ydynt o gyrff allanol neu'n aelodau o'r cyhoedd. Nid yw ychwaith yn dderbyniol gwneud hynny yn y cyfryngau, yn eich cyhoeddiadau eich hun neu drwy ddefnyddio blog, Twitter, Facebook nac unrhyw ddulliau electronig eraill. Mae'n bwysig eich bod yn codi materion ynghylch perfformiad gwael yn y ffordd gywir ac mewn fforwm priodol. Fodd bynnag, os yw eich beirniadaeth yn ymosodiad personol neu'n dramgwyddus, rydych yn debygol o groesi'r ffin o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol.

## Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod

### Gweler Paragraff 4(d)

Rhaid i chi beidio â pheryglu didueddrwydd neb sy'n gweithio i, neu ar ran, eich awdurdod na cheisio gwneud hynny.

Ni ddylech fynd at neb sy'n gweithio i, neu ar ran, yr awdurdod gyda'r bwriad o bwyso arnynt i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd unochrog neu bleidiol. Rhaid iddynt fod yn ddiduedd ac ni ddylid eu gorfodi na'u perswadio i weithredu mewn ffordd a fyddai'n golygu na fyddent yn ddiduedd. Er enghraifft, ni ddylech gael swyddogion i'ch helpu chi i baratoi deunyddiau pleidiol wleidyddol, na'ch helpu chi gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat. Ni ddylech roi na chynnig dim cymhelliant na gwobr yn gyfnewid am weithredu mewn ffordd benodol na gwneud penderfyniad penodol na bygwth neb os nad ydynt yn bwriadu gweithredu mewn ffordd benodol. Yn ogystal ag osgoi rhoi pwysau ar swyddogion yn bersonol, mae arnoch angen osgoi gwneud hynny ar bapur, drwy ddefnyddio cyfryngau electronig nac yn y wasg.

Er eich bod yn cael cwestiynu swyddogion yn gadarn er mwyn deall, er enghraifft, eu rhesymau dros gynnig gweithredu mewn ffordd benodol, neu gynnwys adroddiad maent wedi'i ysgrifennu, rhaid i chi beidio â cheisio eu gorfodi i ymddwyn yn wahanol, newid eu cyngor neu addasu cynnwys yr adroddiad hwnnw, os bydd gwneud hynny'n niweidio eu gonestrwydd proffesiynol.

Os bydd aelod yn datblygu perthynas bersonol agos gyda swyddog, gall hyn fod yn fuddiant personol ac o bosibl yn fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod. Byddwn yn eich annog i lynu wrth unrhyw brotocol sydd wedi'i ddatblygu gan eich awdurdod sy'n delio â pherthnasau rhwng aelodau a swyddogion.

**Enghraifft**

Roedd mab a merch yng nghyfraith aelod cyngor bwrdeistref sirol yn gymdogion i deulu a oedd yn denantiaid i'r cyngor. Roedd cwynion wedi cael eu gwneud am ymddygiad y teulu. Roedd yr aelod wedi cysylltu â swyddogion y cyngor ynghylch meddiannaeth y teulu o eiddo'r cyngor ac effaith hynny ar deulu ei fab droeon, weithiau y tu allan i oriau swyddfa. Cafodd y galwadau eu gwneud yn ei swyddogaeth fel aelod etholedig ac roedd ganddo fynediad uniongyrchol at swyddogion oherwydd ei fod yn aelod. Cafodd rybudd gan y dirprwy swyddog monitro ynghylch ei ymddygiad, a bwysleisiodd y swyddogaeth bwerus sydd gan aelodau etholedig wrth ddelio ag aelodau o staff.

Er gwaethaf hyn, daliodd ati i gysylltu â swyddogion am y mater gan gynnwys gofyn i swyddog ymweld â'i deulu "y funud honno" a chyhuddo swyddog o "roi gwybod" i'r teulu yr oedd cwynion amdanynt fod offer mesur sŵn yn cael ei osod.

Canfu'r Panel Dyfarnu fod ymddygiad yr aelod yn ymddygiad parhaus dros gyfnod o 6 mis gyda'r bwriad o roi pwysau gormodol ar swyddogion y cyngor. Canfu fod ei weithredoedd wedi ceisio rhoi didueddrwydd swyddogion y cyngor yn y fantol. Canfu hefyd fod yr aelod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill a bod ei weithredoedd yn harasio a'i fod wedi defnyddio ei swyddogaeth yn amhriodol i hybu buddiannau ei deulu ei hun. Ac ystyried natur gronnus y ffordd roedd wedi delio â swyddogion a'i fod wedi gwneud honiad ffug bod swyddog wedi "rhoi gwybod" i'r teulu roedd hefyd wedi dwyn anfri ar swydd aelod.

Cafodd yr aelod ei wahardd o'i swyddogaeth am 12 mis.

# Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

### Gweler Paragraff 5(a)

Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Rydych wedi cael caniatâd y sawl sydd ag awdurdod i'w roi.
- Mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau defnyddiol am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data sydd ar gael ar y wefan www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Fel aelod, efallai y byddwch yn gweld gwybodaeth gyfrinachol am unigolion neu sefydliadau gan gynnwys materion sy'n fasnachol neu'n bersonol sensitif. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am gyflogaeth neu faterion personol pobl sy'n codi o waith gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft. Ambell waith bydd y rhain yn cael eu marcio fel cyfrinachol. Ar adegau eraill, ni fydd hynny'n wir, ond rhaid i chi beidio â datgelu'r wybodaeth hyd yn oed os nad yw wedi cael ei marcio. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch Swyddog Monitro.

Fel rheol gyffredinol, dylech chi ystyried materion a drafodir yn adrannau cyfrinachol cyfarfodydd (eitemau eithriedig) fel rhai cyfrinachol. Fel rheol mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu hasesu gan yr awdur fel rhai sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif, yn dilyn cyngor cyfreithiol arbenigol. Efallai y bydd sensitifrwydd yr wybodaeth yn lleihau dros amser, ond cewch eich annog yn gryf i gael cyngor cyfreithiol priodol cyn ei datgelu. Yn yr un modd, mae cyngor cyfreithiol, boed wedi'i ddarparu gan gyfreithwyr allanol neu staff cyfreithiol mewnol eich awdurdod, bron bob amser yn dod o dan fraint gyfreithiol ac felly ni ddylid ei ddatgelu.

### Enghraifft

Roedd aelod cyngor bwrdeistref sirol a oedd yn eistedd ar banel mabwysiadu'r Cyngor wedi datgelu'n gyhoeddus fanylion unigolyn a oedd wedi gwneud cais i'r panel i fabwysiadu plentyn. Dim ond oherwydd ei fod yn aelod o'r panel y gallai fod wedi gwybod am yr wybodaeth a ddatgelwyd. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol a oedd yn mynd yn groes i'r Cod. Gwaharddodd yr aelod o'r cyngor am 6 mis.

## Rhwystro mynediad at wybodaeth

### Gweler Paragraff 5(b)

Rhaid i chi beidio â rhwystro neb rhag cael gwybodaeth y mae ganddynt hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gopïau o gofnodion, agendâu, adroddiadau a dogfennau eraill eich awdurdod y mae ganddynt hawl i'w gweld. I gael gwybod mwy am y mathau o wybodaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w gweld, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy daro golwg ar www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113 neu os oes gennych chi ymholiadau penodol, dylech holi eich Swyddog Monitro neu eich Clerc.

Mae'n debygol y bydd unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei chynhyrchu yn rhinwedd eich swyddogaeth yn atebol i fod yn rhwym wrth ofynion datgelu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac efallai y bydd yn rhaid i'ch awdurdod ei rhyddhau er mwyn ymateb i gais. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth i swyddog perthnasol eich awdurdod ar gais, byddwch yn torri'r Cod.

Mae ar eich awdurdod angen penderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth ynteu a yw'n dod dan eithriad. Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl bod yr wybodaeth sydd gennych wedi'i heithrio, rhaid i chi ei rhoi i swyddog perthnasol eich awdurdod er mwyn caniatáu i'r awdurdod wneud penderfyniad. Yn ogystal â thorri'r Cod, mae'n drosedd os caiff gwybodaeth ei dinistrio ar ôl cael cais Rhyddid Gwybodaeth.

### Enghraifft

Roedd arweinydd cyngor sir wedi gwrthod rhoi llythyr roedd wedi'i ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Pwyllgor Gwaith y Cyngor i swyddog gwybodaeth y Cyngor. O'r herwydd ni allai'r Cyngor ymateb yn briodol i gais Deddf Rhyddid Gwybodaeth a arweiniodd at wneud cwyn i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelod yn parhau i wrthod datgelu'r llythyr er iddo gael cyngor clir a digamsyniol gan y Swyddog Gwybodaeth. Arweiniodd hyn at ganfyddiad croes gan swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi torri paragraff 5(b) a 6(1)(a) (anfri) yng nghyswllt y mater hwn a materion cysylltiedig eraill. Erbyn yr adeg roedd y Panel yn ystyried yr achos hwn roedd yr aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd ei wahardd rhag dal swyddogaeth am 12 mis.

## Anfri

### Gweler Paragraff 6(1)(a)

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar eich swyddogaeth nac ar eich awdurdod unrhyw bryd.

Fel aelod, ceir mwy o graffu ar eich gweithredoedd ac ar eich ymddygiad nag aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Dylech gofio y gall eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat effeithio'n andwyol ar eich swyddogaeth neu ar eich awdurdod.

Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar eich awdurdod, yn yr un modd ag ymddygiad sy'n arwain at euogfarn droseddol, yn enwedig os yw'n golygu ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat. Gellir ystyried bod beirniadu eich awdurdod yn anghywir neu'n annheg yn gyhoeddus yn dwyn anfri ar eich awdurdod. Gall negeseuon e-bost amhriodol at etholwyr ddwyn anfri ar swyddogaeth aelod.

Fel yr amlinellwyd yn yr enghraifft ar dudalen 12 uchod, rhaid i chi hefyd gynnal eich hun mewn ffordd briodol gyda phobl eraill o fewn adeilad cyngor, ni waeth a yw eich ymddygiad yn debyg o fod yng ngŵydd y cyhoedd ai peidio.

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd Cymuned wedi bod yn sarhaus at berchennog siop a dau aelod o'i staff ac wedi ceisio cael disgownt ar rywbeth yr oedd yn ei brynu'n breifat drwy ddweud ei fod yn ei brynu ar ran y cyngor cymuned, a phan wrthodwyd ei gais am ddisgownt, gwnaeth fygythiadau yn erbyn y busnes. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yn aelod wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod a chafodd ei wahardd am 9 mis.

## Rhoi gwybod am dorri'r Cod

### Gweler paragraff 6(1)(c)

Os ydych chi'n credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, rhaid i chi roi gwybod i mi ac i'ch Swyddog Monitro. Er mwyn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, bydd arnoch angen cael tystiolaeth i gefnogi hyn. Os nad ydych chi'n siŵr a yw'r Cod wedi cael ei dorri ai peidio, dylech holi eich Swyddog Monitro ar y cyfle cyntaf. Os cafodd y Cod ei dorri mewn modd technegol neu fach, neu os nad oes dim tystiolaeth glir i'r Cod gael ei dorri, efallai y bydd eich swyddog monitro'n dweud wrthych am y trothwy tebygol y byddaf yn ei osod. Serch hynny, fi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod ai peidio. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid rhoi gwybod bob tro. Mae'n ddefnyddiol os gallwch fynegi pa elfen o'r Cod rydych yn credu sydd wedi ei thorri, ond nid yw hwn yn hanfodol.

Pan fydd aelod wedi rhoi gwybod am gyd-aelod i'w Swyddog Monitro o dan broses datrys yn lleol yr awdurdod, nid oes angen rhoi gwybod am y mater i mi hefyd.

I roi gwybod am dorri'r cod, gallwch gysylltu â'm swyddfa ar 0845 6010987, neu e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk neu drwy'r wefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk. Mae taflen arbennig am wneud cwynion am honiadau o dorri'r Cod ar gael ar gais neu ar y wefan.

Wrth benderfynu a wyf am ymchwilio i gŵyn ynghylch torri'r Cod ai peidio, byddaf yn defnyddio'r prawf dau gam rwyf wedi'i amlinellu ar dudalennau 5 a 6 uchod. Dylech wneud yn siŵr eich bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth sydd gennych pan fyddwch yn cwyno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, nodiadau cyfoes neu negeseuon e-bost. Os oes unigolion eraill sydd yn dystion i'r honiad o dorri'r Cod, dylech ddweud wrthym pwy ydynt. Mae'r ail bwynt yn arbennig o bwysig oherwydd os wyf yn delio â gair rhywun yn erbyn gair rhywun arall, fel rheol nid yw'n bosibl i mi benderfynu bod y Cod wedi cael ei dorri, ac os nad oes cadarnhad annibynnol, fel rheol ni fyddaf yn cychwyn ymchwiliad.

## Cwynion blinderus

### Gweler paragraff 6(1)(d)

Rhaid i chi beidio â chwyno yn erbyn aelodau eraill, aelodau o staff na phobl sy'n gweithio ar ran eich awdurdod os nad yw'r gŵyn yn seiliedig ar ffeithiau ac os yw wedi'i chymell gan falais (dymuniad i'w niweidio) neu gystadleuaeth wleidyddol. Yn anffodus, bu rhai achosion pan mae aelodau wedi ceisio cyflwyno cwynion am gystadleuwyr gyda'r bwriad o'u rhoi dan anfantais, weithiau cyn etholiad, a lle nad oes dim tystiolaeth o dorri'r amodau neu mae'r dystiolaeth yn brin iawn. Yn y lle cyntaf rwyf yn credu y dylid ystyried ymddygiad o'r fath o dan broses datrys yn lleol yr awdurdod perthnasol.

Pan fydd manylion penodol cwynion o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r wasg a'r cyfryngau lleol, gall hyn wneud niwed i ymchwiliad a gall hyn ynddo'i hun hefyd olygu torri'r Cod. Rhaid i chi roi gwybod i mi ac i'ch Swyddog Monitro am honiadau cadarn o dorri'r Cod, nid i'r papur newydd nac i'r orsaf radio leol. Bydd y wasg yn rhoi sylw priodol i fusnes unrhyw wrandawiadau a'u canlyniadau, ac ni ddylai aelodau sy'n gwneud honiadau gynhyrchu dim cyhoeddusrwydd cyn y rhain.

Dylech hefyd osgoi gwneud cwynion nad oes ganddynt ddim neu ddim llawer o sylwedd (cwynion gwamal) neu sydd wedi'u dylunio'n bennaf i wylltio'r sawl y gwnaed cwyn amdano neu amdani.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi honni bod arweinydd y Cyngor wedi cynnig rhoi cyfleusterau swyddfa i gynghorydd arall a'i grŵp o aelodau os oedd y cynghorydd hwnnw'n cefnogi hoff ymgeisydd yr arweinydd ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Roedd y dystiolaeth yn cefnogi safbwynt yr arweinydd nad oedd cysylltiad rhwng y ddau fater ac felly bod y gŵyn yn un maleisus. Roedd y Panel Dyfarnu wedi gwahardd yr aelod a wnaeth y gŵyn am 12 mis.

## Cydweithredu ag ymchwiliadau

**Gweler paragraff 6(2)**

Rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad pan fydd yn cael ei gynnal gennyf i neu gan eich Swyddog Monitro'n defnyddio ein pwerau statudol. Mae peidio â gwneud hynny'n torri'r Cod. Mae hyn yn golygu y dylech ymateb yn brydlon i bob gohebiaeth a galwad ffôn, sicrhau eich bod ar gael ar gyfer cyfweliadau os oes angen a darparu copïau o unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt. Bydd fy swyddfa a'ch Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw bwysau brys rydych chi'n eu hwynebu ac unrhyw drefniadau a wnaed o'r blaen, e.e. ar gyfer gwyliau. Fodd bynnag, byddant yn disgwyl i chi flaenoriaethu eu hymchwiliadau, er mwyn osgoi llusgo materion yn ddiangen. Mae'r gofyniad i gydweithredu ag ymchwiliad yn berthnasol p'un ai a ydych yn dyst neu'n destun yr ymchwiliad.

(Yn ystod fy ngwaith, yr wyf yn anffodus wedi dod i wybod am enghreifftiau o aelodau wedi'u cyhuddo o dorri'r Cod yn ceisio rhoi pwysau ar yr unigolion sydd wedi cyflwyno'r gŵyn neu ar dystion eraill. Ystyriaf ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol. Rhaid i chi beidio â brawychu na cheisio brawychu unrhyw un sydd, neu sy'n debygol o fod, yn achwynydd, yn dyst, neu'n ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n ymwneud â methu cydymffurfio â'r Cod.

Ni waeth faint rydych chi'n pryderu am honiadau eich bod chi neu gynghorydd arall wedi methu cydymffurfio â'r Cod, mae bob tro'n anghywir bwlio, brawychu neu geisio brawychu unrhyw un sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Hyd yn oed os nad ydych chi wedi torri'r Cod, cewch ddweud eich dweud yn ystod unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad annibynnol, a dylech ganiatáu i'r prosesau hyn ddilyn eu trywydd naturiol.

Os ydych chi'n brawychu tyst mewn ymchwiliad am eich ymddygiad, er enghraifft, efallai y byddwch yn destun cwyn arall oherwydd i chi fynd yn groes i baragraff 4(c) o'r Cod parthed bwlio neu frawychu, er enghraifft, neu baragraff 6(1)(a) parthed dwyn anfri ar y swyddogaeth o fod yn aelod.)

## Defnyddio eich safle'n amhriodol

**Gweler Paragraff 7(a)**

Rhaid i chi beidio â defnyddio na cheisio defnyddio eich safle'n amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun nac i unrhyw un arall. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol bob amser ac nid dim ond pan ydych yn cyflawni eich dyletswyddau fel aelod. Ni ddylech ddefnyddio na cheisio defnyddio eich swyddogaeth gyhoeddus ychwaith er eich budd neu eich colled eich hun na budd na cholled neb arall. Er enghraifft, byddai eich ymddygiad yn amhriodol petaech yn ceisio hyrwyddo eich buddiannau preifat eich hun drwy eich safle fel aelod. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn defnyddio eich swydd i wella eich lles ar draul pobl eraill.

Mae angen i aelodau sy'n berchen ar dir, neu mae pobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw yn berchen ar dir, fod yn arbennig o ofalus yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chynllunio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor. Mae hyn yr un mor berthnasol i aelodau cynghorau cymuned pan ymgynghorir â'ch Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, er ei bod yn rhesymol disgwyl i aelodau helpu etholwyr i wneud cais i'r Cyngor e.e. ar gyfer tai, mae'n gwbl amhriodol ceisio dylanwadu ar y penderfyniad a wneir gan y swyddogion.

Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn berthnasol i aelodau sy'n cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Os ceir aelod yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon yna mae'n debyg y bydd hefyd wedi defnyddio ei safle'n amhriodol (gan dorri paragraff 7(a)) a dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu ar ei awdurdod gan dorri paragraffau 6(1)(a) a (b). Os caf unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad a all fod yn drosedd, yna rwyf yn debyg o gyfeirio'r mater at yr heddlu.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir wedi gofyn i dir roedd yn berchen arno ym Mhentref A gael ei gynnwys fel tir addas ar gyfer datblygu yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Pan roedd y Cyngor yn ystyried ardaloedd aneddiadau addas i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol, roedd swyddogion wedi argymell cynnwys tir yn y pentref cyfagos (Pentref B) yn y cynllun drafft yn lle. Er gwaethaf cael cyngor clir iawn gan Swyddog Monitro'r Cyngor ar ei fuddiant sy'n rhagfarnu, anfonodd yr aelod e-bost at swyddog polisi cynllunio'r Cyngor gan amlinellu nifer o ddadleuon roedd yn honni a oedd yn ffafrio cynnwys ei dir ef ym Mhentref A yn hytrach na'r tir ym Mhentref B. Ar yr adeg dan sylw roedd y cynllun drafft wedi cael ei ddatgelu i aelodau'r Cyngor yn gyfrinachol ac nid oedd wedi cael ei ddatgelu'n gyhoeddus.

Canfu'r Panel Dyfarnu drwy anfon yr e-bost fod yr aelod wedi torri paragraff 7(a) y Cod drwy geisio defnyddio ei safle yn amhriodol er budd personol. Yn y gwrandawiad ceisiodd roi'r bai ar Swyddog Monitro'r Cyngor am beidio â'i hyfforddi a'i gynghori'n iawn ar y Cod, ond roedd hi'n amlwg nad oedd hyn yn wir. Roedd ei weithredoedd hefyd wedi dwyn anfri ar ei swyddogaeth ac ar y Cyngor. Cafodd yr aelod ei wahardd rhag dal swyddogaeth am 18 mis am hyn ac am achosion eraill o dorri'r Cod.

## Adnoddau'r awdurdod

### Gweler Paragraff 7(b)

Dim ond yn unol â'i ofynion y cewch chi ddefnyddio adnoddau'r awdurdod neu awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio.

Pan fydd eich awdurdod yn rhoi adnoddau i chi (er enghraifft ffôn, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill, trafnidiaeth neu gefnogaeth gan weithwyr y cyngor), dim ond ar gyfer cyflawni eich busnes awdurdod lleol ac unrhyw weithgarwch arall y mae eich awdurdod wedi eich awdurdodi i'w defnyddio ar eu cyfer y cewch chi ddefnyddio'r rhain.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich awdurdod. Mae methu cydymffurfio â rheolau eich awdurdod yn debygol o olygu torri'r Cod.

Os ydych chi'n awdurdodi rhywun (er enghraifft aelod o'ch teulu) i ddefnyddio adnoddau eich awdurdod, rhaid i chi ofalu bod rheolau eich awdurdod yn caniatáu hyn.

# Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig

**Gweler Paragraffau 7(b)(v) a 7(b)(vi)**

Rhaid i chi wneud yn siŵr mai dim ond at ddibenion priodol rydych chi'n defnyddio adnoddau'r awdurdod. Nid yw'n briodol defnyddio'r adnoddau at ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion pleidiol wleidyddol, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio yn y fath fodd. Wrth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod, os yw'n berthnasol rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan eich awdurdod lleol.

Ni ddylech byth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod at ddibenion sydd ond yn ddibenion pleidiol wleidyddol, gan gynnwys dylunio a dosbarthu deunyddiau pleidiol wleidyddol a gynhyrchir at ddibenion cyhoeddusrwydd.

Fodd bynnag, efallai fod eich awdurdod yn eich awdurdodi i ddefnyddio ei adnoddau a'i gyfleusterau at ddibenion gwleidyddol yng nghyswllt busnes eich awdurdod, er enghraifft, cynnal cyfarfodydd eich grŵp gwleidyddol. Yn yr achos hwn, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a roddir ar ddefnydd o'r fath at y dibenion hyn. Dylai aelodau hefyd ystyried y ffaith bod cyfnodau cyn etholiadau llywodraeth leol yn hynod sensitif yn hyn o beth. Mae defnyddio adnoddau eich awdurdod y tu allan i'r cyfyngiadau hyn yn debygol o olygu torri'r Cod Ymddygiad. Bydd rhai awdurdodau'n caniatáu i aelodau ddefnyddio offer TG a ddarperir gan y Cyngor megis gliniaduron at ddefnydd atodol. Ar yr amod bod defnydd o'r fath yn unol â gofynion yr awdurdod, ni fyddai'r Cod yn cael ei dorri, ond ni fyddai'n briodol anfon negeseuon e-bost fel rhan o ymgyrch etholiadol er enghraifft.

Fodd bynnag, os nad oes polisi neu os yw'r polisi'n dawel, chewch chi ddim defnyddio'r adnoddau hyn at ddim dibenion gwleidyddol na phreifat.

**Enghraifft**

Roedd un o aelodau cyngor sir wedi torri'r Cod am ddefnyddio ei offer cyfrifiadurol, a oedd yn berchen i'r Cyngor, yn amhriodol at ddibenion preifat drwy lwytho delweddau pornograffig amhriodol o oedolion i lawr oddi ar y we ac anfon nifer o lythyrau at bapur newydd lleol, a dweud yn gelwyddog eu bod yn cael eu hanfon gan aelodau o'r cyhoedd. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi camddefnyddio offer y cyngor a'i fod wedi torri'r Cod ac wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod. Cafodd ei anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis rhag bod na dod yn aelod o awdurdod lleol.

**Enghraifft**

Penderfynwyd bod aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi torri'r Cod am ddefnyddio gormod ar ei ffôn symudol a roddwyd iddo gan y Cyngor at ddibenion preifat. Er bod polisi TG y cyngor yn caniatáu rhywfaint o ddefnydd personol, cafwyd bil dros £1000 am alwadau preifat roedd yr aelod wedi'u gwneud. Roedd y Panel Dyfarnu wedi gwahardd yr aelod am 9 mis am hyn ac am achosion eraill o dorri'r Cod.

## Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol

### Gweler paragraff 8

Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd eich awdurdod, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch busnes yr awdurdod, rhaid i chi wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i chi weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol.

Mewn rhai penderfyniadau, megis penderfyniadau pwyllgorau cynllunio, rhaid i chi bob amser wneud eich penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen chi, a rhaid i chi beidio â bod wedi penderfynu ymlaen llawn i'r graddau eich bod yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a gewch chi. Rhagderfyniad yw bod â meddwl hollol gaeedig. Mae gennych hawl i arddel safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod eich bod yn cadw meddwl agored a'ch bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae rhagderfyniad ar y llaw arall yn golygu pan mae'n amlwg eich bod wedi penderfynu ar eich gweithredoedd cyn cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfyniad wneud y penderfyniad yn annilys, ond gallai hefyd olygu torri'r Cod.

Mae Adran 78 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwahardd aelod o gyfarfod pwyllgor craffu neu drosolwg rhag pleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod, os yw'r aelod wedi cael chwip y blaid yng nghyswllt y cwestiwn cyn y cyfarfod.

Er mwyn i mi ymchwilio i gwynion o "chwipio" pleidleisiau gan grwpiau gwleidyddol rhaid cael tystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth a ategwyd arall sydd ar gael o'r chwip. Ni fydd tybiaethau ar sail patrymau pleidleisio grwpiau penodol yn ddigon o dystiolaeth o chwip.

(Roedd Standards for England, sydd bellach wedi dod i ben, wedi paratoi nodyn cyfarwyddyd defnyddiol iawn ar y pwnc hwn o'r enw "Understanding predetermination and bias" sydd ar gael ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk.)

## Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau

**Gweler Paragraff 8**

Rhaid i chi ystyried yr holl gyngor a gewch gan swyddogion eich awdurdod, yn enwedig y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Ariannol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyfreithiol pan fyddant yn rhoi eu cyngor o dan eu dyletswyddau statudol. Gall cyngor o'r fath hefyd fod mewn dogfennau polisi a chanllawiau a gynhyrchir gan eich awdurdod. Mae hwn yn faes dyrys a cheir darpariaethau mewn deddfwriaeth arall sy'n sail iddo, ond at ei gilydd, mae'n fwy na gofyniad i ddim ond ystyried a gwrthod cyngor os nad ydych yn ei groesawu. Rwyf yn disgwyl i aelodau ddilyn cyngor oni bai fod rhesymau cryf dros beidio â gwneud hynny, ac os gwneir penderfyniad i beidio â dilyn cyngor, cynghorir yn gryf eich bod yn cofnodi'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

Mae'n werth ystyried hefyd bod hyn yn rhoi cryn ddyletswydd ar swyddogion statudol i ystyried eu cyngor ffurfiol yn ofalus, ac eto, pan fyddant yn credu ei bod yn debygol y bydd cynnen, cadw cofnod o hynny. Efallai y bydd rhai achosion lle rhoddir cyngor i aelod sydd yn golygu torri'r Cod pan gaiff ei ddilyn. Wrth ymchwilio i achosion o'r fath, os yw'r dystiolaeth yn awgrymu y cafodd y Cod ei dorri, at ei gilydd byddwn yn ystyried y cyngor diffygiol fel ffactor lliniaru, yn hytrach na thystiolaeth na chafodd y Cod ei dorri.

Mae cael cyngor mor gynnar ag sy'n bosibl bob amser yn ddefnyddiol. Os gallwch chi, holwch am gyngor mewn da bryd cyn cyfarfod, yn hytrach nag yn y cyfarfod neu yn union cyn iddo ddechrau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r swyddog dan sylw wrth roi cyngor i chi.

Os ydych chi'n gofyn am gyngor, neu os rhoddir cyngor i chi, er enghraifft ynghylch a ddylech chi gofrestru buddiant personol, dylech ystyried y cyngor hwn cyn i chi benderfynu. Gallai methu gwneud hynny olygu torri'r Cod.

Rhaid i chi roi rhesymau am bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol a roddir gan eich awdurdod. Mae rhoi rhesymau am benderfyniadau yn arbennig o bwysig yng nghyswllt penderfyniadau ynghylch rheoliadau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl, ond nid dim ond y rhain.

Fel mater o arfer da, pan fyddwch yn anghytuno ag argymhellion swyddog wrth wneud penderfyniad, dylech chi roi rhesymau clir dros eich penderfyniad. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau i bleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol, hyd yn oed os ydych yn colli'r bleidlais. Os byddwch yn penderfynu pleidleisio yn erbyn eu cyngor dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol. Dylech fod yn ymwybodol y gall pleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol heb reswm da olygu eich bod yn torri'r Cod.

Wrth wneud penderfyniadau pan na chaiff y cyngor ei roi gan y swyddogion statudol, dylech dal ystyried y cyngor a roddir gan swyddogion a'i ystyried wrth wneud eich penderfyniad. Efallai eich bod hefyd eisiau ystyried cyngor arall rydych chi wedi'i gael ac wrth gwrs, safbwynt grŵp gwleidyddol rydych chi'n aelod ohono. Mewn rhai amgylchiadau, megis penderfyniadau cynllunio, rhaid i chi beidio â phleidleisio ar sail "chwip" a roddir gan eich grŵp. Mewn eraill, mae'n rhesymol gwneud hynny ond dylech osgoi cau eich meddwl yn gyfan gwbl cyn dadl. Unwaith eto, beth bynnag yw'r rhesymau dros bleidleisio yn erbyn cyngor swyddog, cynghorir yn gryf eich bod yn eu cofnodi.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir a gadeiriodd un o gyfarfodydd y Cyngor wedi gwrthod caniatáu i Swyddog Monitro'r Cyngor gynghori aelodau yn ystod dadl am "Lythyr Blynyddol" y Cyngor oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd, pan lwyddodd y Swyddog Monitro i gamu i mewn i fynegi pryderon difrifol am y ffordd roedd pethau'n cael eu gwneud, ni ystyriodd yr aelod y cyngor cyfyngedig y cafodd ei roi, a'r cyfan ddywedodd oedd ei fod wedi "nodi ei sylwadau".

Canfu fod yr aelod wedi torri paragraff 8(a)(iii) o'r Cod. Roedd y Panel Dyfarnu wedi ystyried ymddiheuriad llawn yr aelod a'i fod yn edifarhau am ei ymddygiad a nododd pe na bai'r aelod eisoes wedi derbyn ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le byddai wedi rhoi cosb fwy na'r 4 mis o waharddiad a roddodd.

## Treuliau

**Gweler paragraff 9(a)**

Mae arnoch angen dilyn y gyfraith a gofynion eich awdurdod wrth hawlio treuliau a lwfansau. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch eich hawliau, neu'r ffordd briodol o hawlio, dylech ofyn am gyngor. Mae arnoch angen cadw cofnodion priodol o wariant wedi'u hategu gan dderbynebau pan fydd hynny'n briodol, er mwyn i chi allu cyflwyno tystiolaeth briodol o'ch hawliau. Hyd yn oed os nad yw cynllun penodol yn mynnu eich bod yn cyflwyno derbynebau, fe'ch cynghorir yn gryf i gadw'r rhain er mwyn i chi allu profi faint rydych chi wedi'i wario ar yr eitemau rydych chi'n hawlio amdanynt e.e. gofal plant.

**Enghraifft**

Honnwyd bod un o aelodau cyngor bwrdeistref sirol wedi defnyddio'r Lwfans Gofal Plentyn/ Dibynnydd i dalu ei wraig i ofalu am eu merch. Yn ystod yr ymchwiliad daeth i'r amlwg ei fod wedi talu incwm wythnosol rheolaidd i'w fab sy'n oedolyn (o briodas flaenorol) i ofalu am y plentyn yn ôl yr angen. Roedd yr aelod yn gallu darparu prawf o'r taliadau drwy dderbynebau a bonion sieciau. Oherwydd hyn nid oedd dim tystiolaeth o unrhyw fethiant ar ran yr aelod i gydymffurfio â'r Cod.

## Rhoddion a lletygarwch

**Gweler paragraff 9(b)**

Mae'n bwysig nad ydych chi'n derbyn dim rhoddion na lletygarwch i chi eich hun, nac ar ran pobl eraill, a fyddai'n eich rhoi chi dan rwymedigaethau neu'n ymddangos i wneud hynny. Gellir ystyried bod derbyn rhoddion neu letygarwch o'r fath yn rhoi eich gwrthrychedd yn y fantol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau neu'n cyflawni gwaith eich cyngor. Mae hyn hefyd yn wir am unrhyw wasanaethau neu roddion ymarferol.

Nid yw hyn yn eich atal rhag mynychu digwyddiadau swyddogol megis derbyniadau dinesig neu giniawau gwaith pan fydd y rhain yn cael eu hawdurdodi gan eich awdurdod.

(Gweler hefyd yr adran ar gofrestru rhoddion a lletygarwch ar dudalen 37)

## 3. Buddiant personol ac sy'n rhagfarnu

Mae elfennau'r Cod sy'n berthnasol i fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu yn arwain at nifer o gwestiynau gan aelodau. Cânt eu dylunio i ddiogelu egwyddorion anhunanoldeb a gwrthrychedd. Eu bwriad yw rhoi hyder i'r cyhoedd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn eu budd gorau, nid ym mudd gorau aelodau awdurdodau neu bobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Mae buddiannau personol yn ymwneud â materion lle mae gennych chi neu rywun mae gennych gysylltiad personol agos â nhw rhyw gyswllt â mater sy'n cael ei drafod. Gall y buddiannau hyn fod yn rhai sy'n rhagfarnu pan allai arsylwr annibynnol gwybodus ddod i'r casgliad y byddai'r buddiant yn dylanwadu ar eich pleidlais, neu ar eich penderfyniad. Mae'r canllawiau ar gofrestru buddiannau yn Adran 4.

Bwriad y paragraffau isod yw cynnig canllawiau ar bwnc cymhleth dros ben. Byddwn yn argymell yn gryf os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch a oes gennych chi fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu, a'r hyn y mae arnoch angen ei wneud felly, dylech chi ofyn i'ch Swyddog Monitro am gyngor.

## Buddiant personol

### Gweler paragraff 10

Wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau, bydd arnoch angen penderfynu a oes gennych chi fuddiant personol, ac os felly, a oes arnoch angen ei ddatgelu. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwybod bod arnoch angen datgelu buddiant personol mewn cyfarfodydd, ond fel y byddwch yn darllen isod, ceir adegau eraill, er enghraifft wrth siarad â swyddogion eich awdurdod ynghylch y mater dan sylw, pan fydd arnoch angen gwneud hynny hefyd.

Mae gennych **fuddiant personol** yn unrhyw ran o fusnes eich awdurdod, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau, pan fydd hwnnw'n ymwneud â neu'n debygol o effeithio ar:

1. eich swydd neu eich busnes;
2. eich cyflogwr, neu unrhyw ffyrm rydych chi'n bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo;
3. unrhyw un sydd wedi talu am gostau eich etholiad neu'ch treuliau fel aelod;
4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfranddaliadau ynddo gyda gwerth nominal dros £25,000 neu pan mae eich daliad dros 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a gyhoeddwyd sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich awdurdod;
5. unrhyw gontract mae'ch awdurdod yn ei lunio â chwmni rydych chi'n bartner ynddo, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu mae gennych gyfranddaliadau ynddo fel y disgrifir yn 4;
6. unrhyw dir mae gennych fuddiant ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod (mae hyn yn arbennig o bwysig ym mhob mater cynllunio gan gynnwys cynlluniau strategol);
7. unrhyw dir a osodir gan eich awdurdod i gwmni rydych chi'n bartner ynddo, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu gorff fel y nodir yn 4;
8. unrhyw gorff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;
9. unrhyw

- awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n ymarfer swyddogaethau sydd â natur gyhoeddus,
- cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol,
- corff â'i brif swyddogaeth yw dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus,
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
- unrhyw glwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod.

yr ydych yn aelod ohono neu lle mae gennych safle o reolaeth gyffredinol, neu

10. unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod.

Mae bob amser yn fwy diogel datgan buddiant, fodd bynnag, holwch eich Swyddog Monitro os oes gennych chi unrhyw amheuaeth.

**Materion sy'n ymwneud â wardiau ac adrannau etholiadol – gan gynnwys paragraff 10 (2)(b)**

Petai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd gasglu pan fyddwch yn gwneud penderfyniad ar ran yr awdurdod yn ei gyfanrwydd bod materion yn eich ward neu eich adran etholiadol yn dylanwadu mwy arnoch chi nag y byddai buddiannau'r awdurdod yn ei gyfanrwydd e.e. os oes angen i'r awdurdod wneud darpariaeth ond nad ydych chi'n meddwl y dylai fod yn eich ward neu'ch adran etholiadol chi, yna byddai gennych fuddiant personol.

Mae'r paragraff hwn wedi arwain at anawsterau o ran dehongliad. Gwraidd y broblem yw y gallai dehongli'r paragraff yn gaeth, gair am air, olygu eithrio aelodau rhag cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu ward - ond bwriad sylfaenol y polisi fu cyfyngu ar gwmpas y ddarpariaeth hon i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gynghorwyr unigol wrth ymarfer swyddogaethau gweithredol.

Nid wyf o'r farn y byddai mabwysiadu dehongliad llythrennol fel mater o drefn er budd y cyhoedd, nac er budd democratiaeth leol. Felly yn gyffredinol, wrth ddefnyddio fy nisgresiwn, bydd y penderfyniad i ymchwilio ai peidio'n seiliedig ar y dybiaeth bod y paragraff wedi'i chyfeirio at aelodau unigol yn gwneud penderfyniad wrth ymarfer swyddogaethau a phenderfyniadau gweithredol fel y rheini sy'n cael eu gwneud mewn pwyllgorau cynllunio neu drwyddedu.

Er bod a25 Deddf Lleoliaeth 2011 yn amlinellu amgylchiadau pan na ddylid ystyried bod gan aelodau feddwl caeedig wrth wneud penderfyniad, nid wyf yn credu bod hyn yn effeithio ar ddarpariaethau'r Cod. Fodd bynnag, byddaf yn adolygu hyn yng ngoleuni unrhyw benderfyniadau a chyfraith achosion yn y dyfodol ar effaith y ddarpariaeth hon.

**Enghraifft**

Roedd y Panel Dyfarnu wedi ystyried achos a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth hon o'r Cod. Roedd yr aelod wedi datgan ei fod yn gwrthwynebu cais cynllunio dadleuol yn ei faniffesto etholiadol gan addo "gweithio'n ddiflino ar faterion sy'n achosi pryder" a "gwrthwynebu'r cynnig datblygu presennol". Ac yntau wedi cael ei ethol pleidleisiodd yr aelod yn erbyn y cais cynllunio cyntaf yr oedd y Cyngor yn ei ystyried pan gafodd y cais ei wrthod. Cafodd ei ddyfynnu wedyn yn y wasg leol a chenedlaethol yn amddiffyn ei benderfyniad i wrthwynebu'r datblygiad. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yn aelod wedi gweithredu mewn ffordd a fyddai'n rhoi achos rhesymol i aelod o'r cyhoedd weld gwrthdaro rhwng ei swyddogaeth fel cynghorydd lleol a'i swyddogaeth wrth wneud penderfyniad ar ran ei awdurdod. Gwaharddodd yr aelod o'r pwyllgor cynllunio am 3 mis.

**Materion sy'n effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol**

Os gellir gweld bod penderfyniad yn effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw, yn fwy na phobl eraill yn eich ward neu, ar gyfer aelodau awdurdodau lle nad oes wardiau (e.e. parciau cenedlaethol), ardal eich awdurdod, mae gennych fuddiant personol.

Mae enghreifftiau o benderfyniadau o'r math hwn yn cynnwys materion amlwg megis dyfarnu contractau i gwmni eich partner ond hefyd faterion ynghylch lleoliad datblygiadau, lle gallai fod yn wahaniaeth mawr i le rydych chi neu bobl mae gennych gysylltiad agos â nhw yn byw. Mae enghreifftiau wedi cynnwys lleoliad meysydd chwarae, lle mae aelodau etholedig wedi'u gwrthwynebu ger eu tai oherwydd materion sy'n ymwneud â sŵn.

**Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus"?**

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus" wedi cael ei ddehongli'n eang gan y llysoedd am nifer o ddibenion gwahanol. Er nad yw'n bosibl cynhyrchu rhestr derfynol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw corff yn diwallu'r diffiniad hwnnw ai peidio:

- A yw'r corff hwnnw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r corff yn cymryd lle llywodraeth ganolog neu leol wrth gyflawni'r swyddogaeth e.e. cartref gofal gyda phreswylwyr sy'n cael cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol?
- A yw'r corff (gan gynnwys corff yn y sector preifat sydd ar gontract allanol) yn arfer swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan awdurdod cyhoeddus e.e. cwmni preifat sy'n casglu sbwriel ar ran yr awdurdod?
- A yw'r swyddogaeth yn cael ei arfer o dan ddeddfwriaeth neu yn ôl rhyw bŵer statudol?
- A oes modd adolygu'r corff yn farnwrol?

Oni bai eich bod yn ateb un o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, mae'n annhebygol bod y corff yn eich achos chi yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Dyma enghreifftiau o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn: cyrff iechyd, cwmnïau sy'n berchen i'r cyngor sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus a chyrff llywodraethu ysgolion. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu gyngor penodol am y mater hwn, cysylltwch â'ch Swyddog Monitro.

**Beth mae "effeithio ar les neu sefyllfa ariannol" yn ei olygu?**

Mae modd disgrifio'r term 'lles' fel amod o fodlonrwydd a hapusrwydd. Mae unrhyw beth a allai effeithio ar ansawdd eich bywyd, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol o effeithio ar eich lles.

Gall buddiant personol effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol arnoch chi neu ar bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Felly os yw'n bosibl y gallent ennill neu golli oherwydd mater sy'n cael ei ystyried, mae arnoch angen datgan buddiant personol yn y naill sefyllfa a'r llall.

**Pwy mae rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw yn ei olygu?**

Mae pobl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys pobl megis ffrindiau agos, cydweithwyr mae gennych gysylltiadau arbennig o gryf â nhw, pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda drwy fusnes a pherthnasau agos. Nid yw'n golygu cydnabod, perthnasau pell neu bobl rydych ond yn dod i gysylltiad â nhw drwy eich swyddogaeth fel aelod o'ch gwaith yn y gymuned leol.

Gall pobl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw hefyd gynnwys rhywun rydych chi wedi cael anghydfod â nhw, a lle gellir ystyried bod gennych fuddiant mewn achosi anfantais. Er enghraifft ni fyddai bod yn aelod o'r un clwb golff â rhywun arall ynddo'i hun yn golygu bod gennych chi gysylltiad personol agos â nhw ond gallai bod yn bartner golff wythnosol iddynt olygu bod gennych chi gysylltiad personol agos â nhw. Os nad ydych chi'n siŵr, dylech chi holi eich Swyddog Monitro.

**Beth os ydw i'n perthyn i awdurdod heb wardiau neu adrannau etholiadol?**

Os ydych chi'n aelod o awdurdod heb wardiau nac adrannau etholiadol bydd arnoch angen datgan buddiant personol pan fyddwch chi'n ystyried mater yn un o gyfarfodydd eich awdurdod os yw'n effeithio ar eich lles neu ar eich sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol eich un neu fwy o'r bobl mae gennych chi gysylltiad agos â nhw, yn fwy nag y byddai'n effeithio ar bobl eraill yn ardal eich awdurdod. Os ydych chi'n aelod awdurdod lleol o awdurdod tân, er enghraifft, byddai arnoch angen datgan buddiant o dan y pennawd hwn ar faterion sy'n ymwneud ag ardal eich awdurdod sy'n eich enwebu.

**Aelodau sy'n gwisgo "dwy het"**

Os ydych yn aelod o gyngor cymuned ac o gyngor sir ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau le. Er enghraifft, gallwch gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â'ch cyngor cymuned yn ei gylch, a pharhau i gymryd rhan mewn penderfyniad ynghylch y cais os ydych yn eistedd ar bwyllgor cynllunio eich cyngor sir.

Os byddwch yn gwneud hyn, fe'ch cynghorir yn gryf i ddweud yng nghyfarfod y cyngor cymuned y byddech chi'n edrych ar y mater o'r newydd wrth ei ystyried yn y cyngor sir, ac y byddech chi'n ystyried yr holl wybodaeth a chyngor a roddir i chi. Yn y pwyllgor cynllunio, dylech ddweud yn glir nad ydych yn rhwym wrth farn y cyngor cymuned. Mae'r cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gwrthrychol yng nghyd-destun paragraffau 8 a 10(2)(b) y Cod yn berthnasol yma hefyd.

Yn amlwg, os yw'r cais yn un a gyflwynir gan y cyngor cymuned, yna byddai gennych fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, a byddai'n ofynnol i chi ei ddatgan a thynnu'n ôl yn unol â'r canllawiau isod ynghylch "beth i'w wneud os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu".

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd F wedi cymryd rhan mewn cyfarfod a oedd yn ystyried a ddylid cymeradwyo enwebiad yr achwynydd ar gyfer swydd llywodraethwr ysgol; roedd gŵr Cynghorydd F hefyd wedi gwneud cais am y swydd. Roedd y Panel Dyfarnu wedi canfod y dylai fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem oherwydd ei chysylltiad personol agos â'i gŵr, ond roedd hefyd o'r farn y bu hanes o elyniaeth tuag at yr aelod gan yr achwynydd a oedd wedi cael ei gofnodi'n gyhoeddus, roedd ganddi hefyd fuddiant personol oherwydd ei chysylltiad personol agos â'r achwynydd.

Elfen arall a oedd yn perthyn i'r gŵyn hon oedd ar ôl i'r achwynydd gwyno i mi ynghylch yr aelod, roedd yr aelod wedi eistedd ar bwyllgor safonau'r cyngor pan roedd yn ystyried cwyn ar wahân gan yr achwynydd yn erbyn aelod arall. Roedd y Panel Dyfarnu o'r farn, yng ngoleuni'r berthynas elyniaethus rhwng yr aelod a'r achwynydd, byddai wedi bod yn rhesymol credu bod rhan yr aelod yng ngwrandawiad y pwyllgor safonau yn effeithio ar les yr achwynydd oherwydd bod ganddi hawl i gael gwrandawiad teg a diduedd o'i chŵyn.

**Beth os nad ydw i'n gwybod am fy muddiant personol?**

Dim ond pan rydych chi'n gwybod neu pan fyddai'n rhesymol disgwyl i chi fod yn gwybod bod y buddiant personol hwnnw'n bodoli mae'ch dyletswydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfod yn berthnasol.

Yn amlwg, nid oes dichon i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono. Byddai'n anymarferol disgwyl i chi ymchwilio i gyflogaeth, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill eich holl berthnasau a phawb mae gennych chi gysylltiad agos â nhw. Fodd bynnag, ni ddylech chi anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech chi fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt, o safbwynt arsylwr rhesymol a gwrthrychol.

Os ydych chi'n datgan buddiant personol, cewch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, oni bai fod eich buddiant personol hefyd yn **fuddiant sy'n rhagfarnu**.

Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r hyn sy'n fuddiant sy'n rhagfarnu.

## Datgan buddiant personol

### Gweler paragraff 11

Mewn cyfarfodydd, rhaid i chi ddatgan bod gennych fuddiant personol a natur y buddiant hwnnw, cyn trafod y mater neu cyn gynted ag y daw'n amlwg i chi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Hyd yn oed os yw eich buddiant ar y gofrestr buddiannau, rhaid i chi ei ddatgan ar lafar yn y cyfarfodydd lle trafodir materion sy'n ymwneud â'r buddiant hwnnw.

Os ydych chi'n cyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, ffacs ayb) i aelod arall neu i swyddog, rhaid i chi gynnwys manylion unrhyw fuddiannau personol sydd gennych.

Yn yr un modd, os ydych chi'n siarad â swyddog neu aelod yn bersonol, dros y ffôn neu mewn cynhadledd fideo, dylech ddweud wrthynt am unrhyw fuddiant personol sydd gennych cyn cyflwyno eich sylwadau neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg. Rhaid i chi gadarnhau eich buddiant dros yr e-bost neu'n ysgrifenedig i'r swyddog dan sylw ac i'r swyddog monitro cyn pen 14 diwrnod. At ei gilydd, byddai'r Ombwdsman yn disgwyl i swyddogion gadw cofnod o unrhyw sgwrs lle mae aelod wedi datgan buddiant a'i atodi i'r ffeil briodol.

Os ydych chi'n gwneud penderfyniad fel rhan o bwyllgor gwaith neu fwrdd, rhaid i chi wneud yn siŵr bod y cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw (e.e. cofnodion cyfarfod cabinet) yn cynnwys manylion eich buddiant.

Os ydych chi wedi datgan buddiant mewn cyfarfod nad yw wedi cael ei gofnodi o'r blaen, rhaid i chi ei gyflwyno ar bapur i'ch awdurdod yn unol â'r trefniadau a bennwyd gan eich swyddog monitro. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cyn neu ar unwaith ar ôl y cyfarfod dan sylw neu gyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny. O leiaf, rhaid i chi nodi ar bapur beth yw'r buddiant, pa fusnes a ystyriwyd gan y cyfarfod y mae'n berthnasol iddo ac mae arnoch angen ei lofnodi.

Os ydych chi wedi cytuno â'ch Swyddog Monitro bod yr wybodaeth am eich buddiant personol yn wybodaeth sensitif, dylech chi ddatgan bodolaeth buddiant personol, a chadarnhau bod y Swyddog Monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth dan sylw yn sensitif. Mae'r adran isod yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

## Buddiannau sy'n rhagfarnu

### Gweler paragraff 12

### Beth yw buddiant sy'n rhagfarnu?

Bydd eich buddiant personol hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater os yw'r naill neu'r llall o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r mater yn disgyn yn un o'r categorïau busnes sydd wedi'u heithrio, neu
- mae'r mater yn ymwneud â mater rheoliadol neu drwyddedu (gweler paragraff 12 (3))

a byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol ei fod yn debygol o liwio eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

### Beth sydd mor arwyddocaol ei fod yn debygol o ragfarnu eich barn?

Petai aelod rhesymol o'r cyhoedd sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol yn meddwl y gallai fod eich barn er budd y cyhoedd wedi'i ragfarnu, yna mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Mae hwn yn brawf gwrthrychol. Rhaid i chi benderfynu nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a ellid gweld eich bod yn gwneud hynny.

Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a fyddai aelod o'r cyhoedd - petai'n gwybod am yr holl ffeithiau perthnasol - yn meddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol y byddai'n debygol o ragfarnu eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r buddiant ymddangos fel y gallai niweidio neu amharu ar eich gallu i farnu budd y cyhoedd.

Fel rheol ni fydd bodolaeth gwybodaeth leol, neu gysylltiadau â'r gymuned leol, yn ddigon i ddiwallu'r prawf. Rhaid cael rhyw ffactor a allai niweidio eich gallu i farnu budd y cyhoedd yn wrthrychol. Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio ar nifer fawr o bobl yn yr un modd ynteu a oes effaith benodol arnoch chi neu ar grŵp llai.

Rhaid cofio rhai egwyddorion cyffredinol wrth ddefnyddio'r prawf hwn. Dylech weithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac nid er budd unrhyw bobl mae gennych gysylltiad agos â nhw. Rydych chi'n gwarchod y pwrs cyhoeddus a budd y cyhoedd a dylai eich ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

Byddai gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn cais cynllunio petai rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw (e.e. eich mab neu gyfaill agos) yn byw drws nesaf i'r safle dan sylw. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod yn debygol y byddai'r cais yn debygol o gael mwy o effaith ar y sawl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw nac ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y ward neu'r adran etholiadol yr effeithir arni gan y penderfyniad (neu'r awdurdod, os nad oes gan eich awdurdod wardiau) ac mae hyn yn golygu bod gennych fuddiant personol yn y mater. Mae bodolaeth y cyswllt personol agos yn golygu y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn gallu meddwl y byddai'n rhagfarnu eich safbwynt o fudd y cyhoedd wrth ystyried y cais cynllunio. Nid oes gwahaniaeth p'un ai a fyddai'n gwneud hynny ai peidio.

Mewn achosion eraill, lle bu anghydfod rhyngoch chi ac unigolyn y byddai penderfyniad yn gallu bod yn anfantais iddo, gallai aelod gwybodus rhesymol o'r cyhoedd gasglu y byddech yn tueddu i bleidleisio'n unol â hynny, boed hynny'n wir ai peidio.

**Categorïau busnes sydd wedi'u heithrio**

Dywed paragraff 12(2) y Cod na fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â:

- awdurdod perthnasol arall rydych hefyd yn aelod ohono;
- awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gennych chi swyddogaeth rheoli;
- corff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;
- eich swyddogaeth fel llywodraethwr ysgol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod (e.e. rhiant-lywodraethwr) oni bai fod y busnes yn ymwneud yn benodol â'ch ysgol;
- eich swyddogaeth fel aelod o fwrdd iechyd pan nad ydych chi wedi cael eich penodi gan eich awdurdod
- Tai: os oes gennych les neu denantiaeth gyda'r awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les chi.
- Prydau ysgol neu gludiant ysgol a threuliau teithio: os ydych chi'n rhiant, yn warcheidwad, yn nain neu'n daid, neu â chyfrifoldeb rhiant am blentyn mewn addysg amser llawn neu os ydych chi'n rhiant lywodraethwr, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol mae'ch plentyn yn ei mynychu.
- Penderfyniadau ynghylch tâl salwch statudol os ydych chi'n ei gael neu mae gennych hawl i'w gael gan eich awdurdod.
- Lwfans neu daliad i aelodau. (Nid wyf o'r farn bod aelod yn cyflwyno'i hun ar gyfer ei ethol i swyddogaeth yn y cyngor sydd â Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn golygu buddiant sy'n rhagfarnu gan fy mod yn credu bod yr oddefeb gyffredinol yn berthnasol iddynt.)

Ni fydd yr eithriadau hyn yn berthnasol pan fydd y busnes rydych chi'n ei ystyried yn ymwneud â phennu cymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu reoliad. Rwyf yn ystyried bod y disgrifiadau hyn yn cyfeirio at gategori cul o benderfyniadau, megis rhoi caniatâd cynllunio a phenderfyniadau trwyddedu. Bydd dehongliad ehangach o gymeradwyaeth, er enghraifft, yn berthnasol i bob agwedd ar fusnes eich awdurdod bron ac yn amlwg nid oedd yn fwriadol.

**Enghraifft**

Canfu Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod dau aelod o gyngor bwrdeistref sirol, a oedd yn chwiorydd, wedi methu datgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu wrth benderfynu dyrannu arian o'u Cynllun Taliadau Bach Aelodau i gwmni, ac roedd un o'r aelodau yn gyfarwyddwr nad oedd yn cael tâl i'r cwmni hwnnw. Yn ystod fy ymchwiliad roedd un o'r aelodau'n gwrthwynebu'r ffaith ei bod wedi cael cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch datgan buddiannau o'r fath, ac roedd yr aelod arall, er gwaethaf cael cyngor ar ddatgan buddiannau wedi datgan yn ffug nad oedd ganddi ddim buddiant yn y cwmni ar y ffurflen enwebu. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi ystyried bod y Cod wedi cael ei dorri'n ddifrifol. Penderfynodd geryddu'r naill aelod a'r llall.

## Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

**Gweler paragraff 13**

Noder: nid yw'r adran hon yn berthnasol i awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Os caiff y ddau faen prawf isod eu diwallu mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes gerbron pwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg neu graffu:

- Mae'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (boed hwnnw wedi cael ei weithredu ai peidio) neu gamau a gymerwyd gan bwyllgor gwaith neu fwrdd eich awdurdod neu unrhyw un o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu gyd is-bwyllgorau eraill eich awdurdod.
- Roeddech yn aelod o'r corff a wnaeth y penderfyniad hwnnw bryd hynny ac roeddech yn bresennol ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam gweithredu.

Os yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn gwirio penderfyniad roeddech chi'n rhan o'i wneud, gellir gofyn i chi ddod i'r cyfarfod i roi tystiolaeth neu i ateb cwestiynau am y mater, a chewch wneud hynny ar yr amod eich bod yn gweithredu'n unol â'i bwerau statudol.

## Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu

**Gweler paragraff 14**

Hyd yn oed pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu, mae'r Cod yn cefnogi eich swyddogaeth fel eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli eich cymuned ac i siarad am faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac i chithau.

**Pwyntiau allweddol:**

Os oes gennych **fuddiant sy'n rhagfarnu** mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod, ar ôl i chi ddatgan eich buddiant personol yn y mater, rhaid i chi adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle), **oni bai fod aelodau'r cyhoedd yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater**, yn ôl hawl statudol neu fel arall. Os yw hynny'n wir, cewch hefyd fynychu'r cyfarfod i'r perwyl hwnnw.

Fodd bynnag, rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr ar unwaith ar ôl i'r cyfnod ar gyfer ystyried sylwadau ddod i ben, a chyn i unrhyw drafodaeth am yr eitem ddechrau, hyd yn oed os yw aelodau'r cyhoedd yn cael aros. Chewch chi ddim aros yn yr oriel gyhoeddus i arsylwi'r bleidlais ar y mater.

Ar ben hynny, rhaid i chi beidio â dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo. Mae'r rheol hon yn debyg i'ch dyletswydd gyffredinol i beidio â defnyddio eich safle fel aelod yn amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun neu i roi mantais neu anfantais i rywun arall. Golyga hyn yn ogystal â gadael cyfarfodydd lle y mae'r eitem yn cael ei drafod, ni ddylech ysgrifennu na gwneud unrhyw osodiadau ar lafar ynghylch y mater.

**Oes gennyf hawl statudol i siarad gerbron y cyfarfod?**

Nid yw'r Cod yn rhoi hawl gyffredinol i chi siarad gerbron cyfarfod pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall deddfwriaeth roi hawl i chi siarad (er enghraifft, gwrandawiadau trwyddedu a gwrandawiadau safonau) y mae'r Cod yn eu cydnabod. Os felly, byddwch yn cael arfer yr hawl honno i siarad. Dylai eich swyddog monitro allu cadarnhau a yw hyn yn berthnasol yn eich achos chi ai peidio.

**Os nad oes gennyf hawl statudol, a fyddaf yn cael siarad gerbron y cyfarfod?**

Mae'r Cod yn ceisio rhoi i aelodau'r un hawliau ag aelodau cyffredin o'r cyhoedd i siarad ar faterion penodol mewn cyfarfodydd, er gwaethaf y ffaith bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu. Fel rheol, caiff yr hawliau hyn eu llywodraethu gan gyfansoddiad, rheolau gweithdrefn neu reolau sefydlog eich awdurdod, a gallech fod yn rhwym wrth amodau gan gynnwys terfynau amser neu'r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno sylwadau.

Petai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad gerbron cyfarfod am eitem, dylech chi gael yr un cyfle. Byddwch yn cael gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem. Chewch chi ddim cymryd rhan yn y drafodaeth nac arsylwi'r bleidlais.

**Pryd y bydd yn rhaid i mi adael lle cynhelir y cyfarfod?**

Rhaid i chi adael ar unwaith pan ddaw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau i ben, a chyn i unrhyw ddadl ddechrau.

**Beth mae dylanwadu ar benderfyniad yn ei olygu?**

Rhaid i chi beidio â chyflwyno dim sylwadau na chymryd rhan mewn penderfyniadau mae gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu ynddynt, ac eithrio pan mae gennych chi hawl i siarad fel y disgrifir uchod.

**Beth os na chaiff y cyhoedd siarad gerbron y cyfarfod am y mater?**

Os na chaiff aelod cyffredin o'r cyhoedd siarad am y mater, chewch chi ddim gwneud hynny os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Rhaid i chi adael lle cynhelir y ddadl a rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar y ddadl mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn fod yn wir, er enghraifft, pan fydd eich awdurdod yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeedig neu pan nad oes ganddo reolau gweithdrefnau na rheolau sefydlog ar waith sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad yn un o gyfarfodydd eich awdurdod. Yn yr un modd â'r cyhoedd, chewch chi ddim cymryd rhan os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, pan fydd y cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i arsylwi'r cyfarfod, bydd yn rhaid i chi adael yr ystafell yn ystod y ddadl a'r bleidlais.

**Beth os wyf wedi cael fy ngwysio i fynychu pwyllgor craffu i drafod busnes y mae gennyf fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo?**

Os gofynnir i chi fynychu gan y pwyllgor sy'n arfer ei bwerau statudol, yna cewch fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfod.

## Swyddogaethau gweithredol neu gabinet

**Noder: ni fydd yr adran hon yn berthnasol i awdurdodau tân ac achub nac awdurdodau parciau cenedlaethol, oni bai fod trefniadau gweithredol ar waith yn yr achos olaf.**

Os ydych chi'n arweinydd neu'n aelod cabinet awdurdod sy'n gweithredu trefniadau gweithredol, rhaid i chi ddilyn y rheolau arferol ar gyfer aelodau gweithredol sydd â buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu.

Os yw eich budd yn bersonol ond nid yn rhagfarnu, cewch hefyd gynghori'r pwyllgor gwaith ar y mater a chymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau gweithredol ar yr amod eich bod yn datgan eich buddiant. Cewch hefyd arfer pwerau dirprwyedig yn y mater ar yr amod eich bod yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant personol.

Os ydych chi'n aelod gweithredol sy'n cael gwneud penderfyniadau unigol, ac mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn penderfyniad, gall eich awdurdod wneud trefniadau eraill fel y nodir yn adrannau 14-16 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae hyn yn golygu gall swyddog, aelod arall o'r cabinet, y pwyllgor gwaith llawn neu un o bwyllgorau'r pwyllgor gwaith wneud y penderfyniad.

Er bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater, efallai y cewch gyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth ar yr amod y byddai gan aelod o'r cyhoedd yr un hawliau, ond ni chewch wneud penderfyniadau ynghylch y mater hwnnw'n unigol nac mewn cabinet. Ni ddylech ychwaith gymryd rhan mewn unrhyw ystyriaeth gynnar ohono, nac ymarfer unrhyw bwerau dirprwyedig sy'n gysylltiedig ag ef. Os oes gennych bwerau dirprwyedig yn y maes hwnnw, dylech gyfeirio ystyried unrhyw benderfyniadau ar y mater i'r cabinet er mwyn osgoi'r canfyddiad o ddylanwad amhriodol.

## Goddefebau

**Os oes gennyf fuddiant sy'n rhagfarnu, a allaf gael goddefeb i ganiatáu i mi gymryd rhan yn y cyfarfod?**

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i bwyllgor safonau eich awdurdod am un oddefeb neu fwy am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- byddai o leiaf 50 y cant o aelodau'r awdurdod neu'r pwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau sy'n rhagfarnu;
- byddai o leiaf hanner y cabinet hefyd yn cael ei atal yn y fath fodd (dylid cynnwys yr arweinydd yn y cabinet wrth gyfrifo'r gyfran);
- yn achos cyngor sir/bwrdeistref sirol, byddai'n amharu cymaint ar y cydbwysedd gwleidyddol yn y cyfarfod y byddai'n debyg o effeithio ar y canlyniad;
- mae natur eich buddiant o'r fath fodd na fyddai'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd;
- mae eich buddiant yn gyffredin ymysg cyfran sylweddol o'r cyhoedd;
- mae gennych swyddogaeth neu arbenigedd penodol a fyddai'n cyfiawnhau eich cyfranogiad;

- mae'r busnes yn cael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg neu graffu ac nid oes gennych fuddiant ariannol;
- mae'r busnes yn ymwneud â chyllid neu eiddo mudiad gwirfoddol ac rydych chi'n aelod o'i fwrdd neu ei bwyllgor yn eich rhinwedd eich hun ac nid oes gennych ddim buddiant arall, er yn yr enghraifft hon, ni fydd unrhyw oddefeb yn caniatáu i chi bleidleisio ar y mater, neu
- mae'r pwyllgor o'r farn y byddai eich cyfranogiad er budd pobl ardal eich awdurdod a bod y pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen saith niwrnod.

Gallwch wneud cais am oddefeb yn unigol ac mewn rhai amgylchiadau, gallwch wneud ceisiadau ar y cyd pan fydd ar nifer o aelodau eisiau cael goddefeb i siarad neu i bleidleisio ar yr un mater. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n cymeradwyo eich cais, rhaid iddo roi'r oddefeb yn ysgrifenedig a chyn cynnal y cyfarfod. Os oes angen goddefeb arnoch, dylech wneud cais am un cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dim ond y Pwyllgor Safonau gaiff roi'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny'n ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol. Os bydd methu rhoi goddefeb yn golygu na fydd awdurdod neu bwyllgor yn cyflawni'r cworwm, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb.

Pan fydd gennych oddefeb, gallwch hefyd wneud sylwadau ysgrifenedig ond rhaid i chi roi manylion yr oddefeb mewn unrhyw ohebiaeth. Os ydych chi'n gwneud sylwadau llafar, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gyfeirio at yr oddefeb a chadarnhau hyn ar bapur cyn pen 14 diwrnod.

## 4. Cofrestru Buddiannau

## Pwyntiau allweddol:

Rhaid i holl aelodau awdurdodau ddarparu cofnod o'u buddiannau mewn cofrestr buddiannau cyhoeddus. Os ydych yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod tân neu awdurdod parc cenedlaethol, rhaid i chi hysbysu eich Swyddog Monitro ar bapur cyn pen 28 diwrnod o gael eich swyddogaeth, neu cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid i'ch cofrestr o fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n disgyn yn y categorïau sydd wedi'u pennu yn y Cod, fel yr amlinellir isod.

Mae arnoch angen cofrestru eich buddiannau er mwyn i'r cyhoedd, staff yr awdurdod a chyd aelodau wybod pa rai o'ch buddiannau a allai arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r gofrestr yn ddogfen y gellir taro golwg arni pan (neu cyn) y bydd mater yn codi, ac felly mae'n caniatáu i bobl eraill wybod pa fuddiannau sydd gennych, ac a allent arwain at wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Mae'r gofrestr hefyd yn eich amddiffyn chi. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylech chi ddatgan buddiant mewn cyfarfod ai peidio, ond gall fod yn ddefnyddiol i chi wybod yn gynnar a allai pobl eraill feddwl y gallai gwrthdaro posibl godi. Mae'n bwysig hefyd bod y cyhoedd yn gwybod am unrhyw fuddiannau y gallai fod yn rhaid i chi neu aelodau eraill eu datgan, er mwyn i'r cyhoedd weld bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agored ac yn onest. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hyder y cyhoedd yng nghywirdeb llywodraethu lleol yn cael ei gynnal.

Fel y nodwyd yn flaenorol, oni bai eich bod yn gynghorydd cymuned, rhaid i chi hysbysu eich swyddog monitro ar bapur cyn pen 28 diwrnod o gael eich swyddogaeth, neu cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid i'ch cofrestr o fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n disgyn yn y categorïau sydd wedi'u pennu yn y Cod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eich swydd(i) neu eich busnes(au).
- Enw eich cyflogwr neu bobl sydd wedi eich penodi i weithio iddynt.
- Enw unrhyw un sydd wedi rhoi taliad i chi yng nghyswllt eich etholiad, neu dreuliau rydych chi wedi'u cael wrth gyflawni eich dyletswyddau.
- Enw unrhyw unigolyn, cwmni neu gorff arall sydd â lleoliad busnes neu dir yn ardal yr awdurdod, ac mae eich cyfranddaliadau yn y cwmni dros £25,000 (gwerth nominal) neu mae gennych gyfran dros 1/100 o gyfalaf cyfrannau'r cwmni.
- Unrhyw gontractau rhwng yr awdurdod a chi neu eich ffyrm (os ydych yn bartner) neu gwmni (os ydych yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu os oes gennych chi gyfranddaliadau fel y disgrifir uchod) gan gynnwys unrhyw les, trwydded gan yr awdurdod ac unrhyw gontractau ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith. Pan fydd y contract yn ymwneud â defnyddio tir neu eiddo, rhaid nodi'r tir ar y gofrestr.
- Unrhyw dir ac eiddo yn ardal yr awdurdod y mae gennych fuddiant manteisiol ynddo (neu drwydded i'w feddiannu am fwy na 28 diwrnod) gan gynnwys, ond nid yn unig, y tir a'r tŷ lle rydych chi'n byw ac unrhyw randiroedd rydych chi'n berchen arnynt neu'n eu defnyddio.
- Os ydych yn rheoli neu'n aelod o:
  - unrhyw gyrff eraill y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu ar eu cyfer gan yr awdurdod
  - unrhyw gyrff sy'n **arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus** (a ddisgrifir uchod), neu a gyfarwyddir at ddibenion elusennol, neu y mae eu prif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw blaid wleidyddol neu undeb llafur
  - unrhyw glwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod.

## Gwybodaeth sensitif

**Pwyntiau allweddol:**

Efallai y cewch eich eithrio rhag gorfod cynnwys gwybodaeth sensitif ar eich cofrestr buddiannau. Os yw eich buddiant personol mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn wybodaeth sensitif, bydd arnoch angen datgan bod gennych fuddiant personol ond ni fydd yn rhaid i chi roi dim manylion am natur y buddiant hwnnw.

Gall gwybodaeth sensitif gynnwys eich cyflogaeth sensitif (megis ymchwil wyddonol benodol neu'r Lluoedd Arfog) neu fuddiannau eraill sy'n debygol o beri risg difrifol o drais neu frawychu yn eich erbyn chi neu rywun sy'n byw gyda chi petai'r cyhoedd yn gwybod amdanynt.

Dylech roi'r wybodaeth hon i'ch Swyddog Monitro ac egluro eich pryderon ynghylch datgelu'r wybodaeth sensitif; gan gynnwys pam ei bod yn debygol o beri risg ddifrifol y byddwch chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn destun trais neu frawychu. Nid oes arnoch angen cynnwys yr wybodaeth hon ar eich cofrestr o fuddiannau os bydd eich Swyddog Monitro'n cytuno â hynny. Yn y pen draw, rhaid i chi benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys ar eich cofrestr o fuddiannau a fydd ar gael i'r cyhoedd. Os na fydd gwybodaeth ar eich cofrestr yn sensitif mwyach, rhaid i chi roi gwybod i'ch swyddog monitro cyn pen 28 diwrnod a gofyn iddynt ddiwygio'r wybodaeth yn unol â hynny.

## Rhoddion a lletygarwch

**Pwyntiau allweddol:**

Rhaid i chi gofrestru unrhyw roddion neu letygarwch sydd werth mwy na'r swm a bennwyd gan eich awdurdod a gewch yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod, a ffynhonnell y rhodd neu'r lletygarwch.

Rhaid i chi gofrestru'r rhodd neu'r lletygarwch a'i ffynhonnell cyn pen 28 diwrnod o'i dderbyn.

Yn yr un modd â buddiannau eraill yn eich cofrestr buddiannau, gall fod gennych **fuddiant personol** mewn mater sy'n cael ei ystyried os yw'n debygol o effeithio ar unigolyn a roddodd rodd neu letygarwch i chi sydd wedi'i gofrestru. Os yw hynny'n wir, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu'r lletygarwch, y sawl a'i rhoddodd i chi, sut mae'r busnes sy'n cael ei ystyried yn berthnasol i'r unigolyn hwnnw neu honno ac wedyn penderfynu a yw'r buddiant hwnnw hefyd yn **fuddiant sy'n rhagfarnu**.

Mae hefyd yn arfer da darparu nodyn o unrhyw gynigion o roddion rydych wedi'u gwrthod.

**A yw'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?**

Dylech ofyn i chi'n hun, a fyddwn i wedi cael y rhodd hwn pe na bawn i ar y cyngor? Os nad ydych chi'n siŵr o'r cymhelliant y tu ôl i rodd neu letygarwch, rydym yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n siarad â'ch Swyddog Monitro.

Nid oes arnoch angen cofrestru rhoddion a lletygarwch nad ydynt yn berthnasol i'ch swyddogaeth fel aelod, megis anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, na rhoddion nad ydych chi'n eu derbyn. Fodd bynnag, dylech bob amser gofrestru rhodd neu letygarwch petai modd ei weld fel rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich safle neu os yw eich awdurdod yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

**Beth os nad wyf fi'n gwybod beth yw gwerth rhodd neu letygarwch?**

Yn gyffredinol, os nad ydych chi'n siŵr o werth rhodd neu letygarwch, dylech ei gofrestru, fel mater o ymarfer da ac yn unol ag egwyddorion bod yn agored ac yn atebol mewn bywyd cyhoeddus.

Efallai y bydd yn rhaid i chi amcangyfrif gwerth rhodd neu letygarwch. Hefyd, os ydych chi wedi cael nifer o roddion bach o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sydd, at ei gilydd, yn cyrraedd y gwerth a bennwyd gan eich awdurdod, dylech gofrestru hynny.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at fudd neu fantais faterol. Mesur hyn fyddai petai arsylwr annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y gellid gweld eich bod ar eich ennill o ganlyniad.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
E-bost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
Gwe: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

PAPUR / ENCLOSURE
4

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2279 (Cy. 169 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig sy'n gorfod ymgorffori unrhyw ddarpariaethau gorfodol o unrhyw god ymddygiad enghreifftiol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 50(2) o'r Ddeddf.

Mae adran 81(1) a (2) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r swyddog monitro ym mhob awdurdod perthnasol sefydlu a chadw cofrestr o fuddiannau aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod a bod darpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol sy'n gymwysadwy i bob awdurdod perthnasol yn gorfod ei gwneud yn ofynnol i aelodau ac aelodau cyfetholediog pob awdurdod gofrestru unrhyw fuddiannau ariannol ac eraill a bennir yn y darpariaethau gorfodol yng nghofrestr yr awdurdod hwnnw.

O dan adran 81(3) a (4) o'r Ddeddf rhaid i'r darpariaethau gorfodol hynny ei gwneud yn ofynnol hefyd i aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol sydd â buddiant o'r fath ei ddatgelu cyn cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod sy'n berthnasol i'r buddiant a gwneud darpariaeth i atal yr aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw rhag cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod y mae'r buddiant a ddatgelwyd yn berthnasol iddo neu i gyfyngu ar y rhan y mae'n ei chymryd ynddo.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2279 (W. 169 )

# LOCAL GOVERNMENT , WALES

## The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

County and county borough councils, community councils, fire authorities and National Park authorities in Wales ("relevant authorities") are required by section 51 of the Local Government Act 2000 ("the Act") to adopt a code of conduct for members and co-opted members which must incorporate any mandatory provisions of any model code of conduct issued by the National Assembly for Wales under section 50(2) of the Act.

Section 81(1) and (2) of the Act provides that the monitoring officer of each relevant authority must establish and maintain a register of interests of the members and co-opted members of the authority and that the mandatory provisions of the model code applicable to each relevant authority must require the members and co-opted members of each authority to register in that authority's register such financial and other interests as are specified in the mandatory provisions.

Under section 81(3) and (4) of the Act those mandatory provisions must also require a member or co-opted member of a relevant authority who has such an interest to disclose it before taking part in any business of the authority which relates to it and make provision for preventing or restricting the participation of that member or co-opted member in any business of the authority to which the disclosed interest relates.

Mae adran 81(4) o'r Ddeddf yn darparu nad yw unrhyw gyfranogiad gan aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol mewn unrhyw fusnes a waherddir gan y darpariaethau gorfodol yn fethiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod os yw'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi gweithredu yn unol â gollyngiad rhag y gwaharddiad a gafodd ei ganiatáu gan bwyllgor safonau'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir o dan is-adran (5).

Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff pwyllgorau safonau'r awdurdodau perthasol ganiatáu gollyngiadau o'r fath odanynt.

Section 81(4) of the Act provides that any participation by a member or co-opted member of a relevant authority in any business which is prohibited by the mandatory provisions is not a failure to comply with the authority's code of conduct if the member or co-opted member has acted in accordance with a dispensation from the prohibition granted by the authority's standards committee in accordance with regulations made under subsection (5).

These regulations prescribe the circumstances in which standards committees of relevant authorities may grant such dispensations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2279 (Cy. 169 )

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 81(5) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**).

**Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn -

mae "aelod" (*"member"*) yn cynnwys aelod cyfetholedig;

ystyr "awdurdod perthnasol" (*"relevant authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

ystyr "buddiant" (*"interest"*) yw buddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru yng nghofrestr buddiannau'r awdurdod perthnasol;

ystyr "corff gwirfoddol" (*"voluntary organisation"*) yw corff (heblaw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall) sy'n cynnal ei weithgareddau heblaw ar gyfer gwneud elw;

acystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(a) 2000 p. 22.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2279 (W. 169 )

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *21st June 2001* |
| *Coming into force* | *28th July 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power given to it by section 81(5) and (8) of the Local Government Act 2000(**a**).

**Name, commencement, application and interpretation**

**1.**- (1) The name of these Regulations is the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only.

(3) In these Regulations -

"interest" (*"buddiant"*) means an interest which is required to be registered in the relevant authority's register of interests;

"member" (*"aelod"*) includes a co-opted member;

"relevant authority" (*"awdurdod perthnasol"*) means a county or county borough council, a community council, a fire authority or a National Park authority;

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Local Government Act 2000; and

"voluntary organisation" (*"corff gwirfoddol"*) means a body (other than a local authority or other public body) whose activities are carried on otherwise than for profit.

(a) 2000 c. 22.

## Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

2. Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

## Circumstances in which dispensations may be granted

2. The standards committee of a relevant authority may grant dispensations under section 81(4) of the Act where -

(a) no fewer than half of the members of the relevant authority or of a committee of the authority (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the members of a leader and cabinet executive of the relevant authority by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) in the case of a county or county borough council, the inability of the member to participate would upset the political balance of the relevant authority or of the committee of the authority by which the business is to be considered to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business;

(e) the interest is common to the member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise;

(g) the business to which the interest relates is to be considered by an overview and scrutiny committee of the relevant authority and the member's interest is not a pecuniary interest;

(h) the business which is to be considered relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the member is a member otherwise than as a representative of the relevant authority and the member has no other interest in that business provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business; or

(i) it appears to the committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the relevant authority that the disability should be removed provided that written notification of the grant of the dispensation is given to the National Assembly for Wales within seven days in such manner as it may specify.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

21 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

*D. Elis-Thomas*

21st June 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2001 Rhif 2279 (Cy. 169 )

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 No. 2279 (W. 169 )

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

# The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090284-X

9 780110 902845

£2.00

W/321/07/01

ON

PAPUR / ENCLOSURE
5

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **Medi 9 2013** |
| **Pwnc** | **Moderneiddio Ysgolion Môn** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion**<br>**Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Thrafnidiaeth)** |
| **Natur a'r rheswm dros adrodd**<br><br>I adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar gyflwr y ffyrdd rhwng Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed. | |

**A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion**

Ym mis Ionawr 2012, rhoddodd Bwrdd y Comisiynwyr yr awdurdod i alluogi swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes i ymweld ag ysgolion yn Ne Ddwyrain Môn er mwyn ymgynghori ar opsiynau ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.

O gael yr awdurdod hwn, a chwblhau'r ymgynghori anstatudol neu anffurfiol, paratôdd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes nifer o opsiynau posibl. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith (gydag amodau) yn ei gyfarfod ar Ionawr 14, 2013 i:

**Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ar adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn, yn amodol ar yr isod:**

- **Bod materion cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u bod yn cael eu datrys yn foddhaol, a**
- **Ail ymweld â'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn gyda hyn yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.**
- **Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r broses ymgynghori anffurfiol gan ysgolion cynradd Llanddona, Llangoed a Biwmares.**

| |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am faterion cludiant sy'n ymwneud â chludo disgyblion Ysgol Llanddona i Ysgol Llangoed. |

| **B - Ystyriaethau** |
|---|
| Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar Ionawr 14, 2013. |

| **C – Goblygiadau ac effeithiau** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol/Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim sylwadau |
| **4** | **Y Gwasanaethau Eiddo** | |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **6** | **Cydraddoldeb** | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | |
| **8** | **Cyfathrebu** | |
| **9** | **Ymgynghori** | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol** | |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **13** | **Cytundebau Deilliant** | |

CYFRINACHOL

**CH - Crynodeb**

1.0 **CEFNDIR**

1.1 Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth ymchwilio i'r goblygiadau a gaiff trosglwyddo disgyblion o Ysgol Llanddona i Ysgol Llangoed o safbwynt traffig a thrafnidiaeth.

1.2 Yn 2013, roedd y patrwm teithio fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Car | : 22 – 33% (2 yn cerdded pan yn braf) |
| Rhannu car | : 0% |
| Bws | : 0% |
| Beicio | : 0-6% (1 yn beicio weithiau ond yn cerdded fel arall) |
| Cerdded | : 61-67% |
| Tacsi | : 0% |

1.3 Gwnaed gwaith gwerth £13,000 yn Ysgol Llangoed yn 2008/09 fel rhan o'r gwaith gwella Diogelwch Ysgolion a oedd yn cael ei gyllido gan y Cyngor.

1.4 Gwnaed gwaith y tu allan i Ysgol Llanddona yn 2007/2008 a 2008/09 dan y Grant Diogelwch ar Ffyrdd Lleol a'r Cynlluniau Ffyrdd Diogelach mewn Cymunedau a gyllidwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y cynlluniau hyn werth £19,000 a £51,000 ac roeddynt yn cynnwys y mwyafrif o'r elfennau a amlygwyd yn yr asesiad risg diogelwch ysgol. Bwriad y cynlluniau oedd lleihau peryglon gwirioneddol ac ymddangosiadol i holl ddefnyddwyr y ffyrdd a'r troedffyrdd a hyrwyddo mynediad diogel a chynaliadwy yn y gymuned.

1.5 Yn 2009/10, llwyddwyd i sicrhau Grant Diogelwch ar Ffyrdd Lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Grantiau Môn Menai a oedd rhyngddynt werth £102,000 i wella'r cysylltiadau i gerddwyr rhwng Llangoed a Biwmares. Mae'r ffordd hon hefyd yn rhan o Lwybr Arfordirol Ynys Môn.

2.0 **Y SEFYLLFA GYFREDOL**

2.1 Nid oes bws ysgol i Ysgol Llanddona nac Ysgol Llangoed. Fodd bynnag, oherwydd gosodiad y ffordd fawr a'r gilfan y tu allan i Ysgol Llangoed, gellid yn hawdd sefydlu man gollwng a chodi trwy wneud mân-waith altro a gellid hefyd i ddarparu lle diogel i droi.

2.2 Mae yna 3 ffordd bosibl rhwng y ddwy ysgol:

- Ffordd uniongyrchol ar hyd lonydd bychain di-ddosbarth;
- Y lôn dosbarth III heibio Bwrdd Arthur a'r lôn ddi-ddosbarth trwy Glan-yr-Afon;
- Y lôn dosbarth III heibio Bryn Bela a'r B5109 drwy Fiwmares;

2.3 Mae'r ffordd uniongyrchol yn gul iawn (llai na 3m o led) heb unrhyw lefydd pasio, gwrychoedd uchel a stribedyn o laswellt ar ganol y lôn mewn sawl lle. Mae'n hollol anaddas fel ffordd i fws.

2.4 Mae'r lôn Dosbarth III o Landdona I gyfeiriad Glan-Yr-Afon yn ddigon llydan ar gyfer llif traffig yn y ddau gyfeiriad am y filltir gyntaf tuag at y mast. Y tu draw i'r fan honno i gyfeiriad Glan-Yr-Afon, mae cyfluniad llorweddol a fertigol y lôn yn wael ac mae'n gul heb unrhyw lefydd pasio. Mae'r lôn trwy Glan-Yr-Afon yn hynod serth (graddiant o 17%) ac, yn gyffredinol, nid yw'n addas ar gyfer bws ysgol. Ar hyd y ffordd yma, mae 4.5 milltir rhwng Ysgol Llangoed ac Ysgol Llanddona ac mae'r siwrnai'n cymryd oddeutu 12-15 munud mewn car. Gallai gymryd mwy o amser na hynny i fws oherwydd y posibilrwydd y ceid oedi am fod y lôn mor gul. Byddai'n costio hyd at £2M i wella'r lôn i safon dderbyniol.

2.5 Mae'r lôn Dosbarth III heibio Bryn Bella a'r B5109 trwy Fiwmares i Langoed yn ddigon llydan ar gyfer traffig deuffordd gyda marciau ar ganol y lôn. Mae'r ffordd yn addas ar gyfer bws ysgol ac dangosir hyn gan y ffaith fod bysus gwasanaeth rhifau 50, 53, 57 a 58 yn defnyddio pob rhan o'r lonydd. O deithio a y lonydd hyn, mae 5.5 milltir rhwng Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed ac mae'n cymryd oddeutu 10-12 munud mewn car. Ni ddylai'r siwrnai gymryd llawer hirach mewn bws.

2.6 Mae dyluniad wedi ei baratoi (gwerth £100,000) ar gyfer tro Bryn Bella rhwng Llanddona ac Allt Goch, Beaumaris. Mae cais am gyllid wedi ei gyflwyno a byddai sicrhau hwnnw yn help o ran y llwybr sydd yn cael ei argymell.

2.7 Wedi ymgynghori gyda swyddogion Priffyrdd, mae'r lôn o Landdona heibio Bryn Bella ac yna'r B5109 i Fiwmares ac yna i Langoed yn cael ei graeanu.

## D -Argymhelliad

Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu derbyn mai'r Lôn Dosbarth III heibio Bryn Bella a'r B5109 trwy Fiwmares yw'r unig ffordd addas rhwng Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed gyda'r angen i wneud mân-waith trwsio yn unig i'r gilfan y tu allan i Ysgol Llangoed i ddarparu ar gyfer gwasanaeth bws ysgol.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad** | **Emrys Bebb** |
| **Teitl swydd** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion** |
| **Dyddiad** | **Awst 21 2013** |

| Atodiadau: |
| --- |
| Y ddogfen ymgynghori statudol. |

| Papurau Cefndirol |
| --- |
| |

CYFRINACHOL

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **Medi 9 2013** |
| **Pwnc** | **Moderneiddio Ysgolion Môn** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion** |

**Natur a'r rheswm dros adrodd**

I adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar y broses ymgynghori statudol neu ffurfiol a gynhaliwyd yn Ysgol Llanddona ym mis Chwefror a Mawrth 2013.

## A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion

Ym mis Ionawr 2012, rhoddodd Bwrdd y Comisiynwyr yr awdurdod i alluogi swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes i ymweld ag ysgolion yn Ne Ddwyrain Môn er mwyn ymgynghori ar opsiynau ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.

O gael yr awdurdod hwn, a chwblhau'r ymgynghori anstatudol neu anffurfiol, paratodd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes nifer o opsiynau posibl. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith (gydag amodau) yn ei gyfarfod ar Ionawr 14, 2013 i:

**Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ar adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r broses ymgynhori statudol.

## B - Ystyriaethau

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar Ionawr 14, 2013.

| C – Goblygiadau ac effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol/Monitro** | Er fod rheoliadau newydd ynglŷn â threfniadaeth ysgolion yn dod i rym ar Hydref 1 2013, mae'r cynnig hwn yn dod o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn berthnasol iddo. |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Oblygiadau colli swyddi yn Ysgol Llanddona |
| 4 | **Y Gwasanaethau Eiddo** | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb** | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | |
| 8 | **Cyfathrebu** | |
| 9 | **Ymgynghori** | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol** | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 13 | **Cytundebau Deilliant** | |

CYFRINACHOL

## CH - Crynodeb

Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith sy'n crynhoi'r broses ymgynghori statudol neu ffurfiol yn ardal Llanddona. Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar Ionawr 14, 2013, oedd:-

- Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ar adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn, yn amodol ar yr isod:-

- Bod materion cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u bod yn cael eu datrys yn foddhaol, a

- Ailymweld â'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn gyda hyn yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.

- Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r broses ymgynghori anffurfiol gan ysgolion cynradd Llanddona, Llangoed a Biwmares.

## D -Argymhelliad

Argymhellir y dylid:

- Dilyn y drefn statudol ynglŷn â chynnig i gau Ysgol Llanddona ar 31 Awst 2014 ac, yn amodol ar ddewis rhieni, trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed
- Uno dalgylch Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed.
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad** | **Emrys Bebb** |
| **Teitl swydd** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion** |
| **Dyddiad** | **Awst 21 2013** |

## Atodiadau:

Y ddogfen ymgynghori statudol.

Adroddiad traffig

## Papurau Cefndirol

CYFRINACHOL

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYFRINACHOL

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

## ADRAN DYSGU GYDOL OES
*LIFELONG LEARNING DEPARTMENT*

# YMATEB I'R YMGYNGHORI AR YR OPSIWN I GAU YSGOL LLANDDONA - YMGYNGHORIAD STATUDOL (CHWEFROR – MAWRTH 2013)

# RESPONSE TO THE CONSULTATION ON THE OPTION TO CLOSE YSGOL LLANDDONA – STATUTORY CONSULTATION (FEBRUARY – MARCH 2013)

Mehefin / June 2013

## 1. CEFNDIR

1.1 Fel rhan o ymgynghori anffurfiol yn Ne Ddwyrain Môn, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff tair ysgol sy'n rhan o'r ymgynghoriad fel y rhestrir yn Nhabl 1 isod. Roedd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar Ddydd Mercher, Medi 12, 2012 ac yn gorffen ar Ddydd Mercher, Hydref 24, 2012.

**<u>Tabl 1</u>**

| | | Cyfarfod efo | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2012)** | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| Llanddona | Dydd Llun Medi 10 | 3.30 | 5.00 | 6.30 |
| Llangoed | Dydd Mawrth Medi 11 | 3.45 | 5.00 | 6.15 |
| Beaumaris | Dydd Mercher Medi 12 | 3.45 | 5.00 | 6.15 |

1.2 I atgoffa, gwelir y rhestr o'r opsiynau ar gyfer yr ysgolion yn Ne Ddwyrain Môn a gynigwyd sef:

1. Parhau i gynnal y tair ysgol.
2. Cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris
3. Cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed.
4. Cau Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris.
5. Ffederaleiddio neu glystyru

1.3 Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2013, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) fel yr opsiwn i'w ffafrio ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gyda'r amodau isod:-

- Bod y materion o ran cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u datrys yn foddhaol, a
- Rhoi sylw eto i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.

Roedd y cyfnod ymgynghori statudol yn rhedeg o Chwefror 5, 2013 at Fawrth 5, 2013. Ar ôl y cyfnod hwn, cyhoeddwyd yr amserlen ar gyfer yr etholiad a bod y cyfnod cyn etholiadol yn cychwyn ar Fawrth 11, 2013. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, penderfynwyd na fyddai'n briodol delio gyda sefyllfa Ysgol Llanddona yn ystod y cyfnod hwn.

CYFRINACHOL

1.4 Casglwyd barnau staff, rhieni, llywodraethwyr ac eraill ac fe'u crynhoir yn yr adroddiad hwn.

## 2. YMATEBION YSGOL LLANDDONA

2.1 Derbyniwyd 49 ymateb gan randdeiliaid Ysgol Llanddona - 28 gan rieni, 4 gan nain a thaid ac eraill gan drigolion lleol a pherchennog busnes lleol. Rhai o'r sylwadau oedd:-

- Roeddent yn canmol addysg ddwyieithog yr ysgol a'r gwaith oedd yn cael ei wneud i helpu disgyblion gydag anghenion arbennig. Roeddent yn poeni am effaith cau'r ysgol o bosib ar y Gymraeg yn yr ardal.
- Dywedodd eraill fod yr ysgol yn galon i'r gymuned ac yn drysor i'r gymuned a bod y plant yn hapus yno.
- Nid oeddent yn bleidiol i symud eu plant i Ysgol Beaumaris petai Ysgol Llanddona'n cau gan grybwyll problemau ymddygiad fel y rheswm.
- Rhai'n poeni am y disgyblion yn teithio i Ysgol Llangoed petai Ysgol Llanddona'n cau.
- Syniad i gau Ysgol Beaumaris a gwasgaru'r disgyblion i ysgolion cynradd cyfagos ac felly osgoi gwario dros £750,000 ar gynnal a chadw Ysgol Gynradd Beaumaris.
- Barnu'r Asesiad Effaith Cymunedol.
- Dywedodd rhai rhieni y byddent yn mynd a'u plant i ysgolion yng Ngwynedd petai Ysgol Llanddona'n cau.

2.2 Yn ogystal â'r uchod, derbyniwyd llythyr ffurfiol yn y Gymraeg a'r Saesneg gan Is-gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Llanddona. Yn ogystal â chodi rhai o'r pwyntiau crybwyllir uchod, roedd hi'n barnu'r broses ymgynghori:

1. Cyd-ddigwyddiad fod yr aelod etholedig ar yr adeg wedi ei wahardd o'i waith ar adeg yr ymgynghori.
2. Nid oeddent yn derbyn cyn lleied o ymateb cafwyd o du Ysgol Llanddona yn yr ymgynghori anffurfiol.

2.3 Dywedodd Cadeirydd Llywodraethwyr Canolfan Hamdden Beaumaris ei fod yn poeni y byddai cau Ysgol Llanddona yn cael effaith ar eu cynlluniau i gael y gymuned i gael mwy o ran yng ngweithgareddau'r Ganolfan.

2.4 Derbyniwyd llythyr gan yr Aelod Cynulliad lleol yn mynegi pryderon trigolion Llanddona am yr holl broses.

## 3. YMATEBION YSGOL LLANGOED

3.1 Derbyniwyd 14 ymateb gan randdeiliaid Ysgol Llangoed. Roedd yr ymatebion gan rieni (13) i gyd ar ffurflenni adborth ac roeddent oll yn gefnogol i'r bwriad i gau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed.

3.2 Yn y llythyr arall, datganodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llangoed ei "gefnogaeth lwyr i benderfyniad y Cyngor Sir i ddewis gweithredu ar Opsiwn 3". Gweler Atodiad 2 am gopi o'r llythyr.

## 4. ARGYMHELLION

Gwelir o'r ddogfen ymgynghori statudol fod:-

- Llefydd gweigion (ac yn annhebygol o newid llawer yn y blynyddoedd i ddod) a chost y pen yn uchel yn Ysgol Llanddona.
- Llefydd ar gael yn Ysgol Llangoed.
- Ansawdd y ddarpariaeth yn Ysgol Llangoed o leiaf cystal â'r ddarpariaeth yn Llanddona.
- Ysgol Llangoed yn debyg o ran cefndir ieithyddol a darpariaeth ddwyieithog.

Felly, argymhellir y dylid:

- Dilyn y drefn statudol ynglŷn â chynnig i gau Ysgol Llanddona ar 31 Awst 2014 ac, yn amodol ar ddewis rhieni, trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed.
- Uno dalgylch Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed.
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.


CYFRINACHOL

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# YMGYNGHORIAD STATUDOL
# *STATUTORY CONSULTATION*

## ARDAL DE DDWYRAIN MÔN
## *SOUTH EAST ANGLESEY AREA*

## Chwefror 5 - Mawrth 5, 2013 / *February 5 – March 5, 2013*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
***ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***

**ADRAN DYSGU GYDOL OES**
***LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

www.ynysmon.gov.uk

| Rhif. | CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1. | CEFNDIR | 3 |
| 2. | MANYLION YR YSGOLION | 4 |
| 3. | NIFEROEDD DISGYBLION | 5 |
| 4. | SAFONAU ADDYSG | 6 |
| 5. | CYFLWR YR ADEILADAU | 10 |
| 6. | FFACTORAU DAEARYDDOL | 10 |
| 7. | AGWEDDAU ARIANNOL | 10 |
| 8. | Y BROSES YMGYNGHORI | 11 |
| 9. | Y CAMAU NESAF | 12 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ym mis Ionawr 2012 rhoddodd Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn awdurdod i swyddogion y Gwasanaeth Addysg ymweld â'r ysgolion cynradd yn Ne Ddwyrain Ynys Môn i ymgynghori ar opsiynau ar gyfer darparu addysg gynradd yn yr ardal.

1.2 Wedi derbyn yr awdurdod hwn, cynhaliodd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol oes gyfarfodydd ymgynghori â staff, llywodraethwyr a rhieni ym mis Medi 2012 a dilynwyd hyn gan gyfnod ymgynghori 6 wythnos a ddaeth i ben ar 24 Hydref, 2012.

1.3 Derbyniwyd llawer o ymatebion a lluniwyd adroddiad ar y rhain gan swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes a'i gyflwyno i Bwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2012.

1.4 Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid:-

- Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Ynys Môn gyda'r amodau isod -
    - Bod y materion o ran cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u datrys yn foddhaol, a
    - Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.

1.5 Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2013, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Ynys Môn gyda'r amodau isod:-

- Bod y materion o ran cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u datrys yn foddhaol, a
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.

1.6 Mae'r cyfnod ymgynghori statudol neu ffurfiol yn rhedeg o Chwefror 5, 2013 at Fawrth 5, 2013.

## 2. MANYLION YR YSGOLION

### 2.1 Ysgol Llanddona

Mae'r adeilad gwreiddiol yn dyddio o cyn 1900 ond bu cryn ail-fodelu yn nechrau'r 1970au. Erbyn hyn mae dwy ystafell, neuadd ac ystafell ddistaw yn rhoi lle i gyfanswm o 56 o ddisgyblion. Mae holl adnoddau a chyfleusterau'r adeilad ar gael yn hwylus i'r ddau ddosbarth. Mae'r cae yn addas a lle parcio priodol i'r staff ac addasiadau i'r ffordd tuag at yr ysgol wedi eu cwblhau yn gymharol ddiweddar.

2.1.2 Yn 2011/12, daeth un disgybl all ddalgylch i'r ysgol ond cyn hynny, nid oedd yr un o'r disgyblion yn dod o'r tu allan i'r dalgylch ac mae 17% yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith.

2.1.3 Dim ond 4.4% o'r disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim.

2.1.4 Dysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth.

### 2.2 Ysgol Llangoed

2.2.1 Agorwyd adeilad presennol yr ysgol yn 1985. Ar wahân i'r addasiadau arferol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mae'r adeilad yn addas a'r holl gyfleusterau arferol yn hwylus i bob dosbarth. Mae'r ddau ddosbarth CA1 [Cyfnod Sylfaen] a'r tri dosbarth CA2 yn rhoi lle i 112 o ddisgyblion sy'n golygu fod tua 26 [23%] o lefydd gweigion.

2.2.2 Daw bron i draean y disgyblion (30%) o'r tu allan i'r dalgylch ac mae 8% yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith.

2.1.3 Ychydig dros un o bob pump (20.9%) o'r disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim.

2.1.4 Dysgir y disgyblion mewn pedwar dosbarth.

### 2.3 Tabl Gwybodaeth Gefndir ar yr Ysgolion

<u>**Tabl 1**</u>

| **Ysgol** | **Llangoed** | **Llanddona** |
|---|---|---|
| **Ystod oed** | 3 – 11 | 3 - 11 |
| **Llefydd yn cynnwys darpariaeth feithrin** | 112 | 56 |
| **Nifer ar y gofrestr – Medi 2012** | 86 | 16 |
| **Llefydd gweigion** | 26 (23%) | 40 (71%) |
| **Cost y pen** | £4,643 | £10,343 |
| **Disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch** | 30% | 0% |

## 3. NIFEROEDD DISGYBLION

3.1 Dengys Tabl 2 fod gan Ysgol Llanddona 40 o lefydd gweigion (71%) a bod 26 o lefydd gweigion yn Ysgol Llangoed (23%). Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd y llefydd gweigion yn Ysgol Llanddona yn aros yn uchel ar dros 60%. Rhagwelir hefyd y bydd nifer y llefydd gweigion yn Ysgol Llangoed yn aros ar oddeutu 25% yn y blynyddoedd nesaf.

**Tabl 2 - Amcanestyniadau niferoedd disgyblion yn Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed**

| | | 2012 | | | 2013 | | | 2014 | | | 2015 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOL | Llefydd | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion |
| Llanddona | 56 | 16 | 40 | 71.4% | 15 | 41 | 73.2% | **18** | 38 | 67.9% | 17 | 39 | 69.6% |
| Llangoed | 112 | 86 | 26 | 23.2% | 82 | 30 | 26.8% | **83** | 29 | 25.9% | 81 | 31 | 27.7% |
| **CYFANSWM** | **168** | **102** | **66** | **39.3%** | **97** | **71** | **42.3%** | **101** | **67** | **39.9%** | **98** | **70** | **41.7%** |

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai niferoedd y disgyblion fel a ganlyn:-

| | | 2012 | | | 2013 | | | 2014 | | | 2015 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOL | Llefydd | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion |
| **Llangoed** | **112** | **102** | **10** | **8.9%** | **97** | **15** | **13.4%** | **101** | **11** | **9.8%** | **98** | **14** | **12.5%** |

3.2 Mae safonau addysgol o'r pwys mwyaf i'r cynnig. Er bod yna ragdybiaeth gyffredinol fod safon yr addysg mewn ysgolion bach yn well nag mewn ysgolion mwy, ni cheir tystiolaeth sy'n sail i'r gred hon. Yn wir, mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru (2006)" yn nodi nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach ac ysgolion mawr, ond *"...gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gydweddu gwaith ag anghenion disgyblion, gan y gall y disgyblion ym mhob dosbarth wahaniaethu'n fawr o ran oed a chyfnodau datblygu. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ysgolion lleiaf (gyda hyd at 30 o ddisgyblion), lle mae 28% o waith anfoddhaol o gymharu ag 8% o waith anfoddhaol mewn ysgolion â dros 210 o ddisgyblion."*

3.3 Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddai gan Ysgol Llangoed tua 100 o ddisgyblion.

## 4. SAFONAU ADDYSG

4.1 Defnyddir dangosyddion diwedd cyfnod i werthuso perfformiad ysgolion. Un dangosydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â safonau addysg yw'r dangosydd perfformiad Diwedd Cyfnod Allweddol. Caiff hwn ei fesur ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (cynt, Cyfnod Allweddol 1, 7 oed) ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) h.y. % y disgyblion yn yr ysgol a gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig neu uwch (Lefel 2+ i CA1 a Lefel 4+ i CA2) yn Gymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd. Gweler Tabl 3 isod sy'n dangos y patrwm dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Canran yn cyrraedd Lefel 2+ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (Cyfnod Sylfaen)**

**Tabl 3**

| | Canlyniadau'r Ysgol | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 50.00 | 66.67 | 75.00 |
| Chwarter* | 4 | 4 | 4 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 84.62 | 57.14 | 90.00 |
| Chwarter | 2 | 4 | 2 |
| Cyfartaledd Ynys Môn | 70.73 | 77.08 | 72.14 |
| Cyfartaledd Cymru Gyfan | 74.60 | 74.55 | 76.05 |

*Gosodir ysgolion mewn teuluoedd yn ôl prydau ysgol am ddim ac yna fe'u gwerthusir yn nhermau perfformiad. Mae'r ysgolion sy'n perfformio orau yn y teulu yn Chwarter 1 a'r rheiny sy'n perfformio gwaethaf yn Chwarter 4.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod angen bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau diwedd blwyddyn gan fod nifer y disgyblion yn aml yn fach a gall natur y garfan ac amgylchiadau disgyblion unigol gael effaith sylweddol. Serch hynny, gellir nodi fod perfformiad Ysgol Llangoed ychydig yn well nag mewn ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae'r patrwm ystadegol i Ysgol Llanddona'n awgrymu fod perfformiad yn is nag mewn ysgolion tebyg.

4.2 Mae Tabl 4 isod yn rhestru nifer y disgyblion a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl, h.y. Lefel 3 neu uwch.

**Tabl 4**

| Ysgol | L3+ Cymraeg Mamiaith | | | L3+ Mathemateg | | | L3+ Gwyddoniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 25.00 | 0.00 | 25.00 | 0.00 | 0.00 | 25.00 |
| Chwarter | 4 | 4 | 4 | 2 | 4 | 2 | 4 | 4 | 3 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 41.67 | 42.86 | 70.00 | 30.77 | 14.29 | 30.00 | 38.46 | 14.29 | 50.00 |
| Chwarter | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Ynys Môn | 25.51 | 27.19 | 25.80 | 18.72 | 19.23 | 19.35 | 16.49 | 16.15 | 22.29 |
| Cymru | 26.55 | 27.41 | 30.84 | 22.12 | 22.15 | 23.67 | 24.55 | 24.57 | 26.99 |

Gwelir fod perfformiad Ysgol Llanddona, drwyddi draw, yn is na pherfformiad ysgolion tebyg tra bod perfformiad Ysgol Llangoed yn gyffredinol yn uwch nag mewn ysgolion tebyg.

4.3 Ar gyfer blwyddyn academaidd 2011/12, newidiwyd y dangosydd i'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen. Dengys Tabl 5 isod y data ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn y Cyfnod Sylfaen:-

**Tabl 5**

| **Teitl** | **Ysgol Llangoed** | **Ynys Môn** | **Cymru** |
|---|---|---|---|
| Dangosydd Cyfnod Sylfaen | 66.67 | 84.07 | 80.47 |
| Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu yn Saesneg | - | 86.90 | 83.44 |
| Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu yn Gymraeg | 66.67 | 84.47 | 85.93 |
| Datblygiad Mathemategol | 88.89 | 89.53 | 86.64 |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | 100.00 | 94.54 | 90.84 |

Yn yr agweddau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, roedd perfformiad Ysgol Llangoed yn cymharu'n ffafriol iawn â'r cyfartaledd yn Ynys Môn tra bo'r Datblygiad Mathemategol ychydig yn is na'r cyfartaledd sirol yn ond yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

**NODER** – Dyma'r set data cyntaf ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Nid oes data ar gael ar gyfer Ysgol Llanddona gan nad oedd disgyblion ym Mlwyddyn 2 i'w hasesu.

4.4 Mae Tabl 6 isod yn dangos y patrwm dros y tair blynedd ddiwethaf yng Nghyfnod Allweddol 2 i ysgolion yn y dalgylch ynghyd â'r ffigyrau i Ynys Môn a Chymru.

## Canran yn cyrraedd Lefel 4+ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2

**Tabl 6**

| | Canlyniadau'r Ysgol | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
| | | | |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 33.33 | 71.43 | 33.33 |
| Chwarter | 4 | 4 | 4 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 100.00 | 64.29 | 90.91 |
| Chwarter | 1 | 4 | 1 |
| Cyfartaledd Ynys Môn | 79.89 | 78.60 | 84.67 |
| Cyfartaledd Cymru Gyfan | 78.16 | 80.00 | 82.58 |

Y lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth wedi'u cyfuno

Roedd Ysgol Llangoed yn y chwarter uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol. Mae'r patrwm yn Llanddona'n awgrymu perfformiad is nag mewn ysgolion tebyg yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

4.5 Mae Tabl 7 isod yn rhestru nifer y disgyblion a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl h.y. Lefel 5 neu uwch.

**Tabl 7**

| Ysgol | L5+ Saesneg | | | L5+ Cymraeg Mamiaith | | | L5+ Mathemateg | | | L5+ Gwyddoniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2010 | 2011 | 2012 | 2010 | 2011 | 2012 | 2010 | 2011 | 2012 |
| Llanddona | 0.00 | 57.1 | 33.3 | 0.00 | 28.6 | 0.00 | 33.3 | 57.1 | 33.3 | 33.3 | 57.1 | 0.0 |
| Chwarter | 4 | 1 | 3 | 4 | 2 | 4 | 2 | 1 | 3 | 2 | 1 | 4 |
| Llangoed | 22.2 | 28.6 | 45.5 | 0.00 | 28.6 | 27.3 | 22.2 | 35.7 | 36.4 | 33.3 | 42.9 | 36.4 |
| Chwarter | 3 | 2 | 1 | 4 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Ynys Môn | 26.9 | 31.3 | 34.3 | 15.6 | 20.9 | 23.2 | 26.2 | 29.3 | 35.7 | 25.2 | 27.9 | 33.4 |
| Cymru | 29.0 | 30.5 | 32.9 | 24.5 | 25.9 | 26.6 | 29.2 | 31.1 | 32.9 | 30.2 | 30.9 | 33.1 |

Roedd Ysgol Llangoed yn y ddau chwarter uchaf ddwywaith yn y pynciau i gyd yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r patrwm yn Llanddona'n awgrymu perfformiad is nag ysgolion tebyg yn y tair blynedd ddiwethaf.

4.6 Mae'r corff arolygu ysgolion, Estyn, hefyd yn asesu perfformiad ysgolion ac yn ymweld ag ysgolion i gynnal arolygon cyn cynhyrchu adroddiad ar ddiwedd pob arolwg. Newidiwyd y dull o arolygu yn 2009/10 ond cyn hynny gofynnwyd 7 cwestiwn allweddol, sef:-

1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?
3. Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?
5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?
6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
7. Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Mae Tabl 8 yn rhestru'r graddau a roddwyd gan Estyn:-

**Tabl 8**

| **Ysgol gynradd** | **Dyddiad** | CA1 | CA2 | CA3 | CA4 | CA5 | CA6 | CA7 | 'Cyfartaledd' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanddona | 24 -1-2006 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2.00 |
| Llangoed | 19-1-2009 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2.14 |

Allwedd
Graddau Estyn –
Gradd 1 = da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 = nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 = nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4 = rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5= llawer o ddiffygion pwysig

4.7 Wedi 2009/10, lleihawyd nifer y cwestiynau i 3 ond gydag isadrannau. Dyma'r tri Chwestiwn Allweddol:-

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Arolygwyd Ysgol Llanddona o dan y fframwaith hwn ym mis Ionawr 2012 a dangosir y canlyniadau yn Nhabl 9:-

**Tabl 9**

| **Ysgol** | **Llanddona** |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Ionawr 2012** |
| Cwestiwn Allweddol 1 | Da |
| Safonau | Da |
| Lles | Da |
| Cwestiwn Allweddol 2 | Da |
| Profiadau dysgu | Digonol |
| Addysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweinyddiaeth | Da |
| Yr amgylchedd dysgu | Da |
| Cwestiwn Allweddol 3 | Da |
| Arweinyddiaeth | Digonol |
| Gwella ansawdd | Da |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da |
| Rheoli adnoddau | Da |
| Perfformiad Presennol | Da |
| Rhagolygon Gwella | Da |

Graddau Estyn –

| | |
|---|---|
| Rhagorol | - Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | - Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | - Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | - Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

## 5. CYFLWR YR ADEILADAU

5.1 Arolygwyd cyflwr yr adeiladau gan syrfewyr y Cyngor rhwng diwedd 2011 a dechrau 2012. Gweler y canlyniadau i Ysgol Llangoed ac Ysgol Llanddona yn Nhabl 10.

5.2 Rhoddwyd y ddwy ysgol yng Nghategori B. Dyma ystyr y graddau:-

Categori A – Da
Categori B – Boddhaol
Categori C - Gwael

Os edrychwn ar Dabl 10, sylwn fod Ysgol Llanddona wedi cael sgôr o 32 ac Ysgol Llangoed, 21 (po isaf y sgôr, gorau oll).

**Tabl 10**

| Ysgol | Cyfanswm | Sgôr | Gradd |
|---|---|---|---|
| Llanddona | £51,000 | 32 | B |
| Llangoed | £55,000 | 21 | B |
| **Cyfartaledd dalgylch** | **£167,584** | **16** | - |
| **Cyfartaledd y sir** | **£156,472** | **18** | - |
| Cyfanswm | £1,675,835 | - | - |

5.3 Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei wireddu, byddai disgyblion Ysgol Llanddona yn symud i Ysgol Llangoed i adeilad sy'n sgorio'n well.

## 6. FFACTORAU DAEARYDDOL

6.1 Y nod yw cyfyngu ar deithio ble bynnag y bo modd. Mae'r cynnig a gyflwynir yn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru yng *Nghylchlythyr 021/2009*, sef na ddylai cynigion olygu fod disgyblion oed cynradd yn teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r cynnig yn bodloni'r angen hwn yn llawn.

## 7. AGWEDDAU ARIANNOL

7.1 Pe bai'r disgyblion yn Ysgol Llanddona yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Llangoed, byddai'r goblygiadau ariannol fel a ganlyn:-

**Tabl 11**

| Ysgol | Niferoedd yn seiliedig ar Fformiwla 2012/2013 | Dyraniad 2012/2013 | Dyraniad y pen 2012/2013 | Dyraniad Athrawon |
|---|---|---|---|---|
| Llanddona | 15.8 | £163,423 | £10,343 | 1.5 |
| Llangoed | 77.0 | £357,529 | £4,643 | 3.27 |
| | **92.8** | **£520,952** | | **4.77** |

| **Cyfuno yn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llangoed | 92.8 | £394,716 | £4,253 | 3.89 |

Pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai cost Ysgol Llangoed y pen yn gostwng o £4,643 i £4,253 ac felly'n cynhyrchu arbediad blynyddol o £520,952 - £394,716 = £126,236.

Ar sail y lefel cyllido ar gyfer 2012/13, y dyraniad i Ysgol Llangoed pe bai disgyblion Ysgol Llanddona yn symud yno byddai arbediad o £121,236 ond byddai cludiant o Landdona i Langoed yn costio tua £25,000, felly'n lleihau'r arbediad i £101,236. Byddai gwasanaeth hebrwng yn ychwanegu oddeutu £4,000 at y costau cludiant.

## 8. Y BROSES YMGYNGHORI

8.1 Bydd y Cyngor yn ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol sy'n rhan o'r cynnig hwn a hefyd â'r cymunedau lleol, cynghorwyr lleol, yr Aelod Cynulliad lleol, yr Aelod Seneddol lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Bydd y cyfnod ymgynghori yn mynd o 5 Chwefror 2013 tan 5 Mawrth 2013.

Mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda rhanddeiliaid yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn.

8.2 Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau i ni a byddem yn croesawu'ch barn ar y cynnig naill ai drwy lythyr, e-bost neu drwy lenwi'r ffurflen ymateb sydd ynghlwm. Dylech anfon eich sylwadau at:

Y Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion)
Gwasanaeth Addysg,
Parc Mount,
Ffordd Glanhwfa,
Llangefni,
Ynys Môn
LL77 7EY.

Y cyfeiriad e-bost yw:
ysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Dylech sicrhau fod eich ymateb yn cyrraedd Cyngor Sir Ynys Môn ddim hwyrach na 5 Mawrth 2013.

Mae'ch cyfraniadau chi i'r broses fel aelodau o'r gymuned yn hynod o bwysig.

## 9. Y CAMAU NESAF

Hwn yw'r ymgynghoriad **statudol** (ffurfiol). Ar ddiwedd y cam hwn yn y broses ymgynghori, bydd y swyddogion yn casglu'r holl ymatebion a'r wybodaeth at ei gilydd cyn paratoi adroddiad a gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y Pwyllgor hwn wedyn yn ystyried yr adroddiad ymgynghori hwn ynghyd ag unrhyw argymhellion gan swyddogion y Cyngor. Yna bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu p'un ai i roi rhybudd statudol i gau Ysgol Llanddona ai peidio, ac os felly, bydd cyfnod o un mis i wrthwynebu'r cynnig.

# PWYLLGOR GWAITH

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2013**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Bryan Owen (Arweinydd)(Cadair)<br>Y Cynghorydd K.P.Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton, T.Lloyd Hughes, O.Glyn Jones, G.O.Parry, MBE, R.G.Parry,OBE. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) (ar gyfer eitem 5 & 6 yn unig)<br>Prif Swyddog Cynllunio (EGJ)(Eitemau 5 a 6 yn unig)<br>Rheolydd Cynllunio (Polisi) (NHD)(Eitem 6 yn unig)<br>Arweinydd Tim (Tai a Chymunedau)(BT)(Eitem 5 yn unig)<br>Rheolydd Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion) (EB) (Eitem 9 yn unig)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Selwyn Williams. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R. Ll. Hughes |

---

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd Bryan Owen ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 6 ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni. Aeth y Dirprwy Arweinydd i'r Gadair.

## 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w datgan.

## 3 COFNODION

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2012 fel rhai cywir.**

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn gofyn am gael cymeradwyo'r rhaglen waith ddiweddaredig am y cyfnod Chwefror i Mehefin 2013.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhaglen waith ddiweddaredig am y cyfnod Chwefror i Orffennaf 2013.**

## 5. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – YNNI GWYNT AR Y TIR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo anfon ymlaen y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tyrbinau gwynt ar y tir i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ar 24 Ionawr 2013 ar gyfer eu mabwysiadu. Awgrymwyd gwneud hynny er mwyn hwyluso trafodaeth lawn ar y materion a godwyd gan bartïon sydd â diddordeb fel y caiff y rheiny eu crynhoi yn Atodiad 1 yr adroddiad. Byddai methiant i fabwysiadu'r ddogfen yn tanseilio pwysigrwydd ystyriaeth o bwys a chanllawiau ar gyfer datblygiadau yn y broses gynllunio.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater am benderfyniad i'r cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ar 24 Ionawr 2013.**

## 6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - DOGFEN STRATEGAETH A FFEFRIR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo anfon ymlaen y ddogfen ar y Strategaeth a Ffefrir i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 24 Ionawr 2013. Wedi i Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd gymeradwyo'r ddogfen, bydd yn cael ei rhyddhau ar gyfer cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos. Bydd unrhyw sylwadau a fynegir o gymorth i roi siâp ar gynllun mwy manwl a elwir yn Gynllun Adneuol ac a fydd yn cael ei ystyried gan y ddau Gyngor yn ddiweddarach yn 2013.

**PENDERFYNWYD argymell i'r cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 24 Ionawr 2013, ei fod yn cymeradwyo'r fersiwn ddrafft o'r Strategaeth a Ffefrir i bwrpas ymgynghori cyhoeddus.**

*(Gwnaeth yr Arweinydd ddatganiad o ddiddordeb yn y mater ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arno). (Aeth y Dirprwy Arweinydd i'r Gadair).*

## 7. CYNLLUN TRAWSNEWID

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yn ffurfiol y Cynllun Trawsnewid, sef dogfen sy'n aminellu bwriadau'r Cyngor hwn i barhau i wella a moderneiddio'r Cyngor mewn modd cynaliadwy hyd at 2016.

**PENDERFYNWYD derbyn bod y Cynllun Trawsnewid yn gosod y rhaglen ar gyfer gweddill oes y Cyngor hwn hyd fis Mai 2013 ac yna am y cyfnod o dair blynedd wedi hynny hyd at 2016.**

## 8. MABWYSIADU CYNLLUN CYMORTH TUAG AT Y DRETH GYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn dweud y bydd Budd-dal y Dreth Gyngor yn cael ei ddisodli yn Ebrill 2013 gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac y bydd cyllid y Llywodraeth yn gostwng oddeutu 10%. Rhaid i'r Cyngor hwn fabwysiadu'r cynllun erbyn 31 Ionawr 2013 ac roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhelliad gan y Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor Sir ar 24 Ionawr 2013 fel y gellir cwrdd â'r amserlen honno.

**PENDERFYNWYD argymell i'r cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 24 Ionawr 2013:-**

- **Ei fod yn nodi gwneud Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cymru ar 19 Rhagfyr 2012;**
- **Ei fod yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori gan y Cyngor ynghylch cyflwyno Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;**
- **Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun fel y nodir ef yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 9. MODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD YNYS MÔN – LLANDDONA, BIWMARES A LLANGOED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes ar yr opsiynau a gynigiwyd yn dilyn proses ymgynghori anffurfiol a gynhaliwyd mewn tair ysgol yn Ne-ddwyrain Ynys Môn mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal honno. Roedd sylwadau Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2012 hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ar adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn, yn amodol ar yr isod:-**
    - **Bod materion cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u bod yn cael eu datrys yn foddhaol, a**
    - **Ailymweld â'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Môn gyda hyn yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.**
- **Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r broses ymgynghori anffurfiol gan ysgolion cynradd Llanddona, Llangoed a Biwmares.**

## 10. GOSTWNG OED MYNEDIAD I YSGOL – DWYRAN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes ar gais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Dwyran i'r Awdurdod ystyried gostwng oed mynediad er mwyn caniatáu mynediad i ddisgyblion ar sail rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Gofynnwyd am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i gychwyn y broses ymgynghori ffurfiol gyda phartïon sydd â diddordeb.

**PENDERFYNWYD rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes ymgynghori ar y bwriad i ostwng yr oed mynediad i Ysgol Dwyran er mwyn caniatáu mynediad i ddisgyblion ar sail rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.**

## 11. GWAHANU SWYDDOGAETHAU STATUDOL AC ANSTATUDOL (DATBLYGIADAU MAWR ERAILL)

Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy – Bod swyddogion yn dymuno cynnal trafodaethau gyda datblygwyr sy'n cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio/datblygu yn yr ardal hon neu rai a fydd yn cael effaith arni, mewn perthynas â Chyfraniadau Budd Cymunedol (sydd y tu allan i'r broses gynllunio). Er mwyn gwneud hyn, roedd angen strwythur mewnol i sicrhau fod trafodaethau ynghylch CBC yn cael eu cadw ar wahân i unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau a oedd yn rhan o'r broses gynllunio statudol. Heb y gwahaniad hwn, roedd perygl y gallai trafodaethau neu benderfyniadau o'r fath gael dylanwad ar y broses gynllunio statudol neu wneud drwg iddi.

PENDERFYNWYD

- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, ar ran Pwyllgor Gwaith y Cyngor, fynd i drafodaethau gyda datblygwyr sy'n cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio o fewn ei ardal neu sy'n cael effaith arni, ac, yn amodol ar gymeradwyaeth terfynol y Pwyllgor Gwaith, cytuno gyda'r datblygwyr arfaethedig hynny, fanylion am gynllun CBC/CBC lle mae hynny'n briodol mewn cysylltiad gyda datblygiad o'r fath.**

- **Nodi y bydd y Pennaeth Datblygu Economaidd yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd fel y bydd angen mewn perthynas â'r trafodaethau ynghylch CBC.**

- **Nodi y bydd swyddogaethau cynllunio'r Cyngor dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy ac y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.**

- **Nodi na fydd unrhyw Aelod neu Swyddog sy'n rhan o drafodaethau mewn perthynas â'r cynllun CBC yn cael cymryd rhan yn y broses gynllunio sy'n ymwneud â'r datblygiad y cafwyd trafodaethau yn ei gylch.**

- **Nodi na fydd unrhyw Aelod neu Swyddog sy'n cymryd rhan yn y broses gynllunio statudol yn cael cymryd rhan yn y trafodaethau mewn perthynas â chynllun CBC mewn perthynas â'r datblygiad y mae prosesau cynllunio statudol yn ymwneud ag ef.**

- **Nodi y bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud i sicrhau bod cyngor, trafodaethau a llinellau cyfathrebu yn adlewyrchu'r trefniadau uchod mewn perthynas â CBC a materion cynllunio gwlad a thref.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 13. RHESYMOLI PARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ar y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Uned Cefnogi Partneriaethau ynghyd â sylwadau/pryderon y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2012.

Bwriad y cytundeb hwn ar gyfer gwasanaethau a rennir gyda Chyngor Gwynedd am gyfnod o dair blynedd, oedd mireinio'r trefniadau partneriaeth cyfredol ar draws y ddwy sir a gwneud arbedion o ran staffio.

PENDERFYNWYD

- **Nodi sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Atodiad 2 i'r adroddiad.**
- **Cadarnhau'r manylion fel yr amlinellir nhw yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a bod y Cyngor yn mynd i Gytundeb Rhannu Gwasanaethau am dair blynedd gyda Chyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer yr Uned newydd.**
- **Bod swyddogion yn cwblhau'r trafodaethau angenrheidiol gyda Chyngor Gwynedd gan gynnwys sefydlu Canolfannau Partneriaeth yn y ddwy Sir.**
- **Bod yr Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cyd-Grwp Llywio gyda Gwynedd i oruchwylio'r gwaith yr Uned Bartneriaeth.**

## 14. CYMUNEDAU'N GYNTAF YM MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor i sefydlu'r cytundeb cyfreithiol arfaethedig rhwng y Cyngor a Chymunedau'n Gyntaf ym Môn cyn i unrhyw gyllid gael ei drosglwyddo i'r sefydliad newydd a chytuno ar y pwyntiau a fydd yn cael eu cynnwys yn y cytundeb newydd. Roedd angen cwblhau'r cytundeb erbyn diwedd y mis hwn.

PENDERFYNWYD

- **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth(Tai) fynd i gytundeb cyfreithiol gyda Cymunedau'n Gyntaf Môn/Communities First yn seiliedig ar y gofynion a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad, a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion llywodraethu a chyllido Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn hyderus fod trefniadau llywodraethu cadarn wedi eu sefydlu o fewn y Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf a bod materion wedi eu setlo, cyn y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ryddhau.**

- **Ystyried rhyddhau rhywfaint o'r cyllid yn y lle cyntaf, a monitro i sicrhau bod y gofynion a'r trefniadau llywodraethu yn y cytundeb rhwng y Cyngor, fel y prif gorff cyflawni a Cymunedau'n Gyntaf ym Môn yn cael eu cyflawni.**

- **Cytuno bod yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai yn cael ei gyfethol fel Sylwedydd mewn perthynas â Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf Môn.**

- **Cytuno hefyd i gyfethol cynrychiolaeth o blith swyddogion fel Sylwedyddion mewn perthynas â Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf Môn.**

- **Bod y Pennaeth Gwasanaeth(Tai) yn rhoi cyfarwyddyd i Wasanaethau Cyfreithiol y Cyngor ddrafftio'r cytundeb yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad hwn a phrysuro i'w gwblhau erbyn diwedd y mis.**

## 15. CYTUNDEB GWASANAETH RHANBARTHOL CAPITA SIMS

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn gofyn am ganiatâd ac awdurdod i gefnogi pwrcasu trwyddedau Capita Sims trwy gonsortiwm er mwyn symud ymlaen gyda'r datblgyiadau o ran cydweithio rhanbarthol yn y Gwasanaethau Addysg.

Ar hyn o bryd, roedd y 6 awdurdod yn prynu set graidd o gynhyrchion Capita i gefnogi strwythur data-bas cyffredin a oedd yn hanfodol ar gyfer darpariaeth hyfyw ar gyfer rhannu gwasanaethau. Daw'r contractau cyfredol ar gyfer y trwyddedau i ben ar 31 Mawrth 2013 i'r 6 awdurdod.

Roedd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn dymuno nodi bod risgiau'n gysylltiedig gyda'r cynnig ond bod y risg o beidio symud ymlaen i brynu'r trwyddedau yn fwy.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r opsiwn pwrcasu a nodir yn yr adroddiad a bod y Cyngor hwn yn cymryd rhan mewn consortiwm fel yr argymhellir gan Brif Swyddogion Addysg Gogledd Cymru yn unol â RhGC 4.9.2.4.1 a chontractio'n unigol gyda CAPITA ynghyd â'r 5 aelod arall o'r Consortiwm ar gyfer trwydded 3 blynedd i fwrw ymlaen gyda datblygiadau cydweithredol rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Addysg.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am**

**Y CYNGHORYDD BRYAN OWEN**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI ADDYSG A HAMDDEN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Jim Evans (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Mrs Fflur Hughes, G. O. Jones, R. Dylan Jones, R. Llewelyn Jones, Clive McGregor, Eric Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Gwasanaeth (Addysg)<br>Rheolwr Rhesymoli a Moderneiddio Ysgolion (Mr Emrys Bebb)<br>Prif Swyddog Gwasanaeth Ieuenctid (Enid Williams) (ar gyfer eitem 11)<br>Swyddog Addysg Gynradd (Mr Gary Jones) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini (Mr Gareth Bayley Hughes)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Parch. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd G. O. Parry, MBE (Aelod Portffolio Addysg); Ms Tanis Cunnick (Llywodraeth Cymru); Mr Trebor Roberts (Prif Weithredwr Dros Dro Cynnal) Mr Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol (ar gyfer eitem 4), Cynghorydd E. G. Davies (yn arsylwi ar gyfer eitem 4) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden i'r holl Aelodau a Swyddogion oedd yn bresennol.

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Lewis Davies diddordeb mewn eitem 4 ar y rhaglen o ran adroddiad yn ymwneud gyda'r ymgynghori anffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn Ne-ddwyrain Môn, oherwydd ei sefyllfa fel Cadeirydd ac aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Llangoed. Cymerodd Cynghorydd Davies ran yn y drafodaeth ar yr eitem hon, ond ni wnaeth bleidleisio arni.

Datganodd Cynghorydd Gwilym O. Jones ddiddordeb mewn eitem 4 ar y rhaglen, o ran adroddiad mewn perthynas â'r ymgynghori anffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn Ne-ddwyrain Môn, oherwydd ei fod yn perthyn i Bennaeth Ysgol Biwmares.

### 2 COFNODION

Cyflwynwyd, a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2012.

Dywedodd y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini wrth yr Aelodau fod y seminar ar gyfer y Panel Adolygiad Sgriwtini Gwasanaeth Llyfrgell gyda CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru) wedi cael ei drefnu ar gyfer bore 7 Rhagfyr 2012 yn Oriel Ynys Môn. Roedd gwahoddiad i ddod i'r seminar hefyd yn cael ei estyn i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini hwn.

## 3 EFFEITHIOLRWYDD SGRIWTINI ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad interim y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg, i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yn cynnig modd i Aelodau'r Pwyllgor arfarnu pa mor effeithiol oeddent fel fforwm o ran herio perfformiad yr Adran Dysgu Gydol Oes.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod yr adroddiad yn ymdrech i ddarparu ffon fesur ar gyfer asesu pa mor effeithiol oedd y Pwyllgor Sgriwtini o ran yr argymhelliad oddi wrth Estyn yn ei adroddiad archwilio ar ansawdd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym Môn. Roedd angen ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad yr Awdurdod a herio perfformiad ysgolion a swyddogion. Tynnodd sylw Aelodau'n benodol at ran 3.4 o'r adroddiad, oedd yn dangos y pedair rôl oedd wedi cael eu diffinio ar gyfer sgriwtini mewn llywodraeth leol. Dywedodd mai'r amcan oedd bod yr Aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd iddynt yn y Pwyllgor hwn yng ngoleuni'r pedwar egwyddor craidd sgriwtini hynny. I'r perwyl hwnnw, roedd ffurflen arfarnu wedi cael ei pharatoi, a gofynnwyd i'r Aelodau ei chwblhau ar ddiwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo i ganfod a oedd y Pwyllgor wedi cyflawni'r rôl a ddiffiniwyd iddo ar gyfer pob eitem a gyflwynwyd, trwy wneud yr hunan arfarniad.

Rhoddodd y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini drosolwg cryno i'r aelodau o'r ffurflen hunan arfarnu a beth oedd y ffurflen yn ceisio'i gyflawni.

**Penderfynwyd gwneud yr hunan arfarniad ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Pwyllgor hwn er mwyn sefydlu a oedd y Pwyllgor wedi cyflawni'r rôl a ddiffiniwyd iddo ar gyfer pob eitem a ystyriwyd, trwy gwblhau'r ffurflen arfarnu oedd wedi cael ei pharatoi.**

**GWEITHREDU: Y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini i weithredu ac i oruchwylio'r hunan arfarnu gan y Pwyllgor ar ddiwedd pob cyfarfod.**

## 4 MODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD YNYS MÔN - DE-DDWYRAIN MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Rhesymoli a Moderneiddio Ysgolion ar beth oedd yn deillio o'r broses ymgynghori anffurfiol a ddigwyddodd ym misoedd Medi a Hydref 2012, o ran yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Môn, i'r Pwyllgor gael ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn dangos ar bapur yr ymatebion a gafwyd yn ystod y broses, oddi wrth randdeiliaid Ysgol Llanddona, Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares, ynghyd â'r dewisiadau ar gyfer ail gyflunio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal honno.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) grynodeb o sylwedd yr ymatebion a gyflwynwyd yn ystod y broses ymgynghori anffurfiol a'r prif themâu oedd yn deillio ohonynt. Roedd y rheiny'n cynnwys y gost fesul disgybl; cludiant a llwybrau diogel i'r ysgol; cyflwr a chostau cynnal yr adeiladau ysgol; llefydd gweigion; safonau addysgol a dwyieithrwydd. Cyfeiriodd yn gryno at y pum dewis posibl oedd yn yr adroddiad.

Bu'r Aelodau'n ystyried yn ofalus yr wybodaeth a gyflwynwyd. Gofynnwyd ganddynt am eglurhad o'r sefyllfa o ran cyfanswm nifer y disgyblion ym mhob un o'r tair ysgol ar yr adeg honno; y ganran o lefydd gweigion yn yr ysgolion ynghyd â chyflwr ffisegol ac oed yr adeiladau ysgol. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) wybodaeth i'r Pwyllgor am nifer y disgyblion a'r ganran o lefydd gweigion ym mhob un o'r tair ysgol. Cytunwyd wedyn y byddai'r ddogfen ymgynghori ei hunan hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor pan fyddai'n cael gwybodaeth am yr adborth oddi wrth ymgynghori anffurfiol ar adolygiadau o'r ddarpariaeth addysg.

Yn y drafodaeth yn dilyn hynny, codwyd ac ystyriwyd y materion a ganlyn –

- Niferoedd disgyblion ar yr adeg honno a'r niferoedd posibl yn y dyfodol yn y tair ysgol, gan gymryd i ystyriaeth effaith bosibl unrhyw ddatblygiad oedd yn hysbys neu wedi'i fwriadu yn agos at yr ysgolion
- Llefydd gweigion, cost fesul disgybl a'r potensial o gael arbedion
- Cyflwr ac oed ysgolion a'r costau cynnal a/neu gwella posibl ar eu cyfer
- Capasiti ysgolion o ran bod yn gallu cymryd disgyblion ychwanegol
- Cludiant a llwybrau diogel i'r ysgol
- Dwyieithrwydd ac ethos ysgolion

- Darpariaeth addysg yng nghyswllt y trefniadau presennol yn yr ardal a'r potensial ar gyfer gwella ac ail gyflunio'r ddarpariaeth
- Y posibilrwydd/ymarferoldeb ysgol ardal newydd. Ar yr adeg hon cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) at strategaeth tymor hir yr Awdurdod ar gyfer Môn a pha mor ddymunol fyddai ailymweld ag ardal Dde-ddwyrain Môn ar adeg ailystyried y strategaeth.

Ystyriodd yr Aelodau'r dewisiadau, gan drafod yn enwedig gryfderau a gwendidau Opsiynau 2, 3 a 4.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd –**

**Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) i'r Pwyllgor Gwaith fel hoff ddewis y Pwyllgor ar gyfer ymgynghori ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Môn, gyda'r amodau a ganlyn -**

- **Bod materion cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u hateb yn foddhaol, a hefyd**
- **Ymweld eto â'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Môn maes o law, yn y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion, gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.**

GWEITHREDU:

- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) i ymgorffori argymhellion y Pwyllgor o ran yr adolygiad o ysgolion cynradd De-ddwyrain Môn mewn adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Y Rheolwr Rhesymoli a Moderneiddio Ysgolion i ddarparu copi o'r ddogfen Ymgynghori ei hunan hefyd i'r Pwyllgor yn ogystal ag adborth o'r broses ymgynghori anffurfiol o ran adolygu ysgolion.**

## 5 EGWYDDORION MODERNEIDDIO YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Rhesymoli a Moderneiddio Ysgolion i'w ystyried gan y Pwyllgor, yn rhoi'r egwyddorion fyddai'n sylfaen i Raglen Foderneiddio Ysgolion Môn. Roedd rhestr o'r egwyddorion ynghlwm wrth yr adroddiad.

Ehangodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) ar bob un o'r egwyddorion allweddol ar y rhestr, o ran beth oedd eu hystyr a beth roeddent yn ei gynnwys.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad, a dywedwyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael sylwadau cryno i egluro gyda phob egwyddor. Awgrymwyd y rhai a ganlyn fel ychwanegiadau at y rhestr –

- Defnyddio gymaint ag y bo modd ar gyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- Cludiant, yn cynnwys cludiant cyhoeddus
- Cydleoli er mwyn cynnwys partneriaid eraill e.e. y sector iechyd
- Cysylltiadau gyda busnesau allanol a gwneud y defnydd mwyaf o gyfleoedd yn deillio o hynny.

**Penderfynwyd derbyn yr egwyddorion fel y cyflwynwyd hwy, ac ychwanegu'r egwyddorion roedd y Pwyllgor wedi'u hawgrymu, uchod.**

GWEITHREDU:

**Y Rheolwr Rhesymoli a Moderneiddio Ysgolion i -**

- **Ymgorffori'r egwyddorion ychwanegol a awgrymwyd gan y Pwyllgor yn y rhestr o egwyddorion moderneiddio allweddol.**
- **Darparu gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor maes o law am yr egwyddorion a gytunwyd.**

## 6 RÔL Y PWYLLGOR YN Y BROSES O DDAL YSGOLION A PHENAETHIAID I GYFRIF

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i'r Pwyllgor ei ystyried, yn rhoi amlinelliad o drefn lle gallai'r Pwyllgor Sgriwtini ddal ysgolion i gyfrif.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes at Adroddiad Archwilio Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym Môn a'r angen a welwyd gan yr arolygwyr i aelodau etholedig gymryd rhan fwy gweithredol yn y broses o fonitro ysgolion unigol. Roedd y Cynllun Ôl-Arolygiad yn rhoi manylion o beth roedd angen ei wneud i ateb y mater, yn cynnwys datblygu swyddogaeth y Pwyllgor Sgriwtini hwn mewn perthynas ag ysgolion oedd yn achosi pryder, a sefydlu trefniadau effeithiol i gynnwys y Pwyllgor mewn adolygu sut roedd ysgolion yn dod ymlaen. Roedd hynny os oeddent angen cefnogaeth a monitro wedi'u ffocysu (y rhai yn y categori ambr), ac ysgolion oedd angen cefnogaeth sylweddol (yn y categori coch), ac wrth benderfynu ar y lefelau gweithgaredd yn dilyn hynny, yn cynnwys defnyddio gweithdrefnau ymyrryd ffurfiol. Wrth sefydlu'r fath drefniant, y nod oedd cyflawni'r deilliannau roedd disgwyl amdanynt yn ôl rhan 3.2.2. o'r adroddiad. Yng ngoleuni sylwadau Estyn ac ar ôl i'r Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini edrych beth oedd yr arfer mewn awdurdodau eraill, roedd bwriad i sefydlu Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion Unigol gyda'r aelodaeth, swyddogaethau a threfniadau adrodd oedd wedi'i disgrifio yn rhan 4.2 o'r adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Sefydlu Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion Unigol o'r Pwyllgor hwn ar y llinellau oedd yn cael eu cynnig yn yr adroddiad.**
- **Penodi'r Cynghorwyr Lewis Davies, Gwilym O Jones ac Eric Roberts i'r grŵp/rota o dri aelod gydag un aelod yn gwasanaethu ar unrhyw adeg benodol ar y Grŵp Adolygu Cynnydd.**
- **Os na allai Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu fynd i gyfarfod o'r Grŵp Adolygu Cynnydd, gofyn i ail aelod o'r grŵp o dri a ddynodwyd uchod fynd yno yn hytrach.**

**GWEITHREDU: Y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini i gymryd camau i gynnull cyfarfod (cyfarfodydd) o'r Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion Unigol fel sy'n briodol, mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion/aelodau perthnasol.**

## 7 MATERION ARIANNOL

7.1 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) i'r Pwyllgor ei ystyried, ar sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Addysg (cyllideb ganolog) ar ddiwedd Chwarter 2 o gyfnod adrodd 2012/13.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) wrth yr Aelodau bod y Gwasanaeth Addysg, ar ddiwedd Chwarter 2, wedi gorwario £494k. Y prif linellau yn y gyllideb gyda gorwariant oedd Integreiddio Uwchradd (£320K); Integreiddio Cynradd (£79K) a'r Gwasanaeth Lles Addysg (£44k – blwyddyn gyfan). Cadarnhaodd y Swyddog y cymerwyd camau i adfer y sefyllfa o ran y gorwariant ar y gyllideb Integreiddio yn y sector uwchradd ac y byddai'r Gwasanaeth yn cymryd camau adfer o ran cyllideb integreiddio'r sector cynradd ar 19 Tachwedd 2012. Eglurodd ymhellach am sefyllfa'r Gwasanaeth Lles Addysg a'r faith fod gorwariant wedi digwydd yn y maes gwasanaeth hwn am nad oedd cyllideb ar gyfer un swydd. Roedd cais am gyllid twf wedi cael ei baratoi, er mwyn i'r Gwasanaeth allu ariannu'r swydd hon.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd –**

- **Sefydlu Panel Deilliant Sgriwtini o'r Pwyllgor hwn i edrych yn ddyfnach ar y Gyllideb Integreiddio (sectorau cynradd ac uwchradd) ac ymchwilio i'r rhesymau am y gorwariant ar y penawdau hyn o'r gyllideb.**
- **Penodi Cynghorwyr Mrs Fflur Hughes, R. Dylan Jones, Clive McGregor ac Ieuan Williams i wasanaethu ar y Panel Deilliant Sgriwtini uchod.**

**GWEITHREDU: Y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini i gymryd camau i gynnull cyfarfod (cyfarfodydd) o'r Panel Deilliant Sgriwtini Cyllideb Integreiddio fel sy'n briodol, mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion/aelodau perthnasol.**

7.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) i'r Pwyllgor ei ystyried, ar sefyllfa ariannol ysgolion unigol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg), bod gostyngiad sylweddol wedi digwydd ym malansau ysgolion Môn, fel roedd adroddiad Estyn ym Mai 2012 yn cydnabod, a bod yr

Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Estyn yn 2009. Er hynny, roedd yr arolygwyr wedi tynnu sylw at y ffaith fod nifer cynyddol o ysgolion mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol, ac nad oedd yr Awdurdod wedi ymyrryd ddigon yn y mater hwn. Cyfeiriodd y Swyddog at y nifer o ysgolion yn y sectorau cynradd ac uwchradd oedd mewn sefyllfa o ddiffyg ar yr adeg honno a beth oedd yr ysgolion wedi'i wneud i ymateb i'r sefyllfa. Ymhellach, y flwyddyn honno roedd ffurflen wedi dod ar gael i fonitro diffyg ariannol mewn ysgolion (copi ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad). Roedd disgwyl i ysgolion gwblhau'r ffurflen, wedyn cael llofnod y Prifathro a Chadeirydd y Llywodraethwyr arni a chadarnhad y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) a Swyddogion Cyllid. Hefyd cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) at yr ysgolion hynny yn y ddau sector roedd ganddynt arian dros ben (gwarged) (36 cynradd a 3 uwchradd) yn cynnwys 23 cynradd a 2 uwchradd gyda gwargedau o 5% neu fwy o ddyraniad ariannol yr ysgol. Roedd pob un o'r 25 ysgol oedd gyda gwarged o 5% yn fwy na dyraniad ariannol yr ysgol wedi darparu datganiad i'r Awdurdod o sut roeddent yn bwriadu lleihau eu balansau.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad, ac roedd consensws cyffredinol y byddai'n fuddiol iddynt gael gwybod pam fod rhai ysgolion mewn diffyg ariannol tra bod gan rai eraill warged, ac a oedd hynny oherwydd gwariant ar staff neu waith cynnal neu resymau eraill. Roeddent o'r farn y gellid dysgu gwersi trwy ddeall y rhesymau pam fod diffyg neu warged wedi digwydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes fod angen i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod gan y Gwasanaeth Addysg drefn yn ei lle i roi sylw i fater fod ysgolion mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU : Y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor, yn enwi'r ysgolion mewn diffyg ariannol; yr amserlen ar gyfer gweithredu i adfer y sefyllfa ac enghraifft o gynllun adfer diffyg ysgol.**

## 8 CYFRADDAU PRESENOLDEB A PHERFFORMIAD HANNER TYMOR

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Addysg Uwchradd i'r Pwyllgor ei ystyried, yn rhoi amlinelliad o sut roedd pethau'n dod ymlaen gyda gwella presenoldeb mewn ysgolion.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) fod Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad yr Awdurdod yn cynnwys nifer o bwyntiau gweithredu i roi sylw i'r argymhelliad oddi wrth Estyn y dylai'r Awdurdod gynllunio'n fwy effeithiol gyda'r bobl broffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb. Cyfeiriodd y Swyddog at y Strategaeth Cynhwysiad a'r adolygiadau polisi oedd wedi digwydd ers yr Arolygiad. Dywedodd wrth yr Aelodau bod presenoldeb cynradd wedi gwella, o 93% yn 2010/11 i 94.4%, ac felly wedi troi yn ôl y duedd barhaus at i lawr oedd gynt yn digwydd. Roedd presenoldeb uwchradd wedi gwella am y 2 flynedd ddiwethaf, o 90.6% i 92.2%, a thrwy hynny wedi codi'r Awdurdod o sefyllfa 10 i un 13 ymysg awdurdodau Cymru. Roedd gwybodaeth fanylach yn yr adroddiad, ar ffurf graffiau a thablau, yn dangos y gwelliant. Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) sylw penodol at y gwahaniaeth cadarnhaol a ddigwyddodd yn y cyfraddau presenoldeb mewn un ysgol uwchradd trwy gael Swyddog Lles Addysg proffesiynol llawn amser mewn swydd, ynghyd â dechrau ar drefniant monitro wythnosol yn y sector uwchradd yn gyffredinol. Roedd cais am arian twf wedi cael ei baratoi, i ganiatáu ar gyfer cael Swyddog Lles Addysg wedi'i ddynodi i wasanaethu pob un o'r pum dalgylch uwchradd. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at y sefyllfa o ran atal o'r ysgol, ac at y ffaith fod camau wedi digwydd i roi sylw i'r nifer uchel o achosion o atal o'r ysgol am gyfnod penodol mewn dwy ysgol uwchradd, yn ogystal â'r cynnydd yn nifer achosion o atal o ysgolion cynradd. Ar adeg hanner ffordd trwy dymor yr Hydref, roedd ffigyrau'r Awdurdod o ran dyddiau wedi'u colli oherwydd atal o'r ysgol yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r ffigyrau ar gyfer yr un cyfnod dros y 4 blynedd diwethaf. Gellid gweld hynny oddi wrth y data yn yr adroddiad.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad, a thrafod strategaethau eraill y gallent fod wedi cyfrannu at wella cyfraddau presenoldeb, fel clybiau brecwast. Cyfeiriwyd hefyd at gysylltiad rhwng absenoldebau o'r ysgol a thangyflawni. Roeddent yn pwysleisio'r angen i gael strategaeth wrth gefn yn ei lle pe na fyddai'r cais am Swyddog Lles Addysg yn llwyddo. O ran atal o'r ysgol, dywedwyd wrth yr Aelodau am y llwyddiant a gafwyd ym Môn gyda rheoli symud disgyblion o un ysgol i'r llall os oedd risg iddynt gael eu hatal o'r ysgol oherwydd materion ymddygiad. Hefyd roedd astudiaeth wedi digwydd i weld pa mor ymarferol fyddai sefydlu uned gyfeirio i ddisgyblion oedd angen darpariaeth amgen.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## 9 STRATEGAETH LLYTHRENNEDD DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd copi o'r Strategaeth Llythrennedd ddiwygiedig, ynghyd â chopi o'r Arweiniad Llythrennedd i ysgolion cynradd, i'r Pwyllgor eu hystyried.

Cyfeiriodd Prif Weithredwr Dros Dro Cynnal at y cefndir cenedlaethol, lle'r oedd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) wedi rhoi blaenoriaeth i godi safonau llythrennedd disgyblion. Nod yr Awdurdod Addysg, trwy ddiwygio a chyhoeddi ei Strategaeth Llythrennedd, oedd adeiladu ar yr arferion da ar yr adeg honno yn ysgolion y sir a datblygu ac estyn allan y rheiny i bob sefydliad. Cafodd y strategaeth ei chasglu at ei gilydd ar y sail o wneud arfarniad llawn o'r datblygiadau cyfredol, a dadansoddiad manwl o berfformiad yr Awdurdod. Hynny tra hefyd yn cymryd i ystyriaeth pa mor briodol oedd cynnwys yr adroddiadau ac arweiniad diweddaraf oddi wrth Estyn a'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) ar lythrennedd mewn ysgolion cynradd. Roedd strategaeth gyfatebol yn bodoli ar gyfer y sector uwchradd. Tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau'n benodol at y ffordd pum pwynt o weithredu'r strategaeth, o ran canfod beth oedd anghenion ysgolion a'u blaenoriaethu a darparu cefnogaeth wedi'i gwahaniaethu, ac mewn sicrhau bod y strategaeth yn cyflawni'r deilliannau roedd yn eu dymuno o ran codi safonau llythrennedd. Rhoddodd grynodeb o gynnwys yr arweiniad Llythrennedd a'i bwrpas, o ran dangos yn eglur i ysgolion beth roedd disgwyl iddynt ei wneud gyda gwella safonau llythrennedd a'u procio i arfarnu eu sefyllfa eu hunain o'i chymharu â'r Arweiniad. Wedyn byddai angen penderfynu, ar lefel ysgol, pa rannau oedd angen sylw penodol. Roedd yr Awdurdod yn disgwyl y byddai wedi bod i ymweld â dros hanner ysgolion cynradd y sir ar 'ymweliadau herio' erbyn diwedd Tymor yr Hydref. Pwrpas yr ymweliadau oedd gweld beth oedd yr effaith ar y dechrau oddi wrth weithredu'r strategaeth a lle roeddent wedi'i gyrraedd o ran rhoi'r strategaeth ar waith.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys y Strategaeth Llythrennedd a'r arweiniad cysylltiedig ar gyfer ysgolion cynradd.**

**GWEITHREDU: Prif Weithredwr Dros Dro Cynnal i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod yn Ionawr 2013 er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am beth oedd wedi cael ei gyflawni wrth ddefnyddio'r Strategaeth Llythrennedd Cynradd.**

## 10 CYTUNDEB PARTNERIAETH DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i'w ystyried gan y Pwyllgor, yn rhoi amlinelliad o'r camau a gymerwyd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ysgolion o'r Cytundeb Partneriaeth. Roedd copi o'r Cytundeb Partneriaeth ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1. Hefyd roedd copi o'r arweiniad a gylchredwyd i gyrff llywodraethol ysgolion, a llythyr at Brifathrawon yn gofyn iddynt gadarnhau bod y Cytundeb wedi cael ei drafod gyda llywodraethwyr a staff yr ysgol a'u bod yn derbyn neu'n gwrthod y Cytundeb (Atodiad 2).

Tynnodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes sylw at gefndir yr adroddiad, ar ffurf adroddiad Estyn ar ansawdd gwasanaethau Awdurdod Addysg Lleol i blant a phobl ifanc ym Môn yng Ngorffennaf 2012. Roedd yr arolygwyr wedi gwneud sylwadau am yr angen i sicrhau bod ysgolion yn deall y Cytundeb Partneriaeth a'i oblygiadau a bod y gefnogaeth ac ymyrraeth roedd yr Awdurdod yn eu darparu'n arwain at wella yn yr ysgolion hynny oedd yn achosi pryder. Eglurodd y Swyddog bod y Cytundeb Partneriaeth yn gosod allan beth oedd rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod a rhai'r ysgolion, mewn nifer o feysydd, ac yn ymgorffori'r swyddogaethau statudol oedd wedi'u rhestru ar ail dudalen y Cytundeb. Roedd y swyddogaethau wedi cael eu gosod gyda'i gilydd o dan ddeg pennawd, a chynnwys pob rhan yn rhoi amlinelliad o sut byddai'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a gwella cyfleoedd bywyd. Wedyn aeth y Swyddog ymlaen i dynnu sylw Aelodau at y pedwar categori cefnogaeth a herio y byddai'r ysgolion yn cael eu gosod ynddynt. Roedd y categorïau'n amrywio, rhai angen y lefel isaf o fonitro, wedi'u dynodi'n wyrdd, hyd at y rhai oedd angen cefnogaeth sylweddol, wedi'u dynodi'n goch, ynghyd â natur y gefnogaeth / ymyrraeth ar gyfer y pedwar gwahanol gategori.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys y Cytundeb Partneriaeth.**

**GWEITHREDU : Y cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu maes o law ar yr effaith roedd defnyddio'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i chael ar wella deilliannau yn ysgolion y sir.**

**11 CYNLLUN DATBLYGU ACHREDU'R GWASANAETH IEUENCTID**

Roedd hwn yn adroddiad y Prif Swyddog Ieuenctid, yn rhoi amlinelliad o sut roedd Cynllun Datblygu Achredu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn dod ymlaen o'i gymharu gyda'r targedau wedi'u gosod yng Nghynllun Ôl-arolygiad Dysgu Gydol Oes. Rhoddai'r adroddiad fanylion o bob pwynt gweithredu roedd angen amdano, y swyddog arweiniol ym mhob achos, yr amserlen ar gyfer gweithredu a'r deilliant roedd disgwyl amdano a pha gynnydd oedd wedi digwydd hyd hynny. Dywedodd y Swyddog wrth y Pwyllgor y cai'r Cynllun Datblygu Achredu ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini unwaith roedd wedi cael ei ystyried a'i gadarnhau gan y Panel Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd y cyfarfod hwnnw i ddigwydd ar 6 Rhagfyr.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU: Y Prif Swyddog Ieuenctid i ddarparu copi llawn i'r Pwyllgor Sgriwtini o Gynllun Datblygu Achrediad y Gwasanaeth Ieuenctid, yn ei gyfarfod yn Ionawr 2013.**

**12 GWEITHDREFNAU YSGOL AR GYFER DYSGWYR MWY ABL A THALENTOG / TARGEDAU A OSODIR GAN YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD**

Cytunwyd i ystyried eitemau 12 ac 13 ar y rhaglen gyda'i gilydd. Cyflwynwyd adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor, ar weithdrefnau ysgol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog, ynghyd â thargedau a osodir gan ysgolion cynradd ac uwchradd.

Tynnodd Prif Weithredwr Dros Dro Cynnal sylw'r Aelodau at y templed Holiadur MAT. Lluniwyd hwnnw i alluogi'r Awdurdod i wneud awdit ac i ganfod yr ysgolion roedd ganddynt bolisïau ac arferion penodol yn eu lle i annog a herio disgyblion mwy abl a thalentog, a sefydlu sut roeddent yn gosod targedau i'r disgyblion hynny.

Ystyriwyd yr wybodaeth honno gan yr Aelodau, a gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion o ran yr arbenigedd oedd ar gael mewn ysgolion i herio disgyblion talentog, fel oedd yn briodol yn ôl y maes sgil penodol lle gallai'r talent fodoli. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar bwysigrwydd monitro'r agwedd benodol hon o arfer ysgol, er mwyn sicrhau bod disgyblion talentog yn cael eu herio a'u symbylu ddigon, rhag fod perygl iddynt gael eu dadrithio.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiadau ar eitemau 12 ac 13 a nodi eu cynnwys.**

**GWEITHREDU: Prif Weithredwr Dros Dro Cynnal i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr effaith mae gweithdrefnau penodol ar gyfer disgyblion mwy talentog ac abl yn ei gael ar y cohort hwn o ddisgyblion, ynghyd â'r deilliannau mewn perthynas â chyfarfod targedau a osodwyd.**

**Cynghorydd Derlwyn Hughes**

**Cadeirydd**

RHIF EITEM AGENDA .
[Nid ar gyfer ei gyhoeddi yn rhinwedd
Paragraff(au) ...... Atodiad 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972]

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i | Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad | Ionawr 14 2013 |
| Pwnc | Moderneiddio Ysgolion Môn |
| Deilydd(ion) Portffolio | Y Cynghorydd Goronwy Parry MBE |
| Swyddog(ion) Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth (Addysg)<br>Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion |
| Swyddog Cyswllt | Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion |

**Natur a'r rheswm dros adrodd**

I adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar y broses ymgynghori anffurfiol a gynhaliwyd mewn tair ysgol yn ardal De Ddwyrain Môn ym mis Medi a Hydref 2012. Ym mis Ionawr 2012, rhoddwyd caniatâd gan Fwrdd y Comisiynwyr i awdurdodi swyddogion y Gwasanaeth Addysg i ymweld â'r ardal er mwyn ymgynghori ar opsiynau posibl ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.

**A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion**

Ym mis Ionawr 2012, rhoddodd Bwrdd y Comisiynwyr yr awdurdod i alluogi swyddogion y Gwasanaeth Addysg i ymweld ag ysgolion yn Ne Ddwyrain Môn er mwyn ymgynghori ar opsiynau ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.

O gael yr awdurdod hwn, a chwblhau'r ymgynghori, mae'r Gwasanaeth Addysg wedi paratoi nifer o opsiynau posibl ac yn adrodd yn ôl arnynt

**B - Ystyriaethau**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden a gynhaliwyd ar Dachwedd 21, 2012.

| C – Goblygiadau ac effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Y disgwyliad yw y bydd arbedion refeniw o'r trefniadau tymor byr, a hynny ar ol ystyried cost cludiant ac unrhyw gostau trosiannol.<br><br>Ar gyfer yr opsiynau tymor canol, mae astudiaeth dichonoldeb ar y gweill i sicrhau gwybodaeth lawn am gostau a ffynonellau cyllido y rhaglen rhesymoli ysgolion. Cyflwynir adroddiad pellach fel rhan o'r broses cynllunio strategel a hynny'n cynnwys fforddiadwyedd y rhaglen. |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol/Monitro** | Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Ymdrinir â hyn yn y camau ymgynghori |
| 4 | **Y Gwasanaethau Eiddo** | Ymdrinir â'r goblygiadau i'r Gwasanaeth Eiddo ar y lefel briodol |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Byddai unrhyw newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y Gwasanaeth Addysg a TGCh. |
| 6 | **Cydraddoldeb** | Ymgymerir ag asesiadau cydraddoldeb os a phan fo'n ofynnol. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | |
| 8 | **Cyfathrebu** | Byddai'r Gwasanaeth Addysg yn cysylltu â'r Uned Gyfathrebu yn arbennig yn ystod unrhyw gam ymgynghori ffurfiol. |
| 9 | **Ymgynghori** | Mae trafodaethau anffurfiol eisoes wedi digwydd gyda rhanddeiliaid arfaethedig. Unwaith fydd y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion y Gwasanaeth Addysg, bydd ymgynghori ffurfiol yn cychwyn. |
| 10 | **Economaidd** | Bydd darpariaeth bellach yn cymryd i |

| C – Goblygiadau ac effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | ystyriaeth effaith datblygiadau diwydiannol ym Môn ar lefydd gweigion mewn ysgolion. |
| 11 | **Amgylcheddol** | Ymdrinir â hyn fel bo angen. |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 13 | **Cytundebau Deilliant** | |

## CH - Crynodeb

Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith sy'n crynhoi'r broses ymgynghori anffurfiol yn ardal De Ddwyrain Môn. Penderfyniad y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden yn ei gyfarfod ar Dachwedd 21, 2012, oedd:-

Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Ynys Môn gyda'r amodau isod -

- Bod y materion o ran cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u datrys yn foddhaol, a
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.

## D -Argymhelliad

Argymhellir y dylid:
Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Ynys Môn gyda'r amodau isod -

- Bod y materion o ran cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u datrys yn foddhaol, a
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad** | **Emrys Bebb** |
| **Teitl swydd** | **Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion** |
| **Dyddiad** | **Rhagfyr 11 2012** |

| Atodiadau: |
|---|
| Y ddogfen ymgynghori wreiddiol. |

| Papurau Cefndirol |
|---|
| |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

ADRAN DYSGU GYDOL OES
*LIFELONG LEARNING DEPARTMENT*

# YMGYNGHORI AR FODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD SIR FÔN

## ARDAL DE DDWYRAIN MÔN

## *ANGLESEY PRIMARY SCHOOL MODERNISATION CONSULTATION*

*SOUTH EAST ANGLESEY*

Medi / September 2012

| RHIF | CYNNWYS | RHIF Y DUDALEN |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| 1. | RHAGARWEINIAD | 3 |
| 2. | RHESYMAU DROS NEWID | 3 |
| 3. | LLEIHAU LLEFYDD GWEIGION | 6 |
| 4. | MATERION CYLLIDOL | 9 |
| 5. | SAFONAU ADDYSG | 12 |
| 6. | CYFLWR YR ADEILADAU | 19 |
| 7. | TORRI'R CYLCH | 22 |
| 8. | CAPASITI ARWEINYDDOL A RHEOLAETHOL | 23 |
| 9. | OPSIYNAU | 23 |
| 10. | Y BROSES YMGYNGHORI | 28 |
| 11. | Y CAMAU NESAF | 29 |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Ym mis Ionawr 2012 cafwyd cymeradwyaeth wleidyddol wrth i Fwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn awdurdodi swyddogion y Gwasanaeth Addysg i ddechrau'r broses o adolygu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal De Ddwyrain Môn.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn sail i **ymgynghoriad cyhoeddus i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal De Ddwyrain Môn h.y. ymgynghori anffurfiol.** Dyma yw'r rhan gyntaf o broses ymgynghori ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth addysg yn Ne Ddwyrain Môn.

## 2. RHESYMAU DROS NEWID

***1. Lleihau llefydd gweigion.***

Mae llefydd gweigion yn ysgolion Môn ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Yn 2011, roedd 27.7% o lefydd gweigion yn ysgolion cynradd Môn, yr uchaf ond un yng Nghymru. Yn y sector uwchradd, 23.0% oedd y ffigwr cyfatebol.

Tabl 1

| | Môn | Safle yng Nghymru (allan o 22) | Cymru |
|---|---|---|---|
| Llefydd gweigion yn y cynradd | 27.7% | 21 | 20.7% |
| Llefydd gweigion yn y sector uwchradd | 23.0% | 18 | 19.9% |

Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau at aelodau (Cynghorwyr) sy'n Ddeiliaid Portffolio Addysg ym mhob sir yn gofyn iddynt am gynlluniau i wneud cynlluniau i leihau llefydd gweigion mewn ysgolion i 15% erbyn Ionawr 2015.

Nod Llywodraeth Cymru yw i Awdurdodau Lleol gael 10% o lefydd gweigion[1] yn eu hysgolion ac awgrymodd adroddiad annibynnol arall yr un nod [2].

Derbyniodd Cyngor Môn feirniadaeth lem gan y corff arolygu, Estyn, am ddefnydd aneffeithlon o lefydd mewn ysgolion. Felly, mae angen i'r Cyngor leihau'r nifer o lefydd gweigion mewn ysgolion ledled y sir er mwyn gwneud defnydd gwell o'r cyllid sydd ar gael.

[1] Canllawiau Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 021/2009

[2] Adroddiad "Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru" (Vivian Thomas – Mawrth 2011)

## *2. Materion cyllidol*

Mae gwariant cyhoeddus yn cael ei ostwng ym mhob man mewn ymateb i'r dirwasgiad economaidd byd eang. Yn ogystal, mae'r rhagolygon ariannol yn annhebygol o wella gyda phwysau tebyg yn wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru a Phrydain. Golyga hyn fod pob awdurdod lleol yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i'w cyllidebau a bydd hynny'n anorfod yn cael effaith ar wasanaethau. Mae angen i'r Cyngor Sir wneud arbedion sylweddol [tua £12m dros dair blynedd] a bydd yn hyn anorfod yn cael dylanwad ar gyllidebau ysgolion.

Golyga hyn bydd angen rhoi sylw i leihau a chysoni gwariant y pen ar draws ysgolion y Sir. Bydd hyn yn sialens sylweddol ymhob un o'r ysgolion ac yn rhoi pwyslais ar wneud mwy gyda llai o arian.

Yn ôl ffigyrau gwariant ar bob disgybl o wefan StatsWales yn y sector cynradd, y gwariant ym Môn yw £4,146 - hwn yw'r uchaf ond un yng Nghymru yn y sector cynradd am y flwyddyn ariannol 2012-13. (gweler Tabl 2)

Tabl 2

| Awdurdod | Gwariant y pen 2012-13 | Awdurdod | Gwariant y pen 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | £4,209 | Nedd Port Talbot | £3,502 |
| Ynys Môn | £4,146 | Sir Fynwy | £3,501 |
| Dinbych | £4,017 | Merthyr Tydfil | £3,482 |
| Caerdydd | £3,982 | Torfaen | £3,468 |
| Conwy | £3,938 | Casnewydd | £3,454 |
| Gwynedd | £3,929 | Sir y Fflint | £3,433 |
| Powys | £3,848 | Rhondda Cynon Taf | £3,424 |
| Sir Benfro | £3,800 | Abertawe | £3,388 |
| Ceredigion | £3,738 | Bro Morgannwg | £3,383 |
| Sir Gaerfyrddin | £3,680 | Penybont | £3,324 |
| Wrecsam | £3,511 | Caerffili | £3,062 |
| Blaenau Gwent | £4,209 | **Cymru** | **£4,080** |

### *3. Codi safonau*

Mae'r angen i godi safonau yn parhau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, defnyddir dangosyddion diwedd cyfnodau allweddol i gloriannu safonau. Mae Estyn o'r farn bod angen codi safonau diwedd cyfnod allweddol 1 a 2 yn Ynys Môn.

Gwelir Tabl 3 isod am y data am y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2:-

Tabl 3

| | % y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel disgwyliadwy ym Môn | % y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel disgwyliadwy yng Nghymru |
|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | 80.9 | 82.7 |
| Cyfnod Allweddol 2 | 78.6 | 80.0 |

### *4. Sicrhau adnoddau cyfoes o safbwynt ysgolion ac adnoddau dosbarth*

Noda Llywodraeth Cymru fod cael adeiladau sydd yn cyfarfod a disgwyliadau'r unfed ganrif ar hugain, yn addas i bwrpas, yn y lleoliadau iawn, yn cwrdd ag anghenion dysgwyr ac yn adnodd i'r gymuned yn flaenoriaeth. Mae angen hefyd i ddatblygu cyfundrefn addysg gynaliadwy, trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac i gwtogi ar losgi tanwydd ac allyriadau carbon.

### *5. Torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel*

Mae'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru i wella deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig drwy dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel. Dyhead y Cyngor yw y bydd gan bob disgybl y potensial i gyflawni a llwyddo beth bynnag yw cefndir y disgybl. Ym Môn, mae 18.8% o ddisgyblion oed cynradd yn cael cinio am ddim o'i gymharu gyda chyfartaledd o 19.5% trwy Gymru.

### *6. Capasiti arweinyddol a rheolaethol*

Mae ymchwil addysgol yn cydnabod bod arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn gysylltiedig â safonau da - mae ysgolion da yn cael eu harwain yn dda.

Mae gofynion arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau yn debygol o ehangu at y dyfodol. Yn sgil hyn mae angen amser digyswllt digonol i Bennaeth i roi sylw i faterion arweinyddol a rheolaethol.

*7. Dyheadau'r Cyngor Sir*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn am weld pob plentyn, person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag eu bod, yn cyflawni'i potensial ac i fod yn barod i chware rôl amlwg fel dinasyddion cyfrifol ac yn bencampwyr cymunedol. Mae gweledigaeth y Cyngor yn nodi bod gan bob person ifanc, beth bynnag eu cefndir, y potensial i gyflawni a llwyddo. Mae hyn yn ganolog i'r weledigaeth ar gyfer Ynys Môn.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor am weld ysgolion sydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y math hun o gyfundrefn yn

- arwain at godi safonau
- ymateb i'r newidiadau sydd yn y gymdeithas, cymunedau a'r economi
- gwella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn benodol yn torri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyflawniad isel.

Mae gan yr Awdurdod ddyhead i ddarparu addysg i holl blant Môn mewn adeiladau modern addas i bwrpas sy'n gallu gwneud y defnydd eithaf o dechnoleg fodern. Mae hon yn nod, tymor canol a hwy, yr adeiledir yn raddol at ei chyflawni. Mae'r Awdurdod hefyd eisiau bod yn rhagweithiol i sicrhau fod plant yn cael eu haddysgu, lle mae hynny'n bosib, o fewn y dalgylch lle maent yn byw.

Os am wireddu hyn mae angen system ysgolion sydd yn fwy effeithiol ac effeithlon – golyga hyn ysgolion sydd yn y llefydd cywir, sy'n cael eu harwain gan Benaethiaid ysbrydoledig a bod digon o amser arweinyddol ganddynt i wneud y gwaith.

Ymhelaethir isod ar bwyntiau 1-6.

3. ***Lleihau llefydd gweigion***

Mabwysiadwyd Fframwaith Polisi gan Fwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Gorffennaf 2011. Roedd y ddogfen yn cydnabod y bydd y broses moderneiddio ysgolion yn golygu "peth cau ysgolion [nid yn unig ac nid o angenrheidrwydd ysgolion bach] a datblygu patrwm newydd o ddarpariaeth."

Mae'r Fframwaith Polisi hefyd yn dweud fod yr "egwyddorion a'r polisïau allweddol a adnabuwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 021/2009 yn ystyriaethau perthnasol". Un o'r ystyriaethau hyn yw "*pan fo gormod o leoedd dros ben mewn ardal, dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu darpariaeth, a lle bo'n ymarferol, gyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn enwedig os oes gan ysgolion lefelau "sylweddol" o leoedd dros ben**."

* *"Diffinnir 'sylweddol' fel 25% neu fwy o gynhwysedd ysgol ac o leiaf 30 o leoedd heb eu llenwi:*

Wrth ddilyn y diffiniad yma, gwelir o Dabl 4 fod Ysgol Beaumaris (112 lle gwag sef 53%) ac Ysgol Llanddona (40 lle gwag sef 71%) yn y categori yma ond fod niferoedd

Ysgol Llangoed (26 lle gwag sef 23%) wedi mynd ychydig o dan y nifer a ddiffinir fel 'sylweddol'.

**Tabl 4** (ffigyrau Medi 2012)

| YSGOL | Cynhwysedd | Nifer y disgyblion 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion |
|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | 211 | 99 | 112 | 53.1% |
| Llanddona | 56 | 16 | 40 | 71.4% |
| Llangoed | 112 | 86 | 26 | 23.2% |

Esbonia hyn pam fod yr ymgynghoriad hwn yn gyfyngedig i'r tair ysgol sydd yn Ne Ddwyrain Môn.

Mae Tabl 5 yn dangos ysgolion dalgylch Ysgol David Hughes yn ôl llefydd gweigion sydd yn yr ysgolion. Gwelir fod 112 o lefydd gweigion (cyfystyr a 53%) yn Ysgol Beaumaris, 40 lle gwag (71%) yn Ysgol Llanddona a 26 lle gwag (23%) yn Ysgol Llangoed. Dengys y rhagolygon y bydd niferoedd y llefydd gweigion yn Ysgol Llanddona yn aros yn uchel sef dros 60%. Gwelir hefyd y bydd llefydd gweigion yn parhau i fod tua 25% yn Ysgol Llangoed am y blynyddoedd nesaf.

## Tabl 5 - Rhagolygon niferoedd disgyblion yn ysgolion cynradd dalgylch Ysgol David Hughes

| | | 2012 | | | 2013 | | | 2014 | | | 2015 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOL | Cyn-hwysedd | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Lleoedd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion | Cyfanswm 3-11 | Llefydd gweigion | % Llefydd gweigion |
| Beaumaris | 211 | 99 | 112 | 53.1% | 97 | 114 | 54.0% | **93** | 118 | 55.9% | 89 | 122 | 57.8% |
| Brynsiencyn | 90 | 50 | 40 | 44.4% | 48 | 42 | 46.7% | **49** | 41 | 45.6% | 45 | 45 | 50.0% |
| Dwyran | 85 | 28 | 57 | 67.1% | 27 | 58 | 68.2% | **21** | 64 | 75.3% | 21 | 64 | 75.3% |
| Llanddona | 56 | 16 | 40 | 71.4% | 15 | 41 | 73.2% | **18** | 38 | 67.9% | 17 | 39 | 69.6% |
| Llanfairpwll | 328 | 283 | 45 | 13.7% | 272 | 56 | 17.1% | **278** | 50 | 15.2% | 269 | 59 | 18.0% |
| Llangoed | 112 | 86 | 26 | 23.2% | 82 | 30 | 26.8% | **83** | 29 | 25.9% | 81 | 31 | 27.7% |
| Pentraeth | 135 | 92 | 43 | 31.9% | 90 | 45 | 33.3% | **88** | 47 | 34.8% | 81 | 54 | 40.0% |
| Llandegfan | 175 | 141 | 34 | 19.4% | 136 | 39 | 22.3% | **133** | 42 | 24.0% | 127 | 48 | 27.4% |
| Y Borth | 226 | 197 | 29 | 12.8% | 181 | 45 | 19.9% | **170** | 56 | 24.8% | 156 | 70 | 31.0% |
| Parc y Bont | 105 | 96 | 9 | 8.6% | 90 | 15 | 14.3% | **89** | 16 | 15.2% | 87 | 18 | 17.1% |
| **CYFANSWM** | **1523** | **1088** | **435** | 28.6% | **1038** | **485** | **31.8%** | **1022** | **501** | **32.9%** | **973** | **550** | **36.1%** |

## 4. *Materion cyllidol*

Cyhoeddwyd adroddiad thematig gan Estyn ym mis Mai 2012 o'r enw "*Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?*" Ynddo, dywedodd Estyn:
"Cost gyfartalog lle gwag yn y sector cynradd yng Nghymru yn 2011-2012 yw £260, ond yn ychwanegol, yr arbediad cyfartalog sy'n deillio o gau ysgol yw £63,500". Felly, ar y sail yma, cost y llefydd gweigion yn y tair ysgol gynradd yn Ne Ddwyrain Môn yw £46,280 sef 178 lle gwag x £260.

Yn y tabl isod, dengys Tabl 6 y ffigyrau ar gyfer y llefydd dros ben yn y tair ysgol gynradd dan sylw ynghyd â'r ffigyrau cyfatebol am weddill ysgolion y dalgylch er gwybodaeth:-

<u>**Tabl 6**</u>

| Ysgol | Cynhwysedd | Disgyblion (Medi 2012) | Nifer llefydd dros ben (a chost) | % llefydd dros ben | % all ddalgylch |
|---|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | 211 | 99 | 112 (£29,120) | 53.1% | 9% |
| Llanddona | 56 | 16 | 40 (£10,400) | 71.4% | 0% |
| Llangoed | 112 | 86 | 26 (£6,760) | 23.2% | 30% |
| Brynsiencyn | 90 | 50 | 40 (£10,400) | 44.4% | 2% |
| Llanfairpwll | 328 | 283 | 45 (£11,700) | 13.7% | 24% |
| Pentraeth | 135 | 92 | 43 (£11,180) | 31.9% | 18% |
| Llandegfan | 175 | 141 | 34 (£8,840) | 19.4% | 34% |
| Dwyran | 85 | 30 | 55 (£14,300) | 64.7% | 11% |
| Y Borth | 226 | 197 | 29 (£7,540) | 12.8% | 14% |
| Parc y Bont | 105 | 96 | 9 (£2,340) | 8.6% | 45% |
| **Cyfanswm** | **1523** | **1090** | **433 (£112,580)** | **28.4%** | **22%** |

Cyfartaledd y llefydd gweigion presennol rhwng y tair ysgol ym Medi 2012 yw 47% o'i gymharu gyda chyfartaledd o 27.7% yn ysgolion cynradd Môn.

Gwelir o Dabl 7 isod nifer y plant all ddalgylch sydd yn y tair ysgol ac o ble mae nhw'n dod (yn seiliedig ar ffigyrau 2011/12):-

<u>**Tabl 7**</u>

| Ysgol | % all ddalgylch | O ddalgylch pa ysgol gynradd mae'r disgyblion all ddalgylch yn dod? (Ffigyrau 2011/12) |
|---|---|---|
| Beaumaris | 9% | Llanddona, Llannerchymedd, Pentraeth |
| Llanddona | 0% | - |
| Llangoed | 30% | Beaumaris, Bryngwran, Llansadwrn |
| **Cyfanswm** | **22%** | |

Dengys Tabl 8 isod y gwariant y pen ym mhob ysgol yn y dalgylch a’r amrywiant sydd o gyfartaledd y dalgylch a’r sir.

**Tabl 8**

| Ysgol | Cynhwysedd | Disgyblion (Medi 2012) | Nifer llefydd dros ben | Cost llefydd gweigion | % llefydd dros ben | % all ddalgylch | Cyllideb yr ysgol | % o gyllideb yr ysgol | Gwariant y pen 2012/2013 | Amrywiant Dalgylch | | Amrywiant Sir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | £ | % | £ | % |
| Beaumaris | 211 | 99 | 112 | £29,120 | 53.1% | 9% | £463,011 | 6.3% | £4,724 | -£267 | -5.4% | £578 | 14.0% |
| Llanddona | 56 | 16 | 40 | £10,400 | 71.4% | 0% | £163,423 | 6.4% | £10,343 | £5,196 | 104.1% | £6,041 | 145.7% |
| Llangoed | 112 | 86 | 26 | £6,760 | 23.2% | 30% | £357,529 | 1.9% | £4,643 | -£342 | -6.9% | £503 | 12.1% |
| Brynsiencyn | 90 | 50 | 40 | £10,400 | 44.4% | 2% | £172,002 | 6.0% | £4,702 | -£290 | -5.8% | £556 | 13.4% |
| Dwyran | 85 | 30 | 55 | £14,300 | 64.7% | 24% | £195,764 | 7.3% | £5,600 | £608 | 12.2% | £1,454 | 35.1% |
| Llanfairpwll | 328 | 283 | 45 | £11,700 | 13.7% | 18% | £962,985 | 1.2% | £3,276 | -£1,716 | -34.4% | -£871 | -21.0% |
| Llandegfan | 175 | 141 | 34 | £8,840 | 19.4% | 34% | £632,122 | 1.4% | £4,649 | -£342 | -6.9% | £503 | 12.1% |
| Y Borth | 226 | 197 | 29 | £7,540 | 12.8% | 11% | £778,341 | 1.0% | £3,926 | -£1,066 | -21.4% | -£220 | -5.3% |
| Pentraeth | 135 | 92 | 43 | £11,180 | 31.9% | 14% | £390,884 | 2.9% | £4,010 | -£981 | -19.7% | -£136 | -3.3% |
| Parc Y Bont | 105 | 96 | 9 | £2,340 | 8.6% | 45% | £386,883 | 0.6% | £4,494 | -£498 | -10.0% | £348 | 8.4% |
| **Cyfanswm** | 1523 | 1090 | 433 | £112,580 | 28.4% | **22%** | £4,502,944 | 2.5% | - | - | - | - | - |
| **Cyfartaledd ysgolion cynradd y dalgylch** | | | | | | | | | £4,992 | £846 | 20.4% | - | - |
| **Cyfartaledd ysgolion cynradd y sir** | | | | | | | | | £4,146* | | | | |

*Cynyddwyd gwariant y pen yn Môn o £3,293 yn 2011/12 i £4,146 yn 2012/13 ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i gynnydd o 25.9%.

Gwelir hefyd effaith cost llefydd gweigion fel % o gyllideb yr ysgol – mae'r ffigwr ar gyfer y dair ysgol dan sylw yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y dalgylch a'r sir. Gwariant y pen yn Ysgol Llanddona (£10,343) yw'r uchaf yn ysgolion cynradd y sir.

## 5. *Safonau Addysg*

5.1 Defnyddir dangosyddion diwedd cyfnod allweddol i gloriannu perfformiad ysgolion. Un dangosydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â safonau addysg yw dangosydd perfformiad Diwedd Cyfnod Allweddol. Gwneir hyn ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Allweddol 1 gynt, 7 oed) a diwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) h.y. % disgyblion yr ysgol a gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig neu uwch (Lefel 2+ ar gyfer CA1 a Lefel 4+ ar gyfer CA2) mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad. Gweler Tabl 9 isod sy'n dangos y patrwm dros y tair blynedd diwethaf.

**Canran sy'n cyrraedd Lefel 2+ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (Cyfnod Sylfaen)**

**Tabl 9**

| | Canlyniadau Ysgol | | |
|---|---|---|---|
| **Enw Ysgol** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
| Ysgol Gynradd Beaumaris | 69.23 | 92.86 | 55.56 |
| Chwarter* | 4 | 1 | 4 |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 50.00 | 66.67 | 75.00 |
| Chwarter | 4 | 4 | 4 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 84.62 | 57.14 | 90.00 |
| Chwarter | 2 | 4 | 2 |
| Cyfartaledd Môn | 70.73 | 77.08 | 72.14 |
| Cyfartaledd Cymru | 74.60 | 74.55 | 76.05 |

*Gosodir ysgolion mewn teulu cinio am ddim ac yna cymherir eu perfformiad. Mae'r ysgolion sydd yn gwneud orau o fewn y teulu yn Chwarter 1 a'r rhai sydd a'r perfformiad isaf yn Chwarter 4.

Dylid nodi bod angen bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau diwedd blwyddyn oherwydd bod nifer y disgyblion yn aml yn fach a bod natur y fintai ac amgylchiadau disgyblion unigol yn gallu cael dylanwad sylweddol. Fodd bynnag, gelir nodi fod perfformiad Ysgol Llangoed wedi bod ychydig yn well nag ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf tra bod Ysgol Beaumaris wedi gwneud yn well nag ysgolion tebyg yn 2009/10. Roedd y patrwm ystadegol ar gyfer Ysgol Llanddona yn awgrymu fod y perfformiad yn is nag ysgolion tebyg.

Rhestrir isod yn Nhabl 10, nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl sef Lefel 3 neu uwch

**Tabl 10**

| Ysgol | L3+ Cymraeg fel iaith gyntaf | | | L3+ Mathemateg | | | L3+ Gwyddoniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
| Ysgol Gynradd Beaumaris | - | 0.00 | 0.00 | 15.38 | 7.14 | 11.11 | 30.77 | 0.00 | 11.11 |
| Chwarter | - | 4 | 4 | 3 | 4 | 3 | 2 | 4 | 3 |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 25.00 | 0.00 | 25.00 | 0.00 | 0.00 | 25.00 |
| Chwarter | 4 | 4 | 4 | 2 | 4 | 2 | 4 | 4 | 3 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 41.67 | 42.86 | 70.00 | 30.77 | 14.29 | 30.00 | 38.46 | 14.29 | 50.00 |
| Chwarter | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Môn | 25.51 | 27.19 | 25.80 | 18.72 | 19.23 | 19.35 | 16.49 | 16.15 | 22.29 |
| Cymru | 26.55 | 27.41 | 30.84 | 22.12 | 22.15 | 23.67 | 24.55 | 24.57 | 26.99 |

Gwelir fod perfformiad Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llanddona ar y cyfan yn is na pherfformiad ysgolion tebyg tra fod perfformiad Ysgol Llangoed ar y cyfan wedi bod yn well nag ysgolion tebyg.

Dengys Tabl 11 isod y patrwm dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn ysgolion y dalgylch yn ogystal â'r ffigyrau ar gyfer Ynys Môn a Chymru.

**Canran sy'n cyrraedd Lefel 4+ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2**

**Tabl 11**

| | Canlyniadau Ysgol | | |
|---|---|---|---|
| **Enw Ysgol** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
| | | | |
| Ysgol Gynradd Beaumaris | 84.62 | 69.23 | 80.00 |
| Chwarter | 2 | 4 | 3 |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 66.67 | 33.33 | 71.43 |
| Chwarter | 4 | 4 | 4 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 63.64 | 100.00 | 64.29 |
| Chwarter | 4 | 1 | 4 |
| Cyfartaledd Môn | 76.70 | 79.89 | 78.60 |
| Cyfartaledd Cymru | 77.03 | 78.16 | 80.00 |

Lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad

Perfformiodd Ysgol Beaumaris yn well na 25% o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair flwyddyn ddiwethaf tra bod Ysgol Llangoed yn y chwarter uchaf mewn un o'r tair flwyddyn ddiwethaf. Mae'r patrwm ar gyfer Llanddona yn awgrymu perfformiad is nag ysgolion tebyg ar gyfer y tair flwyddyn ddiwethaf.

Rhestrir isod yn Nhabl 12, nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl sef Lefel 5 neu uwch

**Tabl 12**

| Ysgol | L5+ Saesneg | | | L5+ Cymraeg fel iaith gyntaf | | | L5+ Mathemateg | | | L5+ Gwyddoniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2010 | 2011 | 2009 | 2010 | 2011 | 2009 | 2010 | 2011 | 2009 | 2010 | 2011 |
| Ysgol Gynradd Beaumaris | 46.15 | 23.08 | 30.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 69.23 | 38.46 | 30.00 | 69.23 | 38.46 | 40.00 |
| Chwarter | 1 | 3 | 2 | 4 | 4 | 4 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 |
| Ysgol Gynradd Llanddona | 0.00 | 0.00 | 57.14 | 0.00 | 0.00 | 28.57 | 0.00 | 33.33 | 57.14 | 0.00 | 33.33 | 57.14 |
| Chwarter | 4 | 4 | 1 | 4 | 4 | 2 | 4 | 2 | 1 | 4 | 2 | 1 |
| Ysgol Gynradd Llangoed | 36.36 | 22.22 | 28.57 | 30.00 | 0.00 | 28.57 | 27.27 | 22.22 | 35.71 | 36.36 | 33.33 | 42.86 |
| Chwarter | 1 | 3 | 2 | 2 | 4 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Môn | 25.62 | 26.90 | 31.26 | 19.18 | 15.65 | 20.94 | 27.50 | 26.23 | 29.29 | 27.50 | 25.17 | 27.92 |
| Cymru | 27.99 | 28.97 | 30.50 | 23.98 | 24.49 | 25.89 | 29.35 | 29.20 | 31.14 | 30.69 | 30.17 | 30.94 |

Rhoddir ystyriaeth hefyd i bresenoldeb wrth ddefnyddio data i gloriannu perfformiad ysgolion. Gwelir ffigyrau presenoldeb yr ysgolion (Tabl 13) ynghŷd â'u chwarteri:-

**Tabl 13**

| | 2008/09 | | 2009/10 | | 2010/11 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw Ysgol** | **% y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd** | **Chwarter** | **% y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd** | **Chwarter** | **% y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd** | **Chwarter** |
| Beaumaris | 93.41 | 3 | 94.05 | 2 | 93.66 | 2 |
| Llanddona | 95.50 | 1 | 94.75 | 1 | 93.35 | 3 |
| Llangoed | 93.32 | 2 | 91.96 | 4 | 93.75 | 2 |
| Cyfartaledd Môn | 93.90 | | 93.80 | | - | |

Roedd Ysgol Beaumaris yn well na 50% o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair flwyddyn ddiwethaf tra bod Ysgol Llanddona yn y chwarter uchaf o ran presenoldeb mewn dwy o'r tair blwyddyn ddiwethaf. Mae'r patrwm ar gyfer Llangoed yn awgrymu perfformiad yn well na 50% o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair flwyddyn ddiwethaf.

Dangosir nifer y disgyblion sydd ag Anghenion Addysg Arbennig (A.A.A.) yn Nhabl 14:-

**Tabl 14**

| Enw Ysgol | Dyraniad A.A.A. (£) | Nifer disgyblion A.A.A. | Nifer disgyblion | % disgyblion A.A.A. | Cost A.A.A. y pen |
|---|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | £16,012 | 52 | 99 | 52.5% | £308 |
| Llanddona | £1,584 | 8 | 16 | 50.0% | £198 |
| Llangoed | £8,839 | 35 | 86 | 40.7% | £253 |
| Brynsiencyn | £4,754 | 13 | 47 | 27.7% | £366 |
| Dwyran | £2,669 | 10 | 35 | 28.6% | £267 |
| Llanfairpwllgwyngyll | £9,505 | 44 | 294 | 15.0% | £216 |
| Llandegfan | £7,837 | 27 | 148 | 18.2% | £290 |
| Borth | £11,340 | 56 | 187 | 29.9% | £203 |
| Pentraeth | £4,834 | 29 | 83 | 34.9% | £167 |
| Parc Y Bont | £2,334 | 9 | 85 | 10.6% | £259 |

Ffigyrau Ionawr 2012 yw'r rhain. Gwelir fod % y disgyblion sydd ag Anghenion Addysg Arbennig (A.A.A.) yn y dair ysgol yn Ne Ddwyrain Môn yn uwch nag ysgolion eraill y dalgylch.

Mae'r corff arolygu ysgolion sef Estyn hefyd yn asesu perfformiad ysgolion ac yn ymweld ag ysgolion er mwyn eu harolygu a byddant yn cynhyrchu adroddiad ar ddiwedd pob arolygiad. Newidiwyd y drefn arolygu yn 2009/10 ond cyn hynny, roeddent yn gofyn 7 cwestiwn allweddol sef:-

| | Cwestiwn allweddol |
|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? |
| 3 | Pa mor dda mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r cymorth i ddysgwyr? |
| 5 | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? |
| 6 | Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? |
| 7 | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau? |

Defnyddiwyd graddfa pum pwynt i gynrychioli'r holl farnau arolygu fel a ganlyn:

| |
|---|
| Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol |
| Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig |

Arolygwyd yr ysgolion canlynol (Tabl 15) o dan y drefn yma a nodir y graddau a ddyfarnwyd (CA yw Cwestiwn Alweddol yn y cyswllt yma):-

**Tabl 15**

| **Ysgol gynradd** | **Dyddiad** | CA1 | CA2 | CA3 | CA4 | CA5 | CA6 | CA7 | 'Cyfartaledd' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | 15 Ionawr 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 | 2.29 |
| Llanddona | 24 Ionawr 2006 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2.00 |
| Llangoed | 19 Ionawr 2009 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2.14 |
| Brynsiencyn | 3 Mai 2006 | 2 | 3 | 3 | 3 | 4 | 4 | 3 | 3.14 |
| Y Borth | 17 Mai 2010 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1.00 |
| Pentraeth | 8 Mai 2006 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 | 1.43 |
| Parc Y Bont | 11 Tachwedd 2008 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1.00 |

Ar ôl 2009/10, lleihawyd nifer y cwestiynau i 3 ond roedd is rannau iddynt. Y tri Cwestiwn Allweddol yw:-

| |
|---|
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? |
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? |
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |

Ers mabwysiadu'r drefn newydd, arolygwyd yr ysgolion canlynol yn nalgylch Ysgol David Hughes :-

**Tabl 16**

| Ysgol | Llanddona | Dwyran | Llanfairpwll | Llandegfan |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Ionawr 2012** | **Mawrth 2010** | **Tachwedd 2010** | **Medi 2010** |
| Cwestiwn Allweddol 1 | Da | Da | Da | Da |
| Safonau | Da | Da | Da | Da |
| Lles | Da | Da | Rhagorol | Da |
| Cwestiwn Allweddol 2 | Da | Da | Da | Da |
| Profiadau dysgu | Digonol | Digonol | Da | Da |
| Addysgu | Da | Da | Da | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da | Da | Da | Da |
| Yr amgylchedd ddysgu | Da | Da | Rhagorol | Da |
| Cwestiwn Allweddol 3 | Da | Da | Da | Da |
| Arweinyddiaeth | Digonol | Da | Da | Da |
| Gwella ansawdd | Da | Digonol | Digonol | Da |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da | Da | Rhagorol | Da |
| Rheoli adnoddau | Da | Da | Da | Da |
| Perfformiad Cyfredol | Da | Da | Da | Da |
| Rhagolygon Gwella | Da | Digonol | Da | Da |

Gweler y tabl isod am ystyr y farn a roddwyd:-

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

## 6. *Cyflwr yr Adeiladau*

6.1 Mae'r ffordd y defnyddir adeiladau ysgol wedi newid, a bydd yn parhau i newid. Mae gofynion newydd y cwricwlwm (y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft), datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu neu TGCh (defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol a thechnoleg ddiwifr, er enghraifft) a'r potensial ar gyfer defnydd cymunedol yn golygu bod rhaid ystyried addasrwydd adeiladau os yw'r Cyngor am ymateb yn rhagweithiol i'r materion hyn. Mae cyflwr adeiladau a'r amgylchedd ar gyfer plant a staff hefyd yn fater o bwys wrth ystyried adeiladau'r Cyngor.

6.2 Cynhaliwyd arolygon cyflwr, addasrwydd a chynaliadwyedd yn 2009/10 ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan gwmni ymgynghorwyr E.C.Harris ac fe gynhyrchwyd adroddiad annibynnol ganddynt oedd yn crynhoi'r canlyniadau. Roeddent yn edrych ar nifer o ffactorau (yn ysgolion ledled Cymru) gan gynnwys :

6.2.1 Cyflwr adeilad yr ysgol

6.2.2 Y Tirwedd - nod gwneud arolwg o hyn oedd er mwyn gweld sut oedd nodweddion allanol yr ysgol yn gallu cael effaith uniongyrchol ar addysg. Roedd y syrfewyr yn edrych allan am bethau fel:-
llefydd y tu allan y gall dosbarthiadau ymgynnull er mwyn gweithio.
Oes 'na lefydd i dyfu bwyd ac i bethau fel llefydd chwarae anffurfiol.

6.2.3 Digonolrwydd – Roedd y syrfewyr yn dyfarnu os oes digon o le i staff a disgyblion gael teimlad o ofod personol.

6.2.4 Addasrwydd - roedd y syrfewyr yn ceisio casglu gwybodaeth o bob rhan o ysgol i weld beth oedd addasrwydd yr ysgol ar gyfer dibenion addysg. Ystyriwyd materion fel iechyd a diogelwch, hyblygrwydd gofod, maint a siâp yr ysgol, awyriad, goleuo, acwsteg, lleoliad, storio, gosodion a ffitiadau ac isadeiledd TGCh.

6.2.5 Cynaladwyedd - roedd y syrfewyr yn nodi gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni'r goleuo a'r offer gwresogi, rheolaeth y drefn gwresogi, cadwraeth dŵr, ailgylchu gwastraff a'r asesiad Tystysgrif Arddangos Ynni. Mae arolwg cynaliadwyedd yn edrych ar yr ardaloedd hynny sy'n effeithio ar gynaliadwyedd amgylchedd, cymdeithasol ac economaidd yr ysgol (egni, gwres, diogelwch).

6.2.6 O ystyried y pwyntiau o dan y penawdau uchod, cyfrifwyd sgôr allan o'r pum ffactor uchod i roi sgôr allan o 100 i'r ysgolion. Gweler crynodeb o'r arolygon yn Nhabl 17.

**Tabl 17**

| Ysgol | Cyflwr[1] | Tirwedd | Digonolrwydd | Addasrwydd[2] | Cynaladwyedd[3] | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | B | C | D | B | C | 46 |
| Llanddona | B | D | D | A | C | 55 |
| Llangoed | B | C | A | A | B | 60 |
| Dwyran | B | D | D | B | B | 45 |
| Brynsiencyn | B | C | D | B | C | 46 |
| Pentraeth | B | C | D | A | C | 58 |
| Borth | B | C | D | A | C | 58 |
| Llandegfan | B | C | D | A | B | 60 |
| Parc Y Bont | B | C | C | A | B | 66 |
| Llanfairpwll | B | C | A | A | B | 78 |

Sgôr uchaf yw'r gorau

[1]*Categorïau Cyflwr Adeilad*
Categori A – Da
Categori B – Boddhaol
Categori C – Gwael
Categori D – Gwael Iawn

[2]*Categorïau Addasrwydd*
Categori A - Da - lefelau addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles mewn ysgolion
Categori B – Rhesymol – ond yn effeithio'n andwyol ar ymddygiad / morâl a rheoli
Categori C - Gwael – yn amharu ar ddulliau addysgu
Categori D – Gwael Iawn - sefyllfa ddifrifol a/neu'n methu ag addysgu'r cwricwlwm

[3]*Categorïau Cynaladwyedd*
Categori A – Rhagorol
Categori B – Da neu Uwch na'r Cyfartaledd
Categori C - Gwael
Categori D – Gwael neu Ddim yn Bodoli

6.3 Gwelir o'r tabl uchod mai sgôr adeilad Ysgol Beaumaris yn 8fed, Llanddona yn 7fed a Llangoed yn 3ydd ymysg y dalgylch. Cyflwynir isod fanylion ychwanegol am adeiladau'r ysgolion unigol.

6.4 Ysgol Llanddona

Mae'r adeilad gwreiddiol yn dyddio o cyn 1900 ond bu cryn ail-fodelu yn nechrau'r 1970'au. Erbyn hyn mae dwy ystafell helaeth, neuadd ac ystafell ddistaw yn rhoi lle i gyfanswm o 56 o ddisgyblion. Mae'r adeilad yn addas a'r holl adnoddau a chyfleusterau

ar gael yn hwylus i'r ddau ddosbarth. Mae'r cae yn addas a lle parcio priodol i'r staff ac addasiadau i'r ffordd tuag at yr ysgol wedi eu cwblhau yn ddiweddar.

6.5 Ysgol Llangoed

Agorwyd adeilad presennol yr ysgol yn 1985. Ar wahân i'r addasiadau arferol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mae'r adeilad yn addas a'r holl gyfleusterau arferol yn hwylus i bob dosbarth. Mae'r ddau ddosbarth CA1 [Cyfnod Sylfaen] a'r tri dosbarth CA2 yn rhoi lle i 112 o ddisgyblion sy'n golygu fod tua 26 [23%] o lefydd gweigion.

6.6 Ysgol Beaumaris

Adeiladwyd adeilad presennol Ysgol Beaumaris yn nechrau'r 1950'au. Mae'r adeilad yn addas a'r dosbarthiadau yn ddigonol o ran maint a'r adnoddau angenrheidiol ar gael i bob dosbarth. Mae ystafell wedi ei addasu yn ystafell adnoddau i'r ysgol ac mae Cylch Meithrin yn cyfarfod mewn un ystafell. Mae neuadd helaeth a ffreutur ar wahân. Er bod 3 ystafell nad ydynt yn cyfrif yn yr asesiad llefydd mae 112 [53%] o lefydd gweigion.

6.7 Yn ychwanegol, cynhaliwyd arolygon cyflwr gan syrfewyr y Cyngor o ddiwedd 2011 i ddechrau 2012. Gwelir y canlyniadau am ysgolion cynradd dalgylch Ysgol David Hughes yn Tabl 10. Yn ei adroddiad i Fwrdd Comisiynwyr Cyngor Môn ar Orffennaf 23, 2012, nododd Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) Cyngor Sir Ynys Môn fod gan y Cyngor ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw ar ysgolion Môn sydd gwerth £12.74 miliwn. Mae £7.51 miliwn o hyn angen ei wario ar ysgolion cynradd yn unig. Y gyllideb cynnal a chadw cyfredol yw £740,000 sydd ychydig yn llai na 10% o'r gwariant sydd ei angen.

6.8 Dyfarnwyd fod holl ysgolion y dalgylch yng nghategori B a hynny heb ystyried y gwariant sydd ei angen o safbwynt addasrwydd. Ystyr y graddau a ddyfarnwyd yw:-

Categori A – Da
Categori B – Boddhaol
Categori C – Gwael

Wrth edrych ar Dabl 18, gwelir fod Ysgol Beaumaris yn cael sgôr o 6, Ysgol Llanddona yn cael 32 tra bod Ysgol Llangoed rhwng y ddwy.

**Tabl 18**

| Ysgol | Cyfanswm | Sgôr | Gradd |
|---|---|---|---|
| Beaumaris | £794,069 | 6 | B |
| Llanddona | £51,000 | 32 | B |
| Llangoed | £55,000 | 21 | B |
| Y Borth | £306,750 | 10 | B |
| Pentraeth | £126,600 | 11 | B |
| Brynsiencyn | £120,200 | 18 | B |
| Llanfairpwll | £106,000 | 8 | B |
| Llandegfan | £51,000 | 10 | B |
| Dwyran | £46,620 | 21 | B |
| Parc y Bont | £18,596 | 20 | B |
| **Cyfartaledd dalgylch** | **£167,584** | **16** | - |
| **Cyfartaledd sir** | **£156,472** | **18** | - |
| Cyfanswm | £1,675,835 | - | - |

6.9 Cyfanswm yr ôl-groniad gwaith cynnal a chadw (noder - costau cynnal a chadw yn unig yw hyn nid gwaith gwella) yn y tair ysgol dan ystyriaeth yw oddeutu £900,069. Er hynny, mae'r mwyafrif o'r ôl-groniad yn gysylltiedig ag Ysgol Beaumaris. Felly mae'r gwaith cynnal a chadw ar y tair ysgol yn fwy na chyllideb gyfredol y Cyngor. Ni fyddai delio â'r ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn yr ysgolion hyn yn rhoi cyfleusterau ac amgylchedd dysgu addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, nac yn bodloni gofynion rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru.

## 7. *Torri'r cylch rhwng perfformiad isel a difreintedd cymdeithasol*

Yn ogystal â chynnal a chodi safonau mae disgwyl i ysgolion geisio gwella cyflawniad disgyblion sydd yn dod o gefndir cymdeithasol difreintiedig sef torri'r cylch rhwng difreintedd a chyflawniad isel. Mae ymchwil yn awgrymu bod angen i ysgolion roi ystyriaeth i ddarpariaethau ychwanegol megis clybiau brecwast, clybiau ôl-ysgol, darpariaeth gwarchod; gweithgareddau haf a phenwythnos os am roi gwir sylw i hyn.

Yn ogystal, disgwylir i ysgolion fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgaredd cymunedol. Er mwyn darganfod beth oedd defnydd cymdeithasol o'r ysgolion, cynhaliwyd arolwg anffurfiol ar ddiwedd 2011 drwy holi penaethiaid yr ysgolion, Gwelir y canlyniadau yn Nhabl 19:-

Tabl 19

| YSGOL | Defnydd Cymunedol? | Clwb Brecwast? | Clwb Ar Ol Ysgol? | Ystafell(oedd) i drafod yn gyfrinachol? | Gweithgaredd |
|---|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | Oes | Oes | Oes | Oes | Gwersi Cymraeg |
| Llanddona | Oes | Oes | Nag oes | Nag oes | Cyngor Cymuned, Gwersi Cymraeg, Urdd |
| Llangoed | Nag oes | Oes | Nag oes | Nag oes | - |

Gweler fod defnydd cymunedol o Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llanddona ond nid Ysgol Llangoed. Gwneir defnydd cymunedol o 72% o ysgolion cynradd Môn ac mae Clwb Brecwast ym mhob ysgol gynradd. O'r tair ysgol uchod, dim ond yn Ysgol Beaumaris mae Clwb ar ôl Ysgol.

## 8. *Capasiti arweinyddol a rheolaethol*

Mae ymchwil addysgol yn cydnabod bod arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn gysylltiedig â safonau da - mae ysgolion da yn cael eu harwain yn dda.

Mae gofynion arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau yn debygol o ehangu at y dyfodol. Yn sgil hyn mae angen amser digyswllt digonol i Bennaeth i roi sylw i faterion arweinyddol a rhaeolaethol. Yn wir, gellir dadlau bod angen i Bennaeth fod yn gwbl ddigyswllt os am roi sylw haeddiannol i'r holl ofynion a disgwyliadau a wynebir.

Y sefyllfa gyfredol yn hyn o beth yw :-
Pennaeth Ysgol Beaumaris – dim amser digyswllt
Pennaeth Ysgol Llanddona – 0.5 diwrnod yr wythnos o amser digyswllt
Pennaeth Ysgol Llangoed – 1.5 diwrnod yr wythnos o amser digyswllt

## 9. *Opsiynau*

Wrth ystyried dyfodol addysg gynradd yn Ne Ddwyrain Ynys Môn mae angen rhoi sylw i nifer o ffactorau megis llefydd gweigion, lleihau cost y pen, codi safonau, capasiti arweinyddol a rheolaethol, gallu'r ysgolion i roi sylw i wella cyflawniad disgyblion o gefndir difreintiedig. Yn achos yr adolygiad hwn mae angen rhoi sylw penodol i geisio ateb tymor byr a thymor hir - yn y tymor byr mae'n gwbl hanfodol bod ateb cynaliadwy i sefyllfa Ysgol Llanddona. Bydd angen ateb tymor hir i sefyllfa'r ddarpariaeth addysg yn Ne Ddwyrain Môn.

Yr opsiynau felly ar gyfer yr ysgolion yn Ne Ddwyrain Môn yw:-

1. Parhau i gynnal y tair ysgol.
2. Cau Ysgol Llanddona a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris
3. Cau Ysgol Llanddona a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed.

4. Cau Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris.
5. Ffederaleiddio neu glystyru

## 9.1 Parhau i gynnal Ysgol Llanddona, Ysgol Llangoed ac Ysgol Beaumaris

Mae niferoedd y disgyblion a llefydd gweigion yn y tair ysgol fel a ganlyn:-

**Tabl 20**

| Ysgol | Llefydd | Niferoedd | | | | Llefydd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Llanddona | 56 | 16 | 15 | 18 | 17 | 40 | 41 | 38 | 39 |
| Llangoed | 112 | 86 | 82 | 83 | 81 | 26 | 30 | 29 | 31 |
| Beaumaris | 211 | 99 | 97 | 93 | 89 | 112 | 114 | 118 | 122 |
| | **379** | **201** | **194** | **192** | **181** | **178** | **185** | **185** | **192** |

Wrth ystyried yr opsiwn *status quo* yma mae angen cadw mewn cof:

- fod y cyllid sydd ar gael i'r gwasanaeth yn lleihau ac felly'n gallu cael effaith ddrwg ar y ddarpariaeth
- fod y fformiwla cyllido ar hyn o bryd, yn ffafrio ysgolion bychain fel Ysgol Llanddona
- y rhagwelir na fydd llawer o newid yn niferoedd disgyblion Ysgol Llanddona dros y blynyddoedd nesaf ac felly fydd % llefydd gweigion a chost y pen yn parhau i fod yn uchel.

## 9.2 Cau Ysgol Llanddona a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris

Mae niferoedd y disgyblion a llefydd gweigion yn y ddwy ysgol fel a ganlyn:-

**Tabl 21a**

| Ysgol | Lleoedd | Niferoedd | | | | Lleoedd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Llanddona | 56 | 16 | 15 | 18 | 17 | 40 | 41 | 38 | 39 |
| Beaumaris | 211 | 99 | 97 | 93 | 89 | 112 | 114 | 118 | 122 |
| | **267** | **115** | **112** | **111** | **106** | **152** | **155** | **156** | **161** |

Wrth uno'r ddwy ysgol, byddai'r niferoedd a'r llefydd gweigion fel a ganlyn:-

**Tabl 21b**

| **Uno yn** | Lleoedd | Niferoedd | | | | Lleoedd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Beaumaris | 211 | 115 | 112 | 111 | 106 | 96 | 99 | 100 | 105 |

Petai disgyblion Ysgol Llanddona yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Beaumaris, byddai digon o le iddynt.

Petai disgyblion Ysgol Llanddona yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Beaumaris, byddai'r effaith gyllidol fel a ganlyn:-

**Tabl 22**

| Ysgol | Niferoedd Fformiwla 2012/2013 | Dyraniad 2012/2013* | Dyraniad y pen 2012/2013* | Dyraniad Athro |
|---|---|---|---|---|
| Llanddona | 15.8 | £163,423 | £10,343 | 1.5 |
| Beaumaris | 98.0 | £463,011 | £4,724 | 4.07 |
| | **113.8** | **£626,434** | | **5.57** |
| **Uno yn** | | | | |
| Beaumaris | 113.8 | £509,573 | £4,478 | 4.62 |

Wrth wneud hyn, byddai cost y pen Ysgol Beaumaris yn lleihau o £4,724 i £4,478 ac felly byddai arbediad blynyddol o £626,434 - £509,573 = £116,861

Ar sail lefel cyllido 2012/13 byddai'r dyraniad Ysgol Beaumaris petai disgyblion Ysgol Llanddona yn cael eu symud yno £116,861 yn is na dyraniad y ddwy ysgol ar wahân ond byddai cludiant o Landdona i Beaumaris efallai yn costio tua £25,000, fyddai yn dod a'r gwahaniaeth i lawr i £91,861. Byddai sicrhau gwasanaeth tywysydd yn ychwanegu tua £4,000 at gost y cludiant.

## 9.3 Cau Ysgol Llanddona a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed

Mae niferoedd y disgyblion a llefydd gweigion yn y ddwy ysgol fel a ganlyn:-

**Tabl 23a**

| Ysgol | Lleoedd | Niferoedd | | | | Lleoedd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Llanddona | 56 | 16 | 15 | 18 | 17 | 40 | 41 | 38 | 39 |
| Llangoed | 112 | 86 | 82 | 83 | 81 | 26 | 30 | 29 | 31 |
| | **168** | **102** | **97** | **101** | **98** | **66** | **71** | **67** | **70** |

Petai disgyblion Ysgol Llanddona yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Llangoed, byddai digon o le iddynt.

**Uno'r ddwy ysgol**

**Tabl 23b**

| **Uno yn** | Lleoedd | Niferoedd | | | | Lleoedd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Llangoed | 112 | 102 | 97 | 101 | 98 | 10 | 15 | 11 | 14 |

Petai disgyblion Ysgol Llanddona yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Beaumaris, byddai'r effaith gyllidol fel a ganlyn:-

**Tabl 24**

| Ysgol | Niferoedd Fformiwla 2012/2013 | Dyraniad 2012/2013* | Dyraniad y pen 2012/2013* | Dyraniad Athro |
|---|---|---|---|---|
| Llanddona | 15.8 | £163,423 | £10,343 | 1.5 |
| Llangoed | 77.0 | £357,529 | £4,643 | 3.27 |
| | **92.8** | **£520,952** | | **4.77** |
| **Uno yn** | | | | |
| Llangoed | 92.8 | £394,716 | £4,253 | 3.89 |

Wrth wneud hyn, byddai cost y pen Ysgol Llangoed yn lleihau o £4,643 i £4,253 ac felly byddai arbediad blynyddol o £520,952 - £394,716 = £126,236.

Ar sail lefel cyllido 2012/13 byddai'r dyraniad Ysgol Llangoed petai disgyblion Ysgol Llanddona yn cael eu symud yno £126,236 yn is na dyraniad y ddwy ysgol ar wahân, ond byddai cludiant o Landdona i Langoed efallai yn costio tua £25,000, fyddai yn dod a'r gwahaniaeth i lawr i £101,236. Byddai sicrhau gwasanaeth tywysydd yn ychwanegu tua £4,000 at gost y cludiant.

## 9.4 Cau Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris

Mae niferoedd y disgyblion a llefydd gweigion yn y tair ysgol fel a ganlyn:-

**Tabl 25a**

| Ysgol | Lleoedd | Niferoedd | | | | Lleoedd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Llanddona | 56 | 16 | 15 | 18 | 17 | 40 | 41 | 38 | 39 |
| Llangoed | 112 | 86 | 82 | 83 | 81 | 26 | 30 | 29 | 31 |
| Beaumaris | 211 | 99 | 97 | 93 | 89 | 112 | 114 | 118 | 122 |
| | **379** | **201** | **194** | **192** | **181** | **178** | **185** | **185** | **192** |

Petai disgyblion Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Beaumaris, byddai lle iddynt fel y gwelir yn Nhabl 25b:-

**Tabl 25b**

| **Uno yn** | Lleoedd | Niferoedd | | | | Lleoedd Gweigion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| Beaumaris | 211 | 202 | 194 | 192 | 181 | 9 | 17 | 19 | 30 |

Petai disgyblion Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Beaumaris, byddai'r effaith gyllidol fel a ganlyn:-

**Tabl 26**

| Ysgol | Niferoedd Fformiwla 2012/2013 | Dyraniad 2012/2013* | Dyraniad y pen 2012/2013* | Dyraniad Athro |
|---|---|---|---|---|
| Llanddona | 15.8 | £163,423 | £10,343 | 1.5 |
| Llangoed | 77.0 | £357,529 | £4,643 | 3.34 |
| Beaumaris | 98.0 | £463,011 | £4,724 | 4.07 |
| | **190.8** | **£983,963** | | |

| **Uno yn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beaumaris | 190.8 | £683,897 | £3,584 | 7.31 |

Wrth wneud hyn, byddai cost y pen Ysgol Beaumaris yn lleihau o £4,724 i £3,584 ac felly byddai arbediad blynyddol o £983,963 - £683,897 = £300,066

Ar sail lefel cyllido 2012/13 byddai dyraniad Ysgol Beaumaris petai disgyblion Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed yn cael eu symud yno £300,066 yn is na dyraniad y tair ysgol ar wahân, ond byddai cludiant i Beaumaris efallai yn costio tua £50,000, fyddai yn dod a'r gwahaniaeth i lawr i £250,066. Byddai sicrhau gwasanaeth tywysydd yn ychwanegu tua £8,000 at gost y cludiant.

## 9.5 Ffederaleiddio

Gellid ystyried creu Ysgol Ffederal ar 2 safle rhwng Ysgol Llanddona ag Ysgol Beaumaris neu rhwng Ysgol Llanddona ag Ysgol Llangoed. I wneud hyn byddai angen i Bennaeth yr Ysgol Ffederal fod yn ddigyswllt h.y. peidio a dysgu plant er mwyn ei ryddhau ef neu hi i reoli ac arwain. Byddai hyn yn ei dro'n golygu bod angen cyflogi athro neu athrawes i ddysgu plant yn lle'r Pennaeth. Mewn geiriau eraill byddai ffederaleiddio yn fwy costus na'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Ni fyddai ffederaleiddio fodd bynnag yn lleihau llefydd gweigion nac yn osgoi gwariant cyfalaf i ymateb i ddiffygion adeilad.

## 10. Y BROSES YMGYNGHORI

10.1 Bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff y tair ysgol sy'n rhan o'r cynnig yma yn ogystal â gyda'r cymunedau lleol, cynghorwyr lleol, yr Aelod Cynulliad, yr Aelod Seneddol a Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Bydd y cyfnod ymgynghori anffurfiol yn gorffen ar Hydref 24, 2012.

Mae nifer o gyfarfodydd wedi cael eu trefnu yn ystod y cyfnod hwn fel y dengys Tabl 27:-

**Tabl 27**

| | | **Cyfarfod efo** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2012)** | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| Llanddona | Dydd Llun, Medi 10, 2012 | 3.30 | 5.00 | 6.30 |
| Llangoed | Dydd Mawrth, Medi 11, 2012 | 3.45 | 5.00 | 6.15 |
| Beaumaris | Dydd Mercher, Medi 12, 2012 | 3.45 | 5.00 | 6.15 |

10.2 Mae croeso i chi ofyn cwestiynau i ni ac i ni dderbyn eich barn ar y cynigion naill ai drwy lythyr, e-bost neu drwy gwblhau'r ffurflen ymateb atodol. Dylid anfon eich ymatebion at:

Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion),
Y Gwasanaeth Addysg,
Parc Mownt,
Ffordd Glanhwfa,
Llangefni,
Ynys Môn
LL77 7EY.

Y Cyfeiriad e-bost yw
ysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Dylech sicrhau fod eich ymateb yn cyrraedd Cyngor Môn erbyn Hydref 24, 2012.

Bydd y Cyngor yn casglu eich barnau ac yn eu hystyried cyn gwneud argymhelliad i Fwrdd Comisiynwyr Cyngor Môn ar y ffordd ymlaen. Bydd Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Môn yn ystyried adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghori hwn ac yn ystyried argymhelliad gan swyddogion yn ei gyfarfod yn hwyr yn 2012 neu yn fuan yn 2013.

Mae eich cyfraniadau chi i'r broses fel aelodau'r gymuned yn holl bwysig.

## 11. Y CAMAU NESAF

Dyma'r ymgynghoriad cychwynnol ac **anffurfiol**. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori yma, bydd swyddogion yn coladu'r holl ymatebion a gwybodaeth cyn cyflwyno unrhyw argymhelliad i Fwrdd y Comisiynwyr. Yn y misoedd nesaf, bydd Bwrdd y Comisiynwyr yn ystyried adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghori hwn gan gynnwys yr argymhelliad gan swyddogion y Cyngor.

Os yw Bwrdd y Comisiynwyr yn penderfynu mabwysiadu argymhelliad, bydd cyfnod ymgynghori **ffurfiol** ar opsiwn neu opsiynau a ddewisir.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

ADRAN DYSGU GYDOL OES
*LIFELONG LEARNING DEPARTMENT*

# YMATEB I ADOLYGIAD YSGOLION CYNRADD DE DDWYRAIN MÔN – YMGYNGHORIAD ANFFURFIOL (MEDI – HYDREF 2012)

# RESPONSE TO SOUTH EAST ANGLESEY PRIMARY SCHOOLS REVIEW – INFORMAL CONSULTATION (SEPTEMBER – OCTOBER 2012)

Rhagfyr / December 2012

| RHIF | CYNNWYS | RHIF Y DUDALEN |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| 1. | CEFNDIR | 3 |
| 2. | YMATEBION YSGOL LLANDDONA | 4 |
| 3. | YMATEBION YSGOL LLANGOED | 4 |
| 4. | YMATEBION YSGOL BEAUMARIS | 7 |
| 5. | ARGYMHELLION | 7 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Fel rhan o ymgynghori anffurfiol yn Ne Ddwyrain Môn, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff tair ysgol sy'n rhan o'r ymgynghoriad fel y rhestrir yn Nhabl 1 isod. Roedd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar Ddydd Mercher, Medi 12, 2012 ac yn gorffen ar Ddydd Mercher, Hydref 24, 2012.

**Tabl 1**

| | | Cyfarfod efo | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2012)** | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| Llanddona | Dydd Llun Medi 10 | 3.30 | 5.00 | 6.30 |
| Llangoed | Dydd Mawrth Medi 11 | 3.45 | 5.00 | 6.15 |
| Beaumaris | Dydd Mercher Medi 12 | 3.45 | 5.00 | 6.15 |

1.2 I atgoffa, gwelir y rhestr o'r opsiynau ar gyfer yr ysgolion yn Ne Ddwyrain Môn a gynigwyd sef:

1. Parhau i gynnal y tair ysgol.
2. Cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris
3. Cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed.
4. Cau Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris.
5. Ffederaleiddio neu glystyru

1.3 Casglwyd barnau staff, rhieni, llywodraethwyr ac eraill ac fe'u crynhoir yn yr adroddiad hwn.

## 2. YMATEBION YSGOL LLANDDONA

2.1 Derbyniwyd chwe ymateb gan randdeiliaid Ysgol Llanddona - tri llythyr gan rieni, un gan nain a taid, un arall gan lywodraethwr ond ni ddatganodd y person arall os oedd yn randdeiliad ai peidio. Roeddent yn canmol addysg ddwyieithog yr ysgol ac yn argymell i Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed ac eraill dderbyn plant Ysgol Beaumaris oherwydd cost gwaith cynnal a chadw'r ysgol honno. Nid oeddent yn bleidiol i symud eu plant i Ysgol Beaumaris petai Ysgol Llanddona'n cau gan grybwyll problemau ymddygiad fel y rheswm.

2.2 Yn ogystal â'r uchod, derbyniwyd llythyr ffurfiol yn y Gymraeg a'r Saesneg gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llanddona (gweler Atodiad 1). Barn unfrydol y Corff oedd:

1. Nad oedd yr opsiynau yn gyflawn ac y dylid adnabod a gwerthuso opsiynau eraill.
2. Y dylai cyflwr Ysgol Beaumaris gael ei gydnabod yn llawn mewn unrhyw asesiad.
3. Ar sail barn rhieni disgyblion Ysgol Llanddona, fod yr opsiynau a gynigwyd yn annhebygol o fynd i'r afael â mater llefydd gweigion.

## 3. YMATEBION YSGOL LLANGOED

3.1 Derbyniwyd 127 ymateb gan randdeiliaid Ysgol Llangoed. Roedd yr ymatebion wedi eu cyfansoddi o 53 o lythyrau (41%), 57 ffurflen adborth (45%) ac 18 o negeseuon e-bost (14%). Roedd pob un ohonynt am weld Ysgol Llangoed yn aros ar agor a rhai am i'r opsiwn gael ei ddileu o'r ddogfen.

3.2 Cafwyd un ymateb gan Swyddog Sustrans oedd yn dweud fod Opsiwn 3 yn well o safbwynt ieithyddol ac o safbwynt teithio cynaliadwy i'r ysgol. Roedd nifer o rieni yn ategu hyn ac yn meddwl y byddai gorfod teithio i ysgol arall yn creu problemau traffig a llygredd. Crybwyllodd rhai'r gwobrwyon gwyrdd mae'r ysgol wedi eu hennill yn ddiweddar. Roedd un rhiant yn datgan ei awydd i gael llwybr beicio diogel rhwng Llangoed a Beaumaris.

3.3 Roedd rhai o'r farn na ddylid cau'r Ysgol gan fod safonau addysg mor dda yno (fel y dangoswyd gan y chwarteri perfformiad ac arolygiadau Estyn) a bod ymroddiad y staff yn cyfrannu at hyn. Roedd canmoliaeth fawr i "waith da'r pennaeth, yr athrawon a'r rhieni i greu ysgol hapus, gyfeillgar" ac roedd eraill yn canmol safonau ymddygiad a disgyblaeth yno. Roedd eraill yn teimlo y dylai'r adroddiad fod wedi cynnwys materion goddrychol fel hapusrwydd y plant yn yr adroddiad.

3.4 Pwysleisiodd nifer fod % llefydd gweigion yn Ysgol Llangoed yn is nag yn y ddwy arall dan ystyriaeth a bod ei sgôr am y cyflwr yr uchaf o'r tair dan ystyriaeth ac felly nid oeddent yn gweld synnwyr yn yr opsiwn o gau'r ysgol.

3.5 Gan fod gwariant y pen ar ddisgyblion yn is yn Ysgol Llangoed na'r ddwy arall, nid oedd rhai yn cydweld â'r syniad o gau'r ysgol.

3.6 Gofynnodd un rhanddeiliad am fwy o wybodaeth am y cyfleusterau chwaraeon yn y tair ysgol ac os oedd y ffaith fod "cyfradd gweddol uchel o anghenion A.A.A. yn y tair ysgol yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol."

3.7 Derbyniwyd llythyr gan yr aelod etholedig lleol yn mynegi pryderon rhieni disgyblion yr ysgol a phryderon ei etholwyr. Roedd nifer o drigolion Llangoed a'r cyffiniau yn cytuno gyda'i 12 pwynt.

3.8 Pryder rhai oedd y byddai teithio i Ysgol Beaumaris yn bell i rai plant os fyddai Ysgol Llangoed yn cau. Roedd eraill yn poeni am fynediad at yr ysgol mewn car a phroblemau traffig yno.

3.9 Mynegodd un rhiant ei barn fod y ddogfen yn rhy hir ac yn anodd i rieni ei ddeall ac y dylai'r ddogfen ymgynghori fod wedi cael ei rhyddhau yn gynt.

3.10 Roedd un rhanddeiliad am i'r Cyngor gynyddu trethi er mwyn sicrhau dyfodol gwasanaethau ar yr ynys.

3.11 Gan fod % llefydd gweigion yn uchel yn ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Ysgol David Hughes, roedd rhai'n teimlo y dylid canolbwyntio ar yr ysgolion hynny yn hytrach na De Ddwyrain Môn. Dywedodd tri rhanddeiliad y dylid lleihau Ysgol Gynradd Beaumaris gan fod cymaint o lefydd gweigion yno.

3.12 Cafwyd ymateb gan 2 ddisgybl yn mynegi eu bod eisiau cadw Ysgol Llangoed ar agor gan eu bod yn gwneud nifer o ffrindiau yno.

3.13 Am resymau ariannol, addysgol, cymunedol, ieithyddol a rhesymau eraill, nid oedd rhai rhanddeiliaid yn gweld synnwyr cau'r ysgol. Nid oedd eraill yn meddwl ei bod hi'n deg fod Ysgol Llangoed yn dioddef "oherwydd y ddwy ysgol arall".

3.14 Gwyntyllodd rhai'r syniad o godi ysgol newydd llai i'r ardal yn Beaumaris yn lle'r tair sydd yno ar hyn o bryd. O ystyried yr opsiynau, awgrymodd un trigolyn y dylid cau naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Llanddona a chadw Ysgol Beaumaris fel cyfaddawd. Syniad un llywodraethwr oedd cael un ysgol i blant De Ddwyrain Môn a bod "rhaid diogelu'r iaith Gymraeg yn y rhan yma o'r ynys" ac na wneir hynny "wrth ddefnyddio Ysgol Beaumaris fel y mae hi yn awr".

3.15 Yn ôl un trigolyn Glanrafon ger Llangoed, "gan fod safonau darllen yng Nghymru yr isaf ym Mhrydain, pam ddylem ni beryglu hyn drwy gau Ysgol Llangoed?"

3.16 Derbyniwyd llythyrau gan dair athrawes yn yr ysgol a gan 4 gymhorthydd. Roedd un athrawes yn canmol "cyfathrebu effeithiol" y Pennaeth ac roedd athrawes arall yn "tystio

fod ethos hapus, lefel uchel o ddisgyblaeth a chefnogaeth rhieni" yno. Awgrymodd un athrawes yr opsiwn o ymestyn Ysgol Llangoed a chau Ysgolion Beaumaris a Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion yno. Roedd y cymorthyddion hefyd yn canmol rheolaeth y Pennaeth ond roedd ganddynt bryderon am golli eu swydd ac effaith cau'r ysgol o bosib ar y gymuned.

3.17 Gan fod prisiau tai yn uchel yn Beaumaris, roedd rhai o'r farn y dylid cael tai fforddiadwy yno.

3.18 Awgrymodd un rhanddeiliad y dylid "canoli gweithgareddau a gwasanaethau'r eglwys a'r capeli yn yr ysgol ac y dylid sicrhau fod Ysgol Llangoed yn ysgol ddynodedig Gymraeg a bod mynediad yn unig i blant sydd wedi eu trwytho yn y Gymraeg".

3.19 Derbyniwyd e-bost gan Aelod Cynulliad Ynys Môn yn dweud fod rhanddeiliaid yr ysgol "yn gwrthwynebu'r bwriad i gau Ysgol Llangoed oherwydd eu bod yn teimlo fod yr ysgol yn perfformio'n dda yn academaidd; ei bod yn cael ei rheoli'n dda yn ariannol ac addysgol; a bod ganddi agwedd dda tuag at y Gymraeg. Hefyd, ei bod yn ysgol fodern gyda chostau cynnal a chadw cymharol isel a bod yr ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol."

3.20 Derbyniwyd llythyr gan yr Aelod Seneddol am Ynys Môn yn datgan nad oedd y rhieni yn teimlo eu bod wedi cael digon o amser i weld y ddogfen cyn y cyfarfod ymgynghori.

3.21 Datganodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llangoed ei "anfodlonrwydd llwyr at y bygythiad o gau'r ysgol". Gweler Atodiad 2 am gopi o'r llythyr.

Sylwadau eraill a oedd yn y ffurflenni adborth oedd:-

- Cytuno fod angen i Gyngor Môn wneud arbedion sylweddol ac yn cytuno am y rhesymau dros newid. Roedd ambell i un wedi dadansoddi'r ffigyrau ymhellach ac roedd Ysgol Llangoed yn dod allan yn y pump uchaf ymhlith ysgolion y dalgylch ym mhob un o'r categorïau ganddynt.
- Pryder am nifer y disgyblion sydd wedi symud i Ysgol Llangoed o Ysgol Beaumaris.
- Y bydd rhywfaint o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn Llangoed fyddai yn ei dro yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol.
- Canmoliaeth am y ffordd y mae'r Pennaeth yn rhedeg yr ysgol.
- Canmol addysg ddwyieithog yr ysgol ac fel mae disgyblion yn mynd i Ysgol David Hughes yn derbyn eu haddysg yn y ffrwd Cymraeg.
- Cau Ysgol Beaumaris a dosbarthu'r plant i ysgolion cynradd cyfagos.
- Pwyslais ar ethos gymunedol yr ysgol
- Gan fod yr ysgol i gyd ar un lefel, roedd mynediad i'r anabl tipyn yn haws.
- Roedd rhai'n poeni petai Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed yn cau y byddai hynny'n golygu diwedd siarad y Gymraeg ymhlith plant yr ardal yna o Fôn.
- Nid oedd maint Ysgol Llanddona yn gynaliadwy.

- Nifer yn bleidiol i Opsiwn 3 sef cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed. Roedd hyn ar sail ieithyddol a diwylliannol.

## 4. YMATEBION YSGOL BEAUMARIS

4.1 Derbyniwyd 11 ymateb gan randdeiliaid yr ysgol ar ffurf 2 lythyr (18%), 7 ffurflen adborth (64%) a 2 drwy e-bost (18%). Roedd tri ymateb gan rieni, un gan lywodraethwr ac un gan Bennaeth yr ysgol ond ni ddatganodd y 6 person arall os oeddent yn randdeiliad ai pheidio.

4.2 Sylwadau eraill a oedd yn y ffurflenni adborth oedd:-

- Fod angen i Ysgol Beaumaris gael ei diweddaru, fod yn ysgol werdd ac i fod yn un "state of the art".
- Syndod fod cost y gwaith cynnal a chadw'n uchel iawn.
- Cydnabod problemau'r gorffennol ond ers apwyntio'r Pennaeth newydd, fod awyrgylch cadarnhaol a hyderus yn bodoli yn yr ysgol.
- Canmol cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned
- Ffafrio Opsiwn 4 sef cau Ysgol Llangoed a Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris.

4.3 Yn ei lythyr, dywedodd Cyngor Tref Beaumaris ei fod yn cefnogi "bwriad Cyngor Sir Ynys Môn i gadw Ysgol Beaumaris ar agor" a'i fod yn bryderus am ôl groniad cynnal a chadw'r ysgol.

## 5. ARGYMHELLION

Yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd, 2012, gofynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar opsiwn neu opsiynau i ymgynghori'n ffurfiol arnynt o blith y canlynol:

1. Parhau i gynnal y tair ysgol.
2. Cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris
3. Cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed.
4. Cau Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris.
5. Ffederaleiddio neu glystyru

Yn y cyfarfod hwnnw ar 21 Tachwedd, 2012, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid:-

Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-Ddwyrain Ynys Môn gyda'r amodau isod -

- Bod y materion o ran cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u datrys yn foddhaol, a
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.